

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Einion Offeiriad
a Dafydd Ddu o Hiraddug

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Dylan Foster Evans, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Golygyddion Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

Swyddog Golygyddol

Glenys Howells, MA, ALA

GWAITH
EINION OFFEIRIAD
A DAFYDD DDU O HIRADDUG

golygwyd gan

R. GERAINT GRUFFYDD
a
RHIANNON IFANS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1997

© Prifysgol Cymru ©, 1997.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 13: 978 0 947531 10 2

ISBN 10: 0947531 10 6

Diolchir i'r Academi Brydeinig ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er eng-hraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr. Pan fo darlleniad mewn cromfachau y mae'n amrywiad ar brif ddarlleniad y llawysgrif; a phan fo'r llythyren sy'n cynrychioli'r llawysgrif yn digwydd mewn cromfachau, y mae'n dangos bod y darlleniad a nodir yn amrywiad ar brif ddarlleniad y llawysgrif honno. Defnyddir ffont italig yn y testun i ddynodi diwygiad. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru, staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Mr Daniel Huws, a Mr Tomos Roberts, Archifydd Prifysgol Cymru, Bangor.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a Geiriau.....	xvi
GWAITH EINION OFFEIRIAD	
RHAGYMDRODD	3
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Moliant Syr Rhys ap Gruffudd	7
ATODIAD A: Buddiant i feirdd fyrddau dramwy ...	11
ATODIAD B: Mawr y'th gerais, mwy y'th garaf ...	11
NODIADAU.....	23
MYNEGAI.....	29
Enwau personol	32
Enwau lleoedd	32
ATODIAD C (yr enghreifftiau mydryddol yn fersiwn Llst 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353, o'r Gramadeg).....	33
ATODIAD Ch (yr enghreifftiau mydryddol yn fersiwn Llyfr Coch Hergest o'r Gramadeg, o'u cymharu â'r rhai o Llst 3 a Rhydychen, Coleg Balliol, 353)	85
ATODIAD D (yr enghreifftiau mydryddol yn fersiwn Bangor 1 o'r Gramadeg, o'u cymharu â'r rhai o Llst 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353; lle y ceir bwlch yn Bangor 1, codwyd yr enghreifftiau o lawysgrif Pen 169).....	91
GWAITH DAFYDD DDU O HIRADDUG	
RHAGYMDRODD	103
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
2. Awdl sanctaidd am ddiwedd dyn a'i gorff	107
3. Cywydd o ddechrau'r byd hyd Grist	112
4. Cywydd ar y Deg Gorchymyn.....	144

5. I ferch anhysbys.....	150
NODIADAU.....	151
MYNEGAI.....	159
Enwau personol	161
Enwau lleoedd	161
ATODIAD Dd (yr enghreifftiau mydryddol a geir yn fersiwn Pen 20 o'r Gramadeg)	
	163
MYNEGAI I ATODIADAU C, Ch, D, Dd.....	
	179
Enwau personol	182
Enwau lleoedd	183
MYNEGAI I FESURAU, FFIGURAU A BEIAU ATODIADAU C, Ch, D, Dd.....	
	185
ATODIAD E	
Prifio yr ydwyf fel pur afon—bêr	187
LLAWYSGRIFAU	189
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	197
MYNEGAI I'R BEIRDD.....	201
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU.....	203

Byrfoddau

Llyfryddol

- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921–94*
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942)
- BDG *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*, gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789)
- Beirn *Y Beirniad, 1911–20*
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Bl BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. M. Haycock (Llandybïe, 1994)
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BT *Brut y Tywysogyon Peniarth Ms. 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
- BT (cyf) *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes Peniarth Ms. 20 version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1952)
- BY *Y Bibyl Ynghymraec*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1940)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)

CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CLC	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)
CLIH	<i>Canu Llywarch Hen</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
CO ²	<i>Culhwch and Olwen</i> , ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992)
CTC	C.T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A., Cymru [Bangor], 1973)
Cy	<i>Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1877–1951
Cylchg LIGC	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i> , 1939–
R.R. Davies: CCC	R.R. Davies, <i>Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415</i> (Oxford and Cardiff, 1987)
Deut	'Llyfr Deuteronomium' yn yr Hen Destament
DGG	<i>Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr</i> , gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914)
DGG ²	<i>Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr</i> , gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
Ecs	'Llyfr Ecsodus' yn yr Hen Destament
Egl Ph	Henri Perri: <i>Eglvryn Phraethineb</i> (Llundain, 1595; adargraffiad 1930)
EWSP	<i>Early Welsh Saga Poetry</i> , ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
G	<i>Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg</i> , gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
GBDd	<i>Gwaith Bleddyn Ddu</i> , gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)

- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG² *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (ail arg., Caerdydd, 1963)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- Gen 'Llyfr Genesis' yn yr Hen Destament
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans *et al.* (Aberystwyth, 1997)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. A. Parry Owen a D.F. Evans (Aberystwyth, 1996)

- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GM *Gwassanaeth Meir*, gol. B.F. Roberts (Caerdydd, 1961)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L’œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau’r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- Haf Llawysgrif yng nghasgliad Hafod, yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IG *Gweithiau Iolo Goch*, gol. C. Ashton (Croesoswallt, 1896)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)

- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- Luc ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Luc’ yn y Testament Newydd
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, ed. J. Morris Jones & John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LITA Marged Haycock: ‘Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau’ (Ph.D., Cymru [Aberystwyth], 1983)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWRL Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991)
- ODCC² *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross (second ed., London, 1974)
- P *A Welsh and English Dictionary*, ed. W. Owen-Pughe, (London, 1793–1803).

xiv	GWAITH EINION OFFEIRIAD A DAFYDD DDU
Pant	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PBA	<i>Proceedings of the British Academy</i> , 1903–
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PKM	<i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
R	<i>The Poetry in the Red Book of Hergest</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
RC	<i>Revue celtique</i> , 1870–1934
RWM	<i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
S.D. Rhys: Inst	John David Rhys, <i>Cambro Brytannicæ Cymraecæve Lingvæ Institvtiones et Rvdimenta</i> (Londinium, 1592)
SC	<i>Studia Celtica</i> , 1966–
T	<i>The Book of Taliesin</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
Traeth	<i>Y Traethodydd</i> 1845–
Treigladau	T.J. Morgan, <i>Y Treigladau a'u Cystrawen</i> (Caerdydd, 1952)
TYP ²	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
WCD	P.C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WG	J. Morris Jones, <i>A Welsh Grammar</i> (Oxford, 1913)
WML	<i>Welsh Medieval Law</i> , ed. A.W. Wade-Evans (Oxford, 1909)

- WS *A Dictionary in Englyshe and Welshe*, ed. William Salesbury (London, 1547; adargraffiad 1877, 1969)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gol.	golygydd, golygwyd
<i>a.</i>	<i>ante</i>		gan
adf.	adferf	grb.	gorberffaith
amhff.	amherffaith	grch.	gorchmynnol
amhrs.	amhersonol	grff.	gorffennol
anh.	anhysbys	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ardd.	arddodiad, -iaid	gw.	gweler
arg.	argraffiad	Gwydd.	Gwyddeleg
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	H.	Hen
b.	benywaidd	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
ba.	berf anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf. (f.)	berf, -au	ll.	lluosog; llinell
<i>c.</i>	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c. (g.)	canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
Cym.	Cymraeg	myn.	mynegol
cys.	cysylltair, cysylltiad	n.	nodyn
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dyf.	dyfodol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prff.	perffaith
e.c.	enw cyffredin	prs.	person, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	pth.	perthynol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.p.	enw priod	S.	Saesneg
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
f.	ffolio	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
ff.	ffolios	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	<i>volumes</i>
gn.	geiryn		

GWAITH EINION OFFEIRIAD

Rhagymadrodd

Y mae Einion Offeiriad yn ffigur tra phwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, yn bennaf fel awdur fersiwn cyntaf gramadeg y beirdd. (Gwahaniaethir yma rhwng y fersiwn cyntaf hwnnw a'r ail fersiwn a baratowyd gan Ddafydd Ddu o Hiraddug.)¹ Ni ddywedir yn yr un o destunau canoloesol y gramadeg mai Einion a'i gwnaeth, ond maentumir mewn dau ohonynt mai ef a ddyfeisiodd y mesurau newydd hir a thoddaid, cyrch a chwta a thawddgyrch cadwynog.² Y dyneiddiwr Robert Vaughan o Hengwrt yn llawysgrif LIGC 3029B [= Mos 110], a ysgrifennwyd ganddo yn gynnar yn ei yrfa, a alwodd un o'i gopïau o'r gramadeg yn 'Llyfr Kerddwriaeth a wnaeth Einion Effeiriad o Wynnedd i Syr Rys ap Gruff. ap Howel ap Gruff. ap Ednyfed Vychan yr ynrydedd a moliant iddo ef'.³ Fel y darganfu'r Athro J. Beverley Smith, y mae pedwar cofnod canoloesol yn cyfeirio at ryw Einion Offeiriad, a'r tebyg yw mai awdur y gramadeg ydoedd.⁴ Yn 1334 fe'i cyhuddwyd o fod yn affeithiwr i lofruddiaeth Iorwerth Iau yng nghwmwd Mebwynion (neu Gaerwedros) yng Ngheredigion. Yn 1349 cynhaliwyd cwest arno fel person (sef rheithor) eglwys blwyf Llanrug yn Arfon: bu farw'r flwyddyn honno felly, efallai o'r Pla Du. Yn 1352–3 cofnodir bod tir a fuasai'n eiddo iddo yng nghwmwd Mebwynion bellach yn siêd, fel y disgwyliid os oedd wedi marw; a dwy flynedd yn ddiweddarach fe dystir i'r un perwyl am diroedd o'r eiddo yng nghwmwd Gwidigada yn sir Gaerfyrddin. Y mae'n rhaid ei fod wedi cyfansoddi ei ramadeg rywbryd rhwng 1316/17, pan ganodd Gwilym Ddu o Arfon awdl i Syr Gruffudd Llwyd adeg ei garchariad yng nghastell Rhuddlan, awdl y dyfynnir ohoni yn y gramadeg, a c. 1330, pan wnaed y copi cynharaf o olygiad Dafydd Ddu o waith Einion.⁵ Y mae'r ffaith fod gramadeg Einion yn cynnwys pennill enghreifftiol o awdl i'r uchelwr pwerus Syr Gruffudd Llwyd (a fu farw yn 1335) yn arwyddocaol am fwy nag un rheswm, gan ei bod yn awgrymu ei

¹ R.G. Gruffydd, 'Dafydd Ddu o Hiraddug', LIGC xviii (1994–5), 205–20; *id.*, 'Wales's Second Grammarian: Dafydd Ddu o Hiraddug', PBA xc (1995), 1–29.

² GP 11, 30.

³ RWM i, 23. Sylwer ar gywiriad Mr Daniel Huws i briodoliad J. Gwenogvryn Evans.

⁴ J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 339–47; hon yw'r erthygl sylfaenol ar fywyd Einion Offeiriad.

⁵ GP 9, 28; GGDY cerdd 6. Ymdrinnir â dyddiad fersiwn Dafydd Ddu yn y ddwy erthygl y cyfeirir atynt yn nhroednodyn 1 uchod.

fod ef o leiaf yn rhan o gefndir cyfansoddi'r gramadeg.⁶ A chan fod eglwys blwyf Llanrug, yr oedd Einion yn rheithor arni pan fu farw, o fewn ychydig dros filltir a hanner i lys Syr Gruffudd Llwyd yn Ninorwig, y mae'n bosibl mai trwy nawdd Gruffudd Llwyd y derbyniodd Einion y rheithoriaeth yn y lle cyntaf, o bosibl pan oedd o hyd yn ddyn ieuanc.

Eithr os felly y bu, trosglwyddodd Einion ei deymgarwch yn fuan i Syr Rhys ap Gruffudd (c. 1283–1356), nai Syr Gruffudd Llwyd: fel y gwelwyd eisoes, dywed Robert Vaughan mai er moliant ac anrhydedd i Syr Rhys y gwnaethai Einion ei ramadeg. Disgrifiwyd Syr Rhys gan yr Athro R.R. Davies fel llywodraethwr de-orllewin Cymru, i bob pwrpas, yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac y mae'r Athro Ralph Griffiths wedi rhestru'n gyflawn a gofalus yr amryfal swyddi a ddaeth i'w ran (gan gynnwys swydd dirprwy ustus Tywysogaeth De Cymru deirgwaith), a'r amryfal orchwylion a ymddiriedwyd iddo gan y Goron.⁷ Yng nghyffiniau dyffrynnoedd Tywi a Theifi yr oedd ei diroedd brasaf (er bod ganddo ystad hefyd yn Llanrhystud) a hawdd gweld sut y gallai clerigwr yn ei wasanaeth fod wedi derbyn tiroedd yn rhodd ganddo yng nghymydau Gwidigada a Mebwynion (ac efallai Gaerwedros). Efallai mai'n unig fel caplan teuluol i Syr Rhys y gweithredai Einion, ond ni fyddai'n syndod o gwbl pe darganfyddid ryw ddydd gofnod yn ei enwi'n rheithor Betws Bledrws ym Mebwynion: byddai'r fan honno'n rhwydd o fewn cyrraedd nid yn unig i Abaty Ystrad Fflur ond hefyd i Ddyffryn Aeron a'r berw llenyddol a fodolai yno yn ystod ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁸

Ei waith

Ac eithrio'r gramadeg, yr awdl a olygir yma yw'r unig waith a gadwyd inni y gellir i sicrwydd ei briodoli i Einion Offeiriad. Awgrymwyd, fodd bynnag, fod yr enghreifftiau o hir a thoddaid a chyrch a chwta a gynhwyswyd yn y gramadeg yn dod o awdl 'serch' goll ganddo i Angharad wraig Ieuan ab Ieuan Llwyd ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron yng nghwmwd Pennardd; cynhwyswyd y rheini yn yr atodiad i'r golygiad hwn.⁹ Trawiadol iawn hefyd yw fod yr ymadrodd tra phrin *rhew rhuddgrys* yn digwydd yn yr awdl isod (ll. 120) ac yn yr awdl fawl ddiennw i Domas ap Rhotbert a gynhwyswyd yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd—yr haen a gysylltir ag Ieuan Llwyd a'i deulu—ac y dyfynnir ei hwyth llinell gyntaf yn enghraifft o fyr a

⁶ Ar Syr Gruffudd Llwyd, gw. J. Beverley Smith, 'Gruffydd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315–18', B xxvi (1974–6), 463–78 a'r cyfeiriadau a roddir yno.

⁷ R.R. Davies: CCC 415; R.A. Griffiths: PW i, 99–102.

⁸ Ar y 'berw llenyddol', gw., e.e., J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', B xx (1962–4), 343–7; R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 157–80; D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii (1981–2), 1–26.

⁹ J. Morris-Jones: CD 342; GP xxxviii a nodyn 4.

thoddaid yn nhestunau Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353, o ramadeg Einion;¹⁰ ysywaeth, ni wyddys dim oll am Domas ap Rhotbert ar wahân i'r awdl, ond y mae'n gwbl bosibl fod Einion wedi canu iddo.¹¹ Ymhellach, ceir yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd, er mewn llaw wahanol i'r awdl, gyfres o bedwar englyn i Syr Rhys ap Gruffudd (ac efallai y dylid ychwanegu atynt englyn arall a roir yn enghraifft yn y gramadeg), a geill mai Einion yw awdur y rhain hefyd. Golygwyd yr awdl a'r gyfres englynion gan Dr Ann Parry Owen mewn cyfrol arall yn y gyfres hon, a chynhwysir yr englyn enghreifftiol o'r gramadeg yn yr Atodiad isod.¹²

Y mae i'r awdl a olygir yma 169 o linellau (neu 177 os cynhwysir y naill neu'r llall o'r ddwy enghraifft o dawddgyrch cadwynog). Pwysleisir tua'i diwedd (llau. 151–5) fod Rhys o hyd yn ifanc, er ei fod eisoes yn eang ei awdurdod yn y de ac yn y gogledd (llau. 41, 44–7, 90–2, 130, 138): awgryma hyn ddyddiad yn gynnar yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sef (yn ôl pob tebyg) tuag adeg llunio'r gramadeg. Awdl fawl gonfensiynol ydyw, yn pwysleisio dewrder Rhys ar faes y gad a'i haelioni yn y llys, gan ei gymharu â llu o arwyr o Fater Prydain (llau. 26–30, 33–5, 37–8, 60, 67, 73, 163), o Fater Ffrainc (ll. 70) a hyd yn oed o Fater Rhufain (llau. 799, 110); ond y mae'n drawiadol mor feistrolgar y cân Einion ar yr hen dannau, ac y mae bron yn sicr ei fod, ar ryw gyfnod yn ei oes, wedi derbyn hyfforddiant gan fardd proffesiynol. Yn ogystal â thri englyn unodl union, cynhwysa'r awdl enghraifft neu enghreifftiau o bob un o'r deuddeg mesur awdl a ddisgrifiodd Einion yn ei ramadeg—y toddaid (llau. 3–10), y gwawdodyn (llau. 11–26), y gyhydedd hir (llau. 45–56), y gyhydedd fer (llau. 57–68),¹³ y rhupunt (llau. 81–6), y byr a thoddaid (llau. 99–117), y gwawdodyn hir (llau. 27–44), y gyhydedd naw ban (llau. 87–98), y clogyrnach (llau. 69–80), yr hir a thoddaid (llau. 122–39), y cyrch a chwta (llau. 144–65), a'r tawddgyrch cadwynog—ac eithrio'n unig y tawddgyrch cadwynog. Eithr gan fod y ddwy enghraifft o dawddgyrch cadwynog a gynhwyswyd mewn gwahanol destunau o ramadeg Einion wedi'u canu i

¹⁰ Ar yr awdl i Domas ap Rhotbert, gw. troednodyn 12 isod; ar y 'drydedd haen', gw. D. Huws, *art.cit.* 9–12 *et passim* a GLIBH 1–15; dyfynnir y llau. dan sylw yn GP 29 a llgr. Rhydychen, Coleg Balliol 353, f. 115^r.

¹¹ Ymddengys erbyn hyn mai yn 1456–7, ac nid yn 1361–2 y bu gŵr o'r enw Thomas ap Robert yn dal swydd *bedellus* yng nghwmwd Mefenydd: cymharer J. Beverley Smith, *art.cit.* 347 nodyn 1; R.A. Griffiths: PW i, 471.

¹² GLIBH cerddi 8 a 9; dyfynnir yr englyn yn GP 7, 26 a llgr. Rhydychen, Coleg Balliol 353, f. 112^v.

¹³ Mewn papur a draddodwyd yn y Ddegfed Gyngres Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Celtaidd yng Nghaeredin, 24 Gorffennaf 1995, dadleuodd Dr Peredur Lynch yn argyhoeddiadol mai Einion Offeiriad a ddug bedwar curiad yn hytrach na thri i'r gyhydedd fer, a chan fod yr adran sydd ar fesur cyhydedd fer yn ei awdl, ynghyd â'r enghraifft o'r mesur yn ei ramadeg, ill dwy'n arddangos y nodwedd hon, mae achos *prima facie* dros dybio mai Einion piau'r enghraifft yn y gramadeg hefyd.

uchelwr a elwir naill ai'n Rhys ap Gruffudd neu'n Rhys,¹⁴ y mae'n bosibl iddynt fod unwaith yn rhan o'r awdl, ac fe'u cynhwysir (eithr wedi'u hargraffu ar wahân) ar ddiwedd y testun isod. Dylid nodi, fodd bynnag, fod pob caniad yn yr awdl fel y cadwyd hi yn y llawysgrifau wedi'u clymu ynghyd â chyrch-gymeriad, a bod y diwedd hefyd yn cyrchu'r dechrau; gallai llinell gyntaf y naill enghraifft o dawddgyrch cadwynog gyrchu diwedd llinell 80, a llinell gyntaf y llall gyrchu diwedd llinell 86, ond ni fyddai wedyn gyrch-gymeriad rhyngddynt hwy a dechrau'r caniadau a fyddai'n eu dilyn. Bodlonir yma ar gyflwyno'r dystiolaeth a gadael i'r darllenydd fyfyrto arni! Cynganeddwyd yr awdl drwyddi ac eithrio ychydig iawn o linellau. Er bod ynddi enghreifftiau prin o gynghanedd gytsain (e.e. ll. 71) a chynghanedd lusg (e.e. llau. 163–4), ac enghreifftiau amlach o lawer o gynghanedd fraidd gyffwrdd (e.e. llau. 72, 76, 78 *et passim*), eto cynganeddion sain a geir ym mwyafrif mawr y llinellau, a chyfartaledd uchel o'r cynganeddion sain hynny'n bengoll. Y mae natur elfennol y gynghanedd yn cyd-daro'n burion â'r dyddiad cynnar ar gyfer cyfansoddi'r awdl a gynigiwyd uchod.

Llawysgrifau

Digwydd yr awdl mewn naw llawysgrif (a cheir hefyd rai llinellau ohoni wedi eu dyfynnu yn llawlyfr rhethreg Henri Perri, *Eglvryn Phraethineb* (Llundain, 1595)). Y mae pump o'r llawysgrifau hyn yn waith dyneiddwyr diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, a thrawiadol yw fod cynifer ohonynt wedi sylweddoli pwysigrwydd yr awdl. Y pum dyneiddiwr oedd Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan (Pen 159), William Middleton o bosibl (Gwyn 4), Thomas Wiliems (BL Add 31055 [= RWM 32]), John Jones o'r Gellilyfdy (Pen 111), a John Davies o Fallwyd (BL Add 14971 [= RWM 21]). Yn ddiweddarach fe'i copiwyd hi gan William Jones o gylch Edward Lhuyd (LIGC 6209E), gan Evan Evans 'Ieuan Fardd' (LIGC 1983B [= Pant 14]), gan William Wynn o Langynhafal (Pen 240) a chan Owen Jones 'Owain Myfyr' a'i nai Hugh Maurice ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (BL Add 31062). Y mae'n syn cystal testun a dros-glywyddwyd yn ystod y ddwy ganrif a hanner rhwng adeg cyfansoddi'r awdl a'r pryd y dechreuodd y dyneiddwyr ei chopio.

¹⁴ Gwelir y naill enghraifft yn GP 12, 31 a llsg. Rhydychen, Coleg Balliol 353, f. 116^v; a'r llall yn J.T. Jones, 'Gramadeg Einion Offeiriad', B ii (1923–5), 198. Er disgrifio'r mesur yn fersiwn Dafydd Ddu, GP 52, nid atodir enghraifft ohono.

1

Moliant Syr Rhys ap Gruffudd

- Rhys ap Gruffudd, fudd feiddiaw, rhuddiawdr—rhysedd,
 Gorfoledd gair foliawdr,
 Rhysfa coron Rhôn, llew, rhenawdr—cedym,
 4 Arfau chwyrn, tÿyrn, hÿeyrn heawdr;
 Rhusfa galon sôn, rhi seiniawdr—arfau,
 Rhuglddraig mewn brwydrau, rhiau, rhuawdr,
 Rhên fedd ddiomedd, amherawdr—llysoedd,
 8 Llyw torfoedd, pobloedd, lluoedd llywiawdr,
 Rhoddion dirfawrion dirfwriawdr—Deifrdref,
 Nodda ef, Ri nef, Naf, hael Greawdr!
- Creawdr, Amherawdr, Llywiawdr llu byd,
 12 Crea gof ynof, enwawg Ysbryd,
 Wrth foli fy rhi rhuglbryd—yn arfau,
 Rhysfâu paladrgrau, aergrau ergryd.
 Llinonbar anwar, nid annwyd yng ngyrd,
 16 Llyna Rys llwry brys breisgion beddyd!
 Llawir a glywir, glwyf enbyd,—yn rhiw,
 Llary ddiedliw, gwiw, gwayw gwyarllyd,
 Lawfuan darian, dewrior yn rhyd,
 20 Llew trin, llyw brwydrin, dibryder Einglbyd,
 Llawn eurllafn drafn, draifn elbyd—eglur,
 Lluniaidd greawdr dur, mur mireinbryd.
 Gogledd argywedd, eirgywir heb wÿd,
 24 Gyflawn yng nghamawn ddawn ddiweglyd.
 Ciglau ddwyn aergwyn ergyd—angheuawl
 Deifr dawl, ail Greidawl wrawl wryd.
- Gwryd mawr i gryd, Greidawl ddewredd,
 28 Gwrawl eryr gwÿr, Gweirydd falchedd,
 Geraint herwydd braint, maint a mawredd,
 Gair dethol rheol Rhufawn Befrwedd.
 Gŵr gwiwlys yw Rhys, rhysedd—gogoniant,
 32 Gwir foliant anant, gloyw ariant gledd,
 Ail Arthur, modur mydr orfoledd,
 Ail Gwalchmai, difai, difebl fonedd,
 Peredur lafnddur, mur marannedd,

- 36 Dâr trychddwyn, meddw ancwyn a medd,
Gwell na Nudd am rudd rodd ddiomedd—naf,
Ail Mordaf rhyddaf, Rhydderch fawredd.
Gwledig arbennig, bennaeth canwledd,
- 40 Gwledydd ddawn gynnydd, gynneddf rhonfedd,
Gwleddfawr gwawr eurglawr, argleddr Gwynedd,
Gwladlwydd glaif hylwydd hil teyrnedd;
Gwledych, Rhys, glyw brys, browysedd—Brython,
- 44 Gwlad Fôn ac Arfon, arfoll Wynedd.
- Gwynedd orfoledd, gwiwnaf anrhydedd,
Gwn gyfedd rhyseidd, Rhys y’th elwir!
Gwawr gwŷr y Deau, gwerin gludwin glau,
- 48 Gwâr wleddau hyglau hoyw glodforir.
Gwalch balch â bwlchlain, gwalchaidd flaidd raidd rain,
Gweilch beilch, bwlch fyddain, gorddain gwrddir.
Llew llafn gynnig hed, llyw glyw glod ehed,
- 52 Llywiawdr anghyffred teyrnged tir,
Llinon belydr briw, llasar ysgwydliw,
Llurugog yn rhiw, cywiw, cywir,
Llwrw-rwydd, hylwydd, hael, llad-ddysg ffysg heb ffael,
- 56 Lliaws rhodd modd mael, nid gwael, neud gwir!
- Gwiraf, haelaf a helaethfudd,
Gwinfaeth arfaeth arfau cyfrudd,
Gwiwlys yw Rhys, rhyswalch brwydrbrudd,
- 60 Gwaywlym, yng ngrym, yng ngreddf Lludd;
Gwaladr paladr pelydr cochrudd,
Gweilging, perging pefrgoedh ddeurudd,
Gwalchmai erfai, arf ddioludd,
- 64 Gwalch maws hynaws traws tros Fôr Rhudd,
Gwanas eurbblas aerblaid llafnsudd,
Gwanaf haf hael, hail ddadannudd,
Gorau gŵr hygar fab Gruffudd,
- 68 Gwawr gwŷr pybyr eryr eurudd.
- Eurudd byddin clodfawr anant,
Eiddaw reol addwyn Rolant,
Mynychwedd arail mewn meddgyrn buail
- 72 Moddgar hail hwyl moliant.
Addurn ail Turn mewn twrneimant,
Addas urddas arddelw moliant,
Eryr mŷr mirain eiriau arwyrain,

- 76 Aerwr cain: caent ariant
Walch balch beilchion garant;
Eddyl beirdd heirdd a'i llochant:
Medrddawn hael arglwydd, mydriaith gyfarwydd,
- 80 Modur rhwydd, rhydd buddiant.
- Buddiant pobloedd, budd byddinoedd, torfoedd terfysg,
Beiddiad cad cadr, baedd briw baladr belydr ar ffysg,
Breisgdrafn yw Rhys, breisgion emys, ymwan addysg,
84 Naf nwyf creulawn, yn arw gamawn, yn aer gymysg,
Pair didramgwydd, pôr pâr ebrwydd, Dofrlwydd Deifrlysg,
Mur mireingall morach diwall, mawrball morbysg.
- 88 Morbysg mirain ffysg ffysgiad eigiawn,
Mawrball, mur diwall, diwyll dreigliddawn,
Mygrwys llys yw Rhys, rhyswalch camawn,
Maer wysg Fflur llafnddur, iaith eglur iawn,
Aer frëyr dymyr deml Mabwyniawn,
- 92 Air digel cwrel Caredigiawn,
Aer elyf gleddyf orgryf orgrawn,
Eryr plant rhyswyr, rhyswr brwydrddawn,
Un amliw arfau arfawg ddigawn,
- 96 Yn emliw etiw ateb cyfiawn,
Yn ymladd yn lladd lluoedd estrawn,
Yn amlaen ymlid croywliid creulawn.
- 100 Creulawn arth camawn, cymar—Cystennin,
Llew byddin blin blaengar,
Hyfro Gymro gymraig ei fâr,
Hyfrwydr aergrwydr ergryd anwar,
Hyfrys emys ymwan ddarpar,
- 104 Hyfryd, cyfryd, cyfred adar.
Hyfrwysg llys yw Rhys, rhwysg faniar—aerddrud,
Eurddraig glud glod wasgar,
Hyglod arfod arfau drydar,
- 108 Hyglau arfau lluchfâu llachar,
Hyglaiif hynaif nid hynaws fâr,
Hoywgledd dyedd dewr Iwl Cesar,
Hyglaer arf rydaer rodiaer—byddinoedd,
- 112 I filoedd ufeliar,
Hygad uriad arail can câr,
Hygall, hyball, hybwyll lafar;
Hygadr paladr pelydr creugar,

- 116 Hygrym, hylwm, hoywlathr aerddar,
 Glaif cythrudd anhygudd *hygar*.
 Anhygar ei bâr, berygl brys—yngyrth
 A bair angau dilys:
- 120 Gwaladr helmdew rhew rhuddgrys,
 Gwayw gwenwynbar rhodiar Rhys.
- Rhys hyfrys emys amlged brydyddion,
 Rhys hysbys ei lys ar les cerddorion,
- 124 Rhys waywdwn yw hwn, honnaid gan Saeson,
 Rhys wiwdeg ofeg, afar annhirion.
 Rhys a wŷs. Pwy Rhys? Rhwysg faon—brwydrsudd!
 Hil Ruffudd waywrudd, wiwraidd ei orddion,
- 128 Îôr, pôr pâr aergrwydr, pair ergryd galon,
 Iaith hylwydd, gyfrwydd gyfryw pendragon.
 Iesu i'w garu!, wŷr gorau hyd Fôn,
 Iesin darian dewrflaidd ym mrwydrson.
- 132 Ei orwydd hylwydd i haelion—ys rhaith,
 Ys maith ar saith o'r saethyddion.
 Saethydd digerydd ac nid dig eron,
 Saethau brys yw Rhys yn rhwysg ymryson,
- 136 Saethyddiaeth arfaeth ag arfau llymion,
 Saethiad mad medrnod o'r mydrnwyd gofion,
 Seithfeirch, pawb a'i peirch, parch Arfon—i'm naf,
 Ef yw'r ehofnaf o'r gwŷr ehofnion!
- 140 Eofn huanwr, enwog wŷs—aerddrud,
 Eurddraig Brydain Ynys,
 Bryswalgyw llyw llurigfrys,
 Rhysedd drwy fawr reufedd Rhys.
- 144 Rhys rhuddlys, rhoddloyw ddillad,
 Rhysedd gwledig drosedd gwlad,
 Rhwysg frwysg fraisg waisg, hardd wisgiad,
 Rhwyf brwydrdrin, cadr orddin cad,
- 148 Rheufedd rhyfedd wasgariad,
 Rhedd rhudd ei rôn rhoddion rhad,
 Rhyswalch ehud mewn cyfranc,
 Rhyswr, ifanc arfeiddiad.
- 152 Ifanc Ffranc Ffrengig ddyad,
 Ifainc a'i mawl, deddfawl dad,
 Iaith gymen aren uriad,
 Iefengtid llary ddilid llad,

- 156 Iawndeg reg rugl estyniad,
Iawnder eurner muner mad,
Iawndemel mewn cadfyfyr,
Iawndaith cerddwyr syberwnad.
- 160 Syberw facwy rhwy rhoddiad,
Syberwyd bryd brwydr gyrchiad,
Sain cain cenedl gynheiliad,
Sawyl gadr bâr gymhariad,
- 164 Safbost rhyfel gymhelri,
Ys hawdd moli pen-cuniad.

Pen-cun llys yw Rhys rhysedd Beli—Mawr,
Amherawdr Romani,
168 Rhwyfbost rhyfel gymhelri
Rhaidd rhoddiog Rhys frowys fri.

Atodiad A

- Buddiant i feirdd fyrddau dramwy,
Dramawr ofwy ofeg hael Nudd,
172 Hoywon a heirdd gan hardd facwy
Fyddant hwy rwy o'i ra a'i rudd;
Arfau pybyr erfai dymyr,
Arfawg frehyr, arf gwŷr gwaywrudd,
- 176 Arial milwyr eirau myfyr:
Eryr rhyswyr Rhys ap Gruffudd.

Atodiad B

- Mawr y'th gerais, mwy y'th garaf,
Ni'th ddigaraf er a gerais,
180 Clod a'th berais, glud y'th baraf,
Unben araf eirau llednais;
Pob hynt afrwydd boed rhagod rhwydd,
Bych rhwyf ganmlwydd ar swydd pob Sais!
- 184 Rhys dawn hylwydd, Rhys didramgwydd,
Rhys deg, f'arglwydd cyflwydd cyflais.

Ffynonellau llinellau 1-169

A—BL Add 14971, 177^v B—BL Add 31055, 70^v C—BL Add 31062, 203^r
 D—Egl Ph, 29 (llau. 5-6), 60 (llau. 113-17) E—Gwyn 4, 50 F—LIGC
 1983B [= Pant 14], ii, 3^v G—LIGC 6209E, 199 H—Pen 111, 232 I—Pen
 159, 137 J—Pen 221, 215 (llau. 1-2) K—Pen 240, 110

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *CF* Rhhyfedd. 3 *AC* rheuawdr. 4 *F* chwyrn cedyrn heyrn; *ABCEGHK*
 huawdr. 5 *BFK* calon. 7 *ABCF-İK* di omedd. 8 *E* llu. 9 *ABCF-İK* dif-
 wriawdr, *E* difeiriawdr. 10 *FK* Naf greawdr. 12 *E* Creaf. 14 *F* aergraw. 16 *F*
 bedydd. 19 *F* dew. 20 *ABFHK* brwydrfin, *CGI* brwydrfin, *E* brwydrdrin; *F*
 diebryder; *BF-İK* einglbryd. 21 *H* drafn drefn; *FK* ellyd. 22 *BEFGİK*
 greawdr mur. 23 *E* gyweir. 24 *ACH* dawn di eglyd, *BEFGİK* ddawn ddi
 eglyd. 25 *E* dwyn; *BGHI* anghenawl. 26 *ABCF-İK* greiddawl. 27 *ABCF-İK*
 mawr gryd; *C* greidiawl, *E* greidaw. 30 *C* ddehol; *ABCE-İK* Ruawn. 32 *AC*
 a wnat, *BF-İK* a wnant. 33 *E* modhur. 34 *ABCF-İK* Walchmai; *ABCF-İK*
 ddifai ddifefl. 35 *BF-İK* llafnddur; *BGHIK* morannedd. 36 *AC* ankwyn
 medd. 37 *ACGHI* no; *FK* fudd. 38 *BK* morda; *BFGI* rydaf, *K* rhyd af. 39
ACGHI kan gwledd. 40 *A-K* dawn; *AC* revfedd, *H* rhevfedd. 41 *E*
 Gwledfawr; *E* Gwyned. 42 *E* Gwlalwydh. 45 *FK* gwnaf. 46 *BFG(H)İK*
 gwiw; *F* ryfedd (*am* gyfedd y *testun*). 48 *ABCF-İK* gwarawdd, *E* Gwarawd.
 49 *AC* bylchlain; *GI* gwlc'haidd; *E* iraidh (*am* flaidd raidd y *testun*). 50 *E*
 gordhir. 52 *ABCEGHİK* anghyfred; *BG(H)İK* teirned, *H* teyrngned *gyda*
teirnged y testun yn amrywiad neu gywiriad; *F* hir. 53 *BGHIK* ysgwyddliw,
C ysmydliw. 55 *E* llwrw rhwydh; *BFGİK* lladdysc, *E* lladh y ffysg. 56
ACEGHI nid gwir. 57 *ABCF-İK* Gwiraf a haelaf; *F* ehelaeth. 58 *BG(H)İK*
 gwiwfaeth, *F* Gwirfaeth. 59 *BFGİK* gwiwlys rrys. 60 *C* ynghrym; *ABCEF-İK*
 ludd. 62 *BGHI* perkyng, *C* pergnig. 65 *AC* lafn sudd, *E* llafnfudh, *F* llafn-
 rudd. 66 *F* Gwnaf; *ABEF-İK* dadannudd, *C* dadurmudd. 67 *C* hugar. 69
ABEGHIK byddyn; *AHI* kloddfawr; *GHI* a nant. 70 [C]. 71 *G* aron. 73
AEGHI twrneinnant. 77 *ABCF-İK* Gwalch. 78 *ABCFGİK* eiddil; *BF-I*
 llechant *gyda* llochant y *testun yn amrywiad yn FH*. 80 *E* Modhur; *C*
 rhybuddiant. 82 *ABEF-İK* Breiddiad *gyda ll. drwy'r -r- yn A*; *E* Baed. 84 *FK*
 credlawn; *C* oer; [E]. 85 *G* ebrwyd; *E* doflwydh. 86 *B* mirei gall; *AC*
 ddiwall. 87 *B* Nwrbysc, *F* Mowrbysc; *BK* physciawd. 88 *FK* mwrball; *E*
 diwyl. 89 *E* lys; *BCGI* kaniawn. 91 *BF-İK* fryhyr. 92 *F* Ceredigiawn. 93
BFK ergryf. 94 *ABCF-İK* brwydr lawn. 95 *A(H)* Yn, *BCF-İK* Ym; *AC*
 ymliw. 98 *ABCEGHİK* emlaen, *F* ymlaen. 101 *F* gymrys, *K* gymraist; *A* i
 bar, *BCF-İK* y barr. 103 *BF-İK* darpar. 105 *BF(H)K* banyar. 106 *F* drud.
 108 *C* llachau llachar, *FK* lluchau llachar. 110 *E* Hynod dhiedh; *ACEH*
 dhewr, *G* dew. 113 *CEH* arial, *G* errail. 114 *BCF-İK* hygall hygall hybwyll
gyda Hygall hyball hybwyll yn amrywiad yn H. 116 *D* Hygrynn; *A-DF-İK*
 helym. 117 *ABEF-İK* kychrudd, (*A*)*C(H)* kothrudd; *ABE-HK* anhygar, *C*
 anhugar. 118 *ABCGHIK* ai bar. 121 *E* rhodhyar rhys. 122 *F* rhyfrys; *E*

prydydhion. 124 *H* honnaidd. 125 *BFGIK* o var, *C* o avar; *AEIH* amhirion. 126 *C* pwy rhwysg; *F* Rhys faon. 127 *E* ordion; [*G*]. 128 *BI* kalonn. 130 *FK* yd Fôn. 132 *F* arwydd; *ABCE-İK* is rraith. 133 *BFGIK* or ssaith; *AGHI* o. 134 *BF-İK* dic geron. 136 *BF-İK* sseithydd aeth ar faeth, *E* Saethydd aeth ar fae. 137 *BFGIK* medr nodd; *ABCF-İK* mydr nawdd. 138 *G* a peirch; *ABCFGHK* ar Von. 140 *BFK* hyf anwar, *GHI* hy anwar; *ABCFGIK* hywys. 142 *ABCGHI* bryswaelgyw, *FK* bryfwael gyw. 143 *A* rhyssedd drwy reufedd Rys, *BK(H)* Rhyssedd drwy r enysedd Rhys, *C* Rhyssedd drwy'r ... reuvedd Rhys, *F* Rhyssedd drwy'r ynysedd Rhys, *G* rryssedd drw ... rensedd Rys, *HI* rryssedd drwy rensedd Rys. 144 *AC* ryddlys roddloyw; *G* dillad. 145 *ACH* gweledic. 146 *E* fraidh; *C* waith; *AC* wisgad. 147 *E* ordin; *GHI* brwydrdin. 148 *BGHI* rrenfedd. 150 *E* crafank. 151 *ABCFK* ieuank, *GHI* iefank. 152 *ABCFK* Ieuank, *GHI* Iefank. 153 *ABCFK* ieuangk, *E* Iyfanc, *G* Iefank, *HI* Iefaink. 155 *ABFGIK* Ieuengtyd, *C* Ieungtyd, *H* ievengtyd. 156 *C* ystyriad, *E* ostyngiad. 157 *ABEFGK* Iowndeg. 158 *E* cod. 159 *E* sybernad. 160 *F* fagwy. 161 *E* Syrberwyd. 162 *BE* gynheliad, *FK* cynheliad. 164 *AGH* Sabosg, *E* Sasbost, (*H*)*I* ssabost; *C* gymerchi. 167 *AC* Rhümani. 168 *C* gymerchi, *F* cymelri.

Ffynonellau Atodiad A

A—BL Add 15046, 76^v B—Card 2.145, 57 C—Card 2.634 [= Haf 24], 339 D—CM 233, 57 E—CM 250, 56^v F—J 111 [= RWM 1], 1134 G—LIGC 1849B, 58^r H—LIGC 3029B [= Mos 110], 16 I—LIGC 5474A [=Aberdâr 1], 834 J—Llst 3, 497 K—Llst 147, 8^v L—Pen 126, 49 M—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 116^v N¹—S.D. Rhys: Inst, 232 N²—S.D. Rhys: Inst, 232–3 N³—S.D. Rhys: Inst, 233 N⁴—S.D. Rhys: Inst, 233

Darlleniadau'r llawysgrifau

170 *FK* Amdyant *gyda llythyren debyg i g rhwng yr -y- a'r -a- yn F*, (*K*) Buddiant, *L* Vuddiant, *N⁴* Amdyrannt bheirdh; *BDEGI* Byrddau. 171 *K* dramwyr *gyda dramawr y testun yn amrywiad*; *K* olwy *gydag ofwy y testun yn amrywiad*; *y ll. yn L yw* o vai o vic hayl hael nud. 172 *HLM* hoywyon a heird gan hard, *N¹N³N⁴* Ac hoewon heirdh, Gann hardh, *N²* Hoewon a' heirdh, a' hardh; *L* heirydd gan veirdd hardd vakw. 173 *C* oeddent hwy, *KN¹N³N⁴* Bhydhant wyrwy *gyda hwy rwy yn amrywiad ar wyrwy yn K*, *N²* Oedhent hwy rhwy, bhedhiant aur rhûdh; *C* oi rhwy ai radd, *G* oe râ di rudd, *H* ae ra ae rud (ae ra ac rud) *I* Oera a'i kudd, *KN¹N³N⁴* Oera a'e' rûdh, *M* oera aerud. 174 *C* o arfav; *L* pur; *C* eiryf ardymyr, *L* ervai dyfyr, *N²* eirybh dymyr. 175 *K* vreyr *gyda vrehir yn amrywiad*, *M* vrohyr; *BDG* Ardd, *LN¹N³N⁴* arth; *IJK* gwayrud, *L* gwyw rudd. 176 *C* arail; *DEGHIN²* eiriau mybhyr, *N¹N³N⁴* Eureu mynyr. 177 *AL* vab.

Ffynhonnell Atodiad B

A—Bangor 1, 5

Darlleniadau'r llawysgrif

182 afrwyth. 185 vy arglwyd.

Teitl

AC I Rys ap Gruffydd ap Hywel ap Gruffydd ap Ednyfed Vychan, *BI* Owdl voliant o waith Einion yffeiriad i R ap gruff ap howel ap gruff ap Ednyfed vychan, *E* Einion offeiriad i R ap Gruff ap Hoell ap Gruff ap Edn Vychan, *FK* Owdl foliant i Rys ap Gruffydd ap Howel ap Gruffudd ap Ednyfed Fychan, o waith Einion Offeiriad Floruit A.D. 1280, *GH* Owdl voliant i Rys ap Gruffydd ap howel ap Gruffydd ap Ednyfed vychan o von.

Olnod

AFGH Einion Offeiriad a'i kant, *C* Einion Offeiriad, *D* Einion Len. ap Gru., *K* Einion Offeiriad ai cant ynghylch y flwyddyn 1280.

Moliant Syr Rhys ap Gruffudd

- Rhys ap Gruffudd, [un] yn anturio [am] anrhaith, un yn lledaenu
 [gwaed] coch [yn] enbydrwydd [brwydr],
 Hyfrydwch [y] moliannwr [ar] air,
 [Un a'i] ymosodiad [ar] frenin Ffrainc, arwr, llywodraethwr
 gwŷr cedyrn,
- 4 Chwyrn [ei] arfau, pennaeth [a] gwasgarwr arfau haearn;
 [Un sy'n] ataliad clod [ymhlith] gelynyon, brenin sy'n barwr
 seiniau [gydag] arfau,
 Gwron parod [ei ergyd] mewn brwydrau, pennaeth, rheolwr,
 [Un] diatal [ei] fedd arglwydd[aid], goruwchlywodraethwr
 llysoedd,
- 8 Llywiwr torfeydd, pobloedd, minteioedd [yr] arweinydd,
 Anrhegion hynod hael yw [eiddo] dymchwelwr chwyrn tref y
 Saeson,
 Bydd yn nawdd iddo, Arglwydd nef, [y] Pennaeth, [y]
 Creawdwr hael!
- 12 Creawdwr, Goruwchlywodraethwr, Arweinydd mintai[r] byd,
 Crea ynof ddawn barddoniaeth, Ysbryd clodfawr,
 Wrth [imi] foli f'arglwydd cyflym ei ddull mewn arfwisgoedd,
 [Yn dwyn] cyrhoedd â gwaywffon waedlyd, [yn codi] arswyd
 [gan] waed brwydr.
 Didosturi [ei] waywffon o bren onnen, nid heb nwyd [yw
 honno] mewn brwydr,
- 16 Wele Rys [yn dilyn] ffordd wyllt gwŷr traed nerthol!
 [Un] haelionus, [ond] peryglus [ei] glwyf, a glywir ar riw,
 [Un] hael [a] dianair, daionus [a chanddo] waywffon waedlyd,
 Tarian[wr y] llaw esgud, arglwydd dewr [yn ymladd] mewn
 rhyd,
- 20 Arwr [mewn] brwydr, llywiwr ymladdfa, diofal o berygl o du'r
 Saeson,
 Arglwydd [y] cyflawn ardderchog gleddyf, un amlwg [ymhlith]
 arglwyddi mawr [eu] perygl,
 Lluniaidd greawdwr creulon, amddiffynnydd hardd ei wedd.
 Difrod [y] Gogledd, [un] ffyddlon i'w air heb anwiredd,
- 24 [Un] a chanddo ddawn berffaith i beidio â ffoi mewn brwydr.
 Clywais ddwyn ergyd angheuol alarus mewn brwydr
 Yn lleihau[r] Saeson, un megis Greidiol o wrhydri arwrol.
- 28 [Un o] wrhydri mawr mewn dychryn, [un o] ddewrder Greidiol,
 Arwr gwrol rhyfelwyr, [un o] harddwch Gweirydd,

- Geraint ydyw o ran rhagorfraint, maintioli a mawrhydi,
 [Un ac iddo] glod dewisol [am] lywodraeth fel Rhufon Befr.
 32 Gŵr [ac iddo] lys hardd yw Rhys, [un o] rwysg gogoniant,
 [Ef] yw gwir [wrthrych] mawl cerddorion [ac iddo] gleddyf o
 arian gloyw,
 Tebyg i Arthur, arglwydd moliant ar fydr,
 Tebyg i Walchmai, di-fai, dilychwin [ei] fonedd,
 [Tebyg i] Beredur dur ei lafn, gwarchodwr cyfoeth,
 36 [Tebyg i] Ddarius yn dwyn clwyf, [a'i] wledd a[']i fedd yn peri
 meddwdod,
 Gwell yw[']r arglwydd am rodd ddiatal [o] frethyn coch na
 Nudd,
 Tebyg i Fordaf haelaf, [o] fawredd Rhydderch.
 [Y] pennaf tywysog, [sy'n] llywydd can gwledd,
 40 [Un a chanddo'r] gamp i oresgyn gwledydd, [a'i] natur [fel]
 ergyd gwaywffon,
 Bras ei wleddoedd yw arglwydd ardderchog ei wlad, cynheiliad
 Gwynedd,
 Llwyddwr gwlad [gydag] arf effeithiol yw[']r un o] hil
 brenhinoedd;
 Bydded iti reoli, Rhys, [yr] arglwydd chwim, egni[']r]
 Brythoniaid,
 44 Wledydd Môn ac Arfon, gwarant Gwynedd.
- [Testun] gorfoledd Gwynedd, o anrhydedd arglwydd gwych,
 Adwaen gydymaith [llawn] rhwysg, Rhys y gelwir di!
 Arglwydd gwŷr y Deau, pobl barod i gynnig gwin,
 48 Canmolir yn afieithus [yr un] coeth [ei] wleddoedd parod iawn.
 Pendefig hardd â llafn danheddog, gwron gwych syth [ei]
 waywffon,
 Pendefigion beilchion, drylliedig fyddent, cwbl gwypm nerthol
 ac eang.
 Arwr [y] llafn [a'i] nod [yn] drawiad, llywiwr llu [a'u] cwrs yn
 glodfawr,
 52 Llywodraethwr caled tâl dyledus tir,
 [Un a'i] waywffon [yn peri] gwaywffyn drylliog, [a] glas [yn]
 lliw [ei] darian,
 Un yn gwisgo llurig ar riw[']r frwydr], [un] tra haeddiannol [a]
 ffyddlon,
 [Un] hawdd ei hynt, llwyddiannus [a] llawagored, [yn] barod [a]
 di-ffael [ei] ddysg [parthed diwallu â] diod,
 56 [Gydag] aml anrheg yn null arglwydd, nid peth gwael [mo
 hynny], dyna'r gwir!

- [Yr] un mwyaf cyfiawn, [y] mwyaf hael ac [un] helaeth ei ffafir,
 [Un a'i] fwriad ar [roi] gwledd o win yw[’r un a’i] arfau’n
 waedlyd oll,
 Gwych ei lys yw Rhys, pendefig-cyrch hyfforddedig mewn
 brwydr,
- 60 [Un] llym ei waywffon, â chadernid [a] gallu cynhenid Lludd;
 Tywysog gwaywffon [y] gwaywffyn cochrudd,
 Cynheiliad, amddiffynnydd [â’r] wyneb disglair hardd,
 [Megis] Gwalchmai godidog, diatal [ei] arf,
- 64 Pendefig tirion llariaidd grymus tros Fôr y Gogledd,
 Cynheiliad llys ysblennydd mintai ryfel [yn trin] llafn sy’n
 treiddio’n ddwfn,
 [Un megis] ystod yd haf ffrwythlon, [un sy’n] adferiad i
 gyfeddach,
- [Y] rhyfelwr gorau yw mab hygar Gruffudd,
 68 Arglwydd rhyfelwyr ffyrnig yw[’r] arglwydd rhagorol.
- [Arglwydd] rhagorol [mewn] byddin [gan] gerddorion hyglood,
 Yn perthyn iddo y mae arfer Rolant ddewr,
 [Un] mynych ei ymddangosiad yn darparu mewn meddgym
 wedi’u gwneud o gym ychen gwyllt
- 72 Gyfeddach ddymunol [ag] afiaith mawl.
 [Un a chando] harddwch megis Turn mewn twrneimant,
 Gwobr anrhydedd [a] hawl [ar] foliant,
 [Un megis] eryr hardd [y] moroedd [a’i] glod [mewn] geiriau,
- 76 [Y] milwr gwych: derbyniai
 Ceraint heirdd [y] pendefig hardd arian [gando];
 [Ef] yw cyrchfan beirdd heirdd sy’n ei anwylo:
 Arglwydd bonheddig a dedwydd, hyddysg mewn cerdd dafod,
- 80 [Yr] arweinydd llawagored, helaeth yw[’r] ffyniant [a rydd].
- Ffyniant pobloedd, mantais byddinoedd, [sef] minteioedd
 cythrwfl,
 Anturiwr nerthol [mewn] brwydr, ymladdwr [y] waywffon
 ddrylliog [ymhlith] gwaywffyn [yn tasgu] ar wasgar,
 Arweinydd cryf yw Rhys [a chando] feirch cryfion, [un yn
 rhoi] hyfforddiant [mewn] ymladd,
- 84 Arglwydd o angerdd ffyrnig, [sydd] yn wrthdaro chwyrn, yn
 dryblith lladdfa,
 Pennaeth sicr ei gerddediad, arglwydd chwim [ei] waywffon,
 [un yn dwyn] ffyniant [hyd at] Ddofr gan losgi Saeson,

Amddiffynnydd teg a chraff llawenydd dihysbydd, [un yn
achosi] prinder mawr [o] bysgod-môr.

- 88 Cyrchwr buan [y] cefnfor [â] chyrch at [y] pysgod-môr heirdd,
Ataliad cadarn, amddiffyniad cyflawn, [un a chanddo] allu eang
[o ran] disgyblaeth,
[Un sy'n peri] galwad gwyach [i] lys yw Rhys, pendefig cyrch
[mewn] brwydr,
Llywodraethwr llafngaled tuedd[au afon] Fflur, [a chanddo]
leferydd tra chllir,
Pennaeth rhyfel eglwystiroedd Mabwynion,
92 [Gŵr] amlwg [ei] glod [a] hardd Ceredigion,
[Y] tra chryf [a'r] tra chrafangus [â] chleddyf [yn medi]
ysbeiliau brwydr,
Gwron plant cyrchwyr, cyrchwr [â] dawn brwydr,
Un amryliw [ei] arfau [yn] arfog ddigonol,
96 Mewn dadl y mae'n gyfiawn [ei] ateb,
Mewn gwrthdrawiad y mae'n taro minteioedd estron,
Ar flaen [yr] ymlid [yr un] eglur ei gynddaredd [a] milain.
- 100 Arwr milain [mewn] brwydr, un tebyg i Gystennin,
Gwron ffyrnig [ac] ymwithiol [mewn] byddin,
Cymro gwlatgar cryf iawn ei lid,
Un parod i frwydr [mewn] ymladdgyrch [a] didostur [ei]
arswyd,
104 [Gyda] meirch rhyfel cyflym [yn] ddarpariaeth [ar gyfer] cyrch,
[Rhai] hyfryd, cytûn, cyn gyflymed ag adar.
[Un] tra grymus [mewn] llys yw Rhys, [yn clywed] clod
beiddgarwch [y] rhyfygus mewn brwydr,
[Y] pennaeth ardderchog yn lledaenu [ei] glod [am] ysbail,
Clodfawr yw [ei] ergyd [mewn] gwrthdrawiad arfau,
108 Atseiniol yw [ei] arfau [â'u] tafliadau fflachiog,
Ymladdgar yw [yr] arglwydd nid tymherus [ei] lid,
[Un a chanddo] gleddyf diwyd Iwl Cesar ddewr adeg rhyfel,
Disglair iawn yw[r un y mae] trwst [ei] arf [yn] dra thaer
[ymhlith] byddinoedd,
112 [Dygiedydd] coelcerth i filoedd,
Pennaeth rhyfelgar yn gwarchod llawer perthynas,
Synhwyrol, ymataliol, pwylllog [ei] leferydd;
Tra chadarn yw [ei] waywffon [ymysg] gwaywffyn gwaedlyd,
116 Yn peri darostwng, tra llym, teg a llathraid yw[r] dderwen
mewn brwydr,
Gwaywffon terfysg yw[r] gŵr amlwg [ac] annwyl iawn.

- Arswydus yw ei waywffon, [ac iddi] fygythiad [yn codi o]
 brysurdeb erchyll
 Sy'n peri marwolaeth sicr:
 120 Pennaeth trwchus ei helmed yw[’r un fel] rhew [a] gwaedlyd ei
 lurig,
 [Megis] poen picell farwol yw trwst tarian Rhys.
- Rhys [a chanddo] feirch rhyfel cyflym [a] beirdd lluosog eu
 rhodd[ion],
 Rhys [a chanddo] lys enwog er budd gwŷr wrth gerdd,
 124 Rhys [a chanddo] waywffon ddrylliog yw hwn, [sy’n]
 adnabyddus i Saeson,
 Rhys [sy’n] dda a hardd [ei] fwriad, [ond yn peri] tristwch
 chwerw.
 Adwaenir Rhys. Pwy yw Rhys? [I] luoedd mawreddog dilëwr
 mewn brwydr!
 [Un o] hil Gruffudd gwaedlyd ei bicell, ei yrdd [ef oedd ei]
 waywffon ardderchog,
 128 Arglwydd, pennaeth gwaywffon [y] wasgarfa frwydr, penadur
 dychryn mawr gelynion,
 Llwyddiannus iawn [ei] leferydd, parod megis pen-arwr.
 Boed i Iesu ei garu!, [y] gŵr gorau hyd Fôn,
 [Gyda] tharian loyw gwron dewr yn nhwrw brwydr.
 132 Y mae’n ddefod [ganddo roi] ei farch buan i wŷr uchel eu tras,
 Y mae ymhell [ar y blaen] i saith o’r gwŷr bwa a saeth.
 Gŵr bwa a saeth di-fai ac nid diellon o’n herwydd,
 Saethau buain yw [rhai] Rhys yn rhuthr [yr] ymryson,
 136 Trin bwa [o] fwriad ag arfau miniog,
 Saethydd cywir yn taro[’r] nod [megis rhai a ddethlir ag]
 atgofion [mewn] angerdd cerdd,
 [Perchen] saith march rhyfel, y mae pawb yn ei fawrhau, [daw]
 mawrhad Arfon i’m harglwydd,
 Ef yw’r beiddgaraf o’r rhyfelwyr beiddgar!
- 140 Gŵr clodfawr di-ofn, un rhyfygus mewn brwydr [ac] enwog [ei]
 alwad,
 Blaenwr campus Ynys Prydain,
 Mab o arweinydd buan [i] bennaeth eiddgar i wisgo arfwisg,
 Rhwysg oherwydd cyfoeth mawr yw [eiddo] Rhys.
- 144 Rhys [yr] arglwyddaidd lys, haelionus ddisglair [ei] ddillad,
 Rhwysg campwriaeth pennaeth gwlad,
 Hardd roddwr arfau, urddasol cryf cadarn [ei] rysedd,

- 148 Rheolwr ymladdfa brwydr, ysblennydd ysgogwr byddin,
 Gwasgarwr cyfoeth rhyfeddol,
 Cysylltwr gwaedlyd ei waywffon [ac iddo] anrhegion haelionus,
 Ymosodwr beiddgar mewn ymladdfa,
 Cyrchwr, anturiwr ifanc.
- 152 Ffrancwr ifanc [ac iddo] ymddangosiad Ffrengig,
 Bydd rhai ifainc yn ei foli, [y] penteulu cyfiawn,
 Pendefig coeth [ei] leferydd [a] huawdl,
 [Yn ei] ieuencid yn foengar yn canlyn cyfeddach,
- 156 Cyflwynwr parod anrheg hardd iawn,
 Uniondeb arglwydd urddasol rhodd ffortunus,
 Noddfa ddiogel yn nhywysiad brwydr,
 Cyrchfan briodol gwŷr wrth gerdd urddasol eu cân.
- 160 [Y mae'r] bachgen ifanc urddasol yn rhoddwr gormodedd,
 [Dyma] urddas meddwl [y] cyrchwr [i] frwydr,
 [Dyma] sôn hardd cynhaliwr tylwyth,
 Un tebyg i Sawyl rymus [ei] waywffon,
- 164 Cynheiliad sefydlog [yng] nghynnwrf brwydr,
 Hawdd yw moli[r] arweinydd pennaf.

- Pen-arglwydd llys yw Rhys [ac iddo] rwysg Beli Mawr,
 Ymherodr [y] Rhufeiniaid,
- 168 Cynheiliad arweiniol [yng] nghynnwrf brwydr
 Yw picell dafledig Rhys disglair [ei] glod.

Atodiad A

- [Un yn peri] llewyrch i feirdd yn tynnu at [ei] fyrddau,
 [Yn ôl] bwriad [yr un megis] Nudd hael [i beri] ymweliad tra
 lluosog,
- 172 Hoenus a gwych drwy [haelioni'r] llanc ifanc gwych
 Fyddant hwy hyd at ormodedd o ran ei ffwr a'i frethyn coch;
 [Gydag] arfau taer [dros] diroedd godidog,
 Uchelwr wedi'i arfogi, [prif] arf rhyfelwyr gwaedlyd eu
 gwaywffyn,
- 176 [O] ynni milwyr [ond â] geiriau ystyrllon:
 Gwron [yr] ymosodwyr yw Rhys ap Gruffudd.

Atodiad B

- Cerais di'n fawr, caraf di'n fwy [eto],
 Ni pheidiaf â'th garu am [y cwbl] a gerais,
- 180 Gwneuthum foliant iti, gwnaf [hynny]'n daer iti [eto],

184 [Y] pennaeth mwyn [â] geiriau llednais;
Pob llwybr anodd boed [iddo fod] yn rhwydd o'th flaen,
Boed iti fod yn rheolwr [am] gan mlynedd ar swydd pob Sais!
Rhys [a chanddo] gynhysgaeth ffyniannus, Rhys nad yw'n
methu [yn ei amcan],
Rhys hardd, f'arglwydd buddugol [a] gweddaidd ei lais.

Nodiadau

I

- 1 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 3 **Rhôn** Cymerwyd mai enw Cym. dinas Rouen yn Ffrainc sydd yma, yn sefyll am deyrnas Ffrainc. Gallai hefyd fod yn enw afon Rhône, gydag ystyr gyffelyb. Annhebyg mai *rhôn* yn golygu 'gwaywffon' ydyw.
- 6 **rhuawdr** Derbynnir awgrym I. Williams, 'Awdl i Rys ap Gruffudd gan Einion Offeiriad', Cy xxvi (1916), 142 mai camgymeriad am *rheawdr* yw hwn; ar hwnnw, gw. CLIH 133 ac EWSP 562.
- 9 **difwriawdr** Sylwer ar yr amrywiadau. Awgryma I. Williams, *art.cit.* 142, ddiwygio'n *difuriawdr* yn golygu 'dinistrydd muriau', ond gwell derbyn darlleniad Pen 159 gan ychwanegu'r *-r-* er mwyn y gynganedd.
- 20 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 21 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy fyr.
trafn, draifn Petrus iawn yw'r dehongliad a gynigir o'r ll. hon. Cymerir bod *traifn* yn ll. *trafn*: ar hwnnw, gw. GDG³ 546 a GIG 209.
elbyd Unig enghraifft. Cynigia G 475 ddiwygio hwn yn *enbyd*, ond nid annichon *elbyd* < *el-* (gw. GPC 1203) + *pyd* 'perygl'.
- 23 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.
eirgywir ... Anodd esbonio'r treigladd meddal, oni bai fod *eirgywir ... ddiweglyd* yn ymadrodd enwol mewn cyfosodiad â *Gogledd argywedd*.
- 26 **Deifr dawl** Cymerir mai *tawl* yn golygu 'ataliad' sydd yma, cf. Atodiad C, rhif 1.4, isod, a'r nodyn yno.
Greidawl Ar yr arwr traddodiadol Greidiol Galofydd (neu Gallddofydd), gw. TYP² 367–8 ac WCD 296.
- 27 **i gryd** Fe'i deallir fel yr hen ardd. *i* = 'yn' + *cryd* 'cryndod, dychryn' er nad yw GPC 1993 yn cydnabod bod yr ardd. yn digwydd ar ei ben ei hun. Awgrym petrus G 595 yw deall yr e. *gryd* 'ymladd', ond petai hynny'n gywir, disgwylid treigladd meddal a difethai hynny'r gytseinedd.
- 28 **Gweirydd** Ar yr arwr traddodiadol Gweirydd Adarweinidog, gw. WCD 309.

- 29 **Geraint** Yn ôl pob tebyg yr arwr traddodiadol Geraint ab Erbin, gw. TYP² 355–60 ac WCD 275–6.
- 30 **Rhufawn Befrredd** Ar yr arwr traddodiadol Rhufon Befr ap Dewr-arth Wledig, gw. TYP² 500 ac WCD 560–1.
- 33 **Arthur** Ar y pennaf o arwyr traddodiadol y Cymry, gw. TYP² 274–7 ac WCD 26–30. Â'r ll., cf. GLIL1 11.53 *Hael Arthur, modur, myd angut,—am rot.*
- 34 **Gwalchmai** (Hefyd ll. 63.) Ar yr arwr Arthuraidd enwog hwn, gw. TYP² 369–75 ac WCD 303–5.
- 35 **Peredur** Yn ôl pob tebyg yr arwr traddodiadol Peredur ab Efrog, gw. TYP² 488–91 ac WCD 540–1. Trawiadol yw'r tebygrwydd i CA 14 (ll. 359) *peredur arueu dur; gwawrdur ac aedan.*
- 36 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy fyr oni bai fod *meddw* yn ddwysill.
Dâr Gan fod yr enw hwn yn digwydd yng nghanol cyfres o enwau priod, derbynir awgrym petrus G 297 y gall fod yn gyfeiriad at Ddarius frenin Persia a drechwyd gan Alecsander Fawr, yn hytrach nag e.c. yn golygu 'arweinydd, blaenwr brwydr, arglwydd', gw. y cyfeiriadau (anghanmoliaethus) ato yn T 51.3–5 a cf. LITA 391–409; gthg. I. Williams, *art.cit.* 145, sy'n rhoi '*oaken spear*' yn gyfieithiad o'r gair.
- 37 **Nudd** Y cyntaf o 'Dri Hael Ynys Prydain', gw. TYP² 5–6, 476–7 ac WCD 509; gw. hefyd isod ll. 171.
rhudd Gthg. I. Williams, *art.cit.* 143, 'am rodd o aur rhudd'; ond cf. ll. 173 isod.
- 38 **Mordaf** Yr ail o 'Dri Hael Ynys Prydain', gw. TYP² 463 ac WCD 483.
Rhydderch Y trydydd (a'r enwocaf o ddigon) o 'Dri Hael Ynys Prydain', gw. TYP² 504–5 ac WCD 567–8. Dylid nodi bod Beirdd y Tywysogion yn aml yn cymharu eu noddwyr yn ffafriol â'r 'Tri Hael', gw., e.e., GLIL1 2.30, 11.53–6, 26.103–6.
- 39 **gwledig arbennig** Ar y cyfuniad hwn, gw. GCBM ii, 18.40n.
- 40 **rhonfedd** Ystyr lythrennol y gair yw 'mesur gwaywffon'; fel y gwelir, estynnwyd peth ar yr ystyr yn yr aralleiriad.
- 41 **Gwynedd** Yr hen Wynedd Uwch Conwy, a barnu wrth l. 44.
- 43 **gwledych** Yn ôl G 691 ffurf 3 un.pres.myn. yw hon, ond mentrwyd ei dehongli yma yn ffurf 2 un.grch.
- 44 **gwlad Fôn ac Arfon** Annisgwyl braidd yw'r pwyslais ar gysylltiad clôs Rhys â gogledd-orllewin Cymru, gan mai tiriogaeth ei ewythr Syr Gruffudd Llwyd oedd hon, gw. R.R. Davies: CCC 409, 415–17. Eto bu ei gyndeidiau am genedlaethau yn rymus yng Ngwynedd, a chafodd

yntau swydd Fforestydd Eryri yn 1320, gw. R.A. Griffiths: PW i, 99 a cf. *ib.* 101; ymddengys hefyd iddo ddal ei afael ar nawddogaeth Archddiaconiaeth Môn hyd y diwedd, gw. R.R. Davies: CCC 416. Am Rys, cf. GLIBH 9.16 *llyw Gwyndyd*.

- 48 **gwâr** Sylwer ar yr amrywiadau. Ysywaeth byddai *Gwarawd* Gwyn 4 a *gwarawdd* y llsgrau. eraill yn peri bod y cymal sillaf yn rhy hir. Dilynir yma un o awgrymiadau G 618 (y llall yw darllen *Gwarawd wledd hyglau* a deall *Gwarawd* i olygu ‘gwaredigaeth’). Awgryma I. Williams, *art.cit.* 143, dderbyn darlleniad Pen 159, &c., a deall *gwarawdd* i olygu ‘gwariodd’, ond yn ôl GPC 1585 cymharol ddiweddar (dechrau’r 16g.?) yw’r gair hwn, ac nid yw’r enghraifft gynharaf a roddir, sef GLM 267 (LXXIV. 41) *Da gwariwyd erig eurwallt*, yn edrych yn ddiogel iawn.
- 50 **byddain** Hyd y gwelwyd ni chynigiwyd dim yn I. Williams, *art.cit.*, G na GPC ar gyfer y ffurf hon. Mentrwyd ei dehongli yn amrywiad ar *byddyn(t)*, sef 3 ll.grff. arferiadol y f. *bod*; cf. *beynt* a allai roi *beyn*. Posibilrwydd arall yw fod yma amrywiad ar *byddin*, *byddyn*.
- gorddain** Rhydd G 559 a GPC 1469 ystyron megis ‘gwyach, rhyfeddol’ ar gyfer y gair hwn (hon yw’r unig enghraifft gynnar), gan ddilyn I. Williams, *art.cit.* 145, ‘*very beautiful?*’. Yma mentrwyd ei gysylltu’n nes ag ystyr wreiddiol *eddëin*, gw. G 442 a GPC 1169.
- gwrddir** Sef *gwrdd* ‘nerthol’ + *hir* ‘eang’. Mabwysiadwyd darlleniad Pen 159 (a’r holl llsgrau. eraill) yn hytrach nag un Gwyn 4 ar y sail ei fod yn cynnig mwy o amrywiaeth seiniol. Eithr gw. G 560 a GPC 1471 am esboniad (‘yn mynnu cael ei ffordd’, &c.) ar ddarlleniad Gwyn 4, sef *gorddir*.
- 56 **mael** Diffinnir y gair hwn yn I. Williams *art.cit.* 146, fel ‘*profit*’ ond dilynir yma GPC 2305.
- 60 Y mae’r ll. hon sillaf yn rhy fyr.
- Lludd** Tebyg mai Lludd ap Beli Mawr a olygir, er nad yw Lludd Llaw Erint yn amhosibl: sut bynnag, yr *aura* a amgylchynai’r arwr a oedd yn bwysig i’r bardd, gw. TYP² 424–7 ac WCD 416–18.
- 62 **deurudd** Teg nodi y gall y gair hwn olygu ‘anrhydedd’, gw. G 320; GPC 940.
- 63 **Gwalchmai** Gw. uchod ll. 34n.
- 64 **Môr Rhudd** Ar hwn, gw. GMB 8.8 ac *ib.n.*
- 68 **eurudd** (Hefyd ll. 69.) Yma dilynir G 499 a GPC 1260 yn hytrach nag I. Williams, *art.cit.* 145, sy’n deall y gair fel *eurydd* ‘*gilder*’.
- 69 **clodfawr** Nid amhosibl cysylltu’r a. hwn ag *eurudd byddin* yn hytrach nag ag *anant*.

- 70 **Rolant** Arno ef, y mwyaf o arwyr Mater Ffrainc, gw. *Cân Rolant: The Medieval Welsh Version of the Song of Roland*, gol. A.C. Rejhon (Berkeley, CA, &c., 1984), *passim*.
- 73 **Turn** Ar Durn, un o arwyr Sieffre o Fynwy, gw. GLIF 27.1n.
- 76 **caent** Dehonglwyd yn ffurf 3 ll.amhff. y f. *cael*, ond rhywbeth fel *ce(h)ynt* a ddisgwylid, gw. GMW 149; y mae'r modd y dehonglir y ll. hon a'r nesaf yn drwyadl betrus.
- 77 Esbonnir y treiglad ar dir cydweddiad: cymeriad llafarog sydd i'r llau. hyn, heblaw am *M-*. Y mae'r ll. ddwy sillaf yn rhy fyr.
- 78 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy fyr.
- 82 **ar ffysg** Noder bod yma beth estyn ar yr ystyr a gynigir ar gyfer y cyfuniad hwn yn GPC 1336, '*in haste, quickly*'.
- 84 **yn arw** Mwy naturiol fuasai *yng ngarw*, ond nid yw'r un o'r llsgrau. yn rhoi'r darlenniad hwnnw.
- 85 **Dofrlwydd** Sef *Dofr* yr enw lle 'Dover', a *llwydd* 'llwyddiant, ffyniant'; y mae'n amlwg o'r enghreifftiau o *Dofr* a roir yn G 384 fod yr enw lle yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddynodi terfyn o ryw fath.
- 86 **morbysg** Y mae Rhys yn achosi prinder pysgod am ei fod yn peri eu pysgota ar gyfer ei wleddoedd.
- 88 **diwyll** Ni all fod amheuaeth ynglŷn â'r darlenniad, ar waethaf G 379 d.g. *diŵyl*.
- 89 **camawn** Rhaid nodi'r posibilrwydd y gallai mai *Carawn* 'Caron' sydd yma, sef naill ai Caron-is-clawdd (Tregaron) neu Garon-uwch-clawdd (Ystrad-fflur), gw. WATU 35.
- 90 **wysg** Ar *wysg* 'llwybr, &c.', gw. GMW 219 ar *yn wysc*.
Fflur Yr afon fechan (un o is-afonydd Teifi) yng nghanolbarth Ceredigion lle yr oedd gan Rys ap Gruffudd diroedd a lle yr adeiladwyd mynachlog wreiddiol Ystrad Fflur, gw. S. Rees, *Dyfed* (London, 1992), 209–11.
- 91 **tymyr** Annisgwyl yw'r treiglad meddal ar ôl yr eg. *brëyr*, oni bai fod yr eb. *aer* yn ei gyfiawnhau.
Mabwyniawn Sef Mebwynion, cwmwd yng nghanolbarth Is Aeron yng Ngheredigion, lle yr oedd gan Rys ap Gruffudd diroedd, gw. WATU 154, 235, 252.
- 92 **cwrel** Dehonglir yn a. gydag ystyr ffigurol; ond gallai hefyd fod yn e. (eto gydag ystyr ffigurol) a *Caredigiawn* yn e. genidol yn dibynnu arno.
Caredigiawn Gwlad a wnaed yn sir yn Nhywysogaeth y De drwy Ystatud Rhuddlan 1284; dyma ganolbwynt grym Rhys ap Gruffudd.

- 93 **gorgrawn** Dilynir GPC 1485 sy'n dehongli'r gair yn a., yn hytrach na G 568 sy'n diffinio'r ffurf yn e. yn golygu 'croniad, casgliad, cynnull'.
- 96 **etiw** Cymerir mai amrywiad ar *ytiw*, ffurf ar 3 un.pres.myn. y f. *bod*, a geir yma; ond rhaid cydnabod anhawster y cystrawennu.
- 99 **Cystennin** Amhosibl dweud at ba Gystennin y cyfeirir: am y posibil- iadau, gw. TYP² 314–16 ac WCD 143–5, 156–8.
- 101 **hyfro** Dilynwyd GPC 1961 wrth ddehongli'r gair hwn, ond byddai ystyr megis 'eang ei diriogaeth' yn taro lawn cystal.
- 104 **cyfryd** Deellir y gair hwn yn wahanol i GPC 721 sy'n ei ddehongli '?gwyh, campus, breintiedig' ac yn wahanol hefyd i G 218 'rhedegfa, ymrysonfa, ymgyrch; neu, mintai, torf, cynulliad (ond gw. P a S)'. Ond sylwer ar awgrym I. Williams, *art.cit.* 145, '*thoughtful?*'.
- adar** Cf. GLIL1 23.66 *Cant a chant a chynt noc adar* (hefyd am feirch rhyfel).
- 106 **clod wasgar** Ar enghreifftiau pellach o'r cyfuniad hwn (a all fod yn enwol yn ogystal ag a.), gw. G 627.
- 110 **dyedd** Sylwer ar y darlenniadau, a gw. trafodaethau I. Williams, *art.cit.* 144, 145 a G 333, 420: awgrym yr olaf a ddilynir yma.
- Iwl Cesar** Sef Gaius Julius Caesar (100–44 C.C.), y gwladweinydd a'r cadfridog Rhufeinig a oresgynnodd Brydain gyntaf: ar ei le yn y traddodiad Cym., gw. TYP² 414.
- 111 **rhodiar** Ni chynigir ystyr i'r gair tra phrin hwn (gw. hefyd l. 121) gan I. Williams, *art.cit.* 144, 146, ond dosberthir ef yn G 521 fel cyfuniad o *rhod* '?tarian gron, &c.' + **gar*, a hynny'n ddiau sy'n gywir; gw. ymhellach J. Lloyd-Jones, 'The Compounds of **Gar*', *Celtica*, iii (1956), 205, '*shield-clattering?*'.
- 113 **arail** Sylwer ar y darlenniadau. Er gwaethaf yr anhawster cystrawennol, derbynnir y darlenniad hwn yn hytrach nag *arial* 'natur' rhai o'r llsgrau.
- 114 **hyball** Ar anhawster dehongli'r gair hwn, gw. GPC 1946.
- 116 **hygrym** Dilynir arweiniad G 182 yn hytrach na dehongliad (petrus) GPC 1982 d.g. *hyrym* ('grymus, cadarn, nerthol, effeithiol').
- 117 **hygar** *Anhygar* a geir yn yr holl llsgrau., ond gedy'r darlenniad hwn y ll. yn rhy hir, a hawdd cyfrif amdano fel ymgais i symud ymaith anhawster.
- 120 **rhew rhuddgrys** Yn drawiadol iawn, digwydd yr un ymadrodd yn GLIBH 8.41 *Glew fal rhew rhuddgrys* (anh.), gw. y nodyn ar y ll.
- 127 **hil Ruffudd** Yr oedd Syr Rhys ap Gruffudd yn fab i Ruffudd ap Hywel, a oedd yn gefnder i Syr Gruffudd Llwyd, gw. ByCy 789.

- orddion** Tebyg mai ll. (*g*)*ordd* ‘morthwyl’, &c. sydd yma.
- 128 **pair** Dehonglwyd yn e. yn golygu ‘arglwydd’, &c., gw. GPC 2669–70 ond gall hefyd fod yn ff. 3 un.pres.myn. y *f. peri*.
- 129 **pendragon** Er dehongli’r gair yn e.c. yma, nid amhosibl nad at Uthr Bendragon, tad Arthur, y cyfeirir; arno, gw. TYP² 520–3 ac WCD 636–7.
- 130 **Môn** Gw. uchod ll. 44n.
- 131 **brwydrson** Y mae’r ll. fel y mae yn fyr o sillaf.
- 133 **ys maith** Ansicr yw dehongliad y ll. hon; y mae hefyd yn rhy fyr o ddwy sillaf, ond anodd gweld sut y gellid ei diwygio.
- 134 **dig eron** Er gwaethaf amheuaeth I. Williams, *art.cit.* 145, mentrwyd dehongli’r ymadrodd yn a. *dig* + *eron*, amrywiad ar *erom*, ffurf 1 ll. yr ardd. rhediadol *er, yr*.
- 140 **huanwr** Unig enghraifft. Cymerir mai cyfuniad o *huan* + *gŵr* ydyw, cf. *huenydd*, GPC 1909.
- 142 **bryswalgyw** Unig enghraifft. Cymerir yn betrus mai cyfuniad o *brys* + *gwâl* ‘arweinydd’ + *cyw* ydyw.
- 145 **trosedd** Ar y gair diddorol hwn, gw. BI BGCC 149–50.
- 149 **rhedd** ‘Cymal, cyswllt’ yw diffiniad petrus GPC (i ymddangos) o’r gair hwn ar sail y geiriaduron, a daw’r unig enghraifft lenyddol arall o ddechrau’r 16g.: CTC 179 (88.45) *Bilwg heb redd, bolgau bras* (Wiliam Egwad) a gw. *ib.* 569. Yma estynnwyd peth ar yr ystyr.
- 158 **iawndemel** Byddai’r ll. yn rhy fyr heb y llafariad epenthetic.
- 159 **iawndaith** Dehongli’r y gair ychydig yn wahanol i GPC 2004 (‘taith ffafriol, ffodus neu lwyddiannus’).
- 160 **rhoddiad** Disgwyliad treigladd meddal ar ôl *rhwy*, os yw’r dehongliad yn gywir.
- 163 **Sawyl** Tebyg mai Sawyl Benuchel oedd hwn, gw. TYP² 506, 562–3; WCD 581. Tybed a gysylltid ef â Llansawel yng ngogledd sir Gaerfyrddin?
- 166 **Beli Mawr** Ar Feli Mawr ap Mynogan, brenin Ynys Prydain pan goncrwyd hi gan y Rhufeiniaid (yn ôl traddodiad), gw. TYP² 281–3, 545; WCD 38–9.
- 167 **Romani** Enghraifft ddiddorol o ormodiaith. Ar y ffurf, gw. GPC 2988.
- 171 **Nudd** Gw. uchod ll. 37n.
- 173 **o’i ra a’i rudd** Cf. isod Atodiad C, 10.2 *o’i rudd a’i ra*.

Mynegai

- a:** a'i 173n
aderyn: adar 104n
addurn 73
aerddar 116
aerwr 76
amherawdr 11, 167 (weithiau
am Dduw)
amlaen 98
anant 32, 69
anhygar 118
anhygudd 117
ar ffysg 82n
arail 113n
arbennig 39n
arfaeth 136
arfeiddiad 151
arfod 107
baniar 105
beiddiad 82
bod: etiw 96n **byddain** 50n **bych**
183
braisg 146
breisgdrafn 83
browys 169
brwydrbrudd 59
brwydrdrin 147
brwydrson 131n
brwydrsudd 126
brwysg 146
bryswalgyw 142n
Brython 43
buddiant 80, 81, 170
bwlchlain 49
cael: caent 76n
camawn 84, 89n, 99
clod 106n
clodfawr 69n
cof: cofion 137
creawdr 10, 11, 22 (weithiau am
Dduw)
cryd gw. i gryd
cwrel 92n
cyflais 185
cyfrudd 58
cyfrwydd 129
cyfryd 104n
Cymro 101
Deifr 26n
Deifrlysg 85
deurudd 62n
dig 134n
dirfwriawdr 9n
diweglyd 24
diwyll 88n
Dofrlwydd 85n
dyad 152
dyedd 110n
Einglbyd 20
elbyd 21n
er: eron 134n
erfai 174
eurddraig 141
eurner 157
eurudd 68n, 69
Ffranc 152
Ffrenig 152
ffysg 55, 82n, 87
garw 84n
geirgywir 23n
gorddain 50n
gorddin 147
gorgrawn 93n
gorwydd 132
gra 173n

- gryd gw. i gryd**
gwaisg 146
gwâr 48n
gwasgar 106n
gweilging 62
gwisgiad 146
gwiwraidd 127
gwlad 44n
gwledig 39n
gwledychu: gwledych 43n
gwrddir 50n
gwybod: gwÿs 126
gwÿs 140
hil 127n
honnaid 124
huanwr 140n
hyball 114n
hyfro 101n
hyfrwysg 105
hyfrys 122
hygar 117n
hygrym 116n
hylwydd 129, 132, 184
i gryd 27n
iawndaith 159n
iawndemel 158n
iesin 131
llad 155
llad-ddysg 55
llafnsudd 65
llinonbar 15
llwrw-rwydd 55
llywiawdr 11 (am Dduw)
mael 56n
maith 133n
maon 126
medrnod 137
meddw 36n
morach 86
môr-bysgodyn: morbysg 86n, 87
mydrnwyd 137
naf 10, 37, 84, 138 (weithiau am Dduw)
- o: o'i** 173n
ordd: orddion 127n
pair 128n
peddyd 16
pefrwedd 30n
pendragon 129n
perging 62
rhaidd 49, 169
rhain 49
rhaith 132
rhedd 149n
rheufedd 143, 148
rhew 120n
rhi 10 (am Dduw)
rhodiar 111n
rhoddiad 160n
rhoddiog 169
rhoddloyw 144
rhonfedd 40n
rhuawdr 6n
rhudd 37n, 173n
rhuddgrys 120n
rhuddiawdr 1
rhuddlys 144
rhuglbryd 13
rhuglddraig 6
rhusfa 5
rhwy 160, 173
rhwyfbost 168
rhysedd 1, 31, 46, 143, 145, 166
rhysfa 3
rhyswalch 59, 89, 150
rhyswr 94, 151 **rhyswyr** 94, 177
saethydd 134 **saethyddion** 133
saffbost 164
seithfeirch 138
swydd 183
syberwnad 159
tawl 26n
trafn 21n **traifn** 21n
treigladdawn 88
trosedd 145n
trychddwyn 36

twrneimant 73
tymyr 91n
ufeliar 112
uriad 113, 154

wysg 90n
yngyrth 118
yn arw 84n
ys maith 13

Enwau personol

Arthur 33n	Nudd 37n, 171n
Beli Mawr 166n	Peredur 35n
Cystennin 99n	Rolant 70n
Dâr 36n	Rhufawn Befrwydd 30n
Geraint 29n	Rhydderch 38n
Greidawl 26n, 27	Rhys ap Gruffudd 1, 16, 31, 43, 46, 67, 83, 89, 105, 121, 122, 123, 124, 125, 126(2), 143, 144, 166, 169, 177, 184(2), 185
Gruffudd 127n	Sawyl 163n
Gwalchmai 34n, 63n	Turn 73n
Gweirydd 28n	Ysbryd, yr 12
Iesu 130	
Iwl Cesar 110n	
Lludd 60n	
Mordaf 38n	

Enwau lleoedd

Arfon 44n, 138	Môn 44n, 130n
Caredigiawn 92n	Môr Rhudd 64n
Deau 47	Prydain Ynys 141
Dofr- 85n	Romani 167n
Fflur 90n	Rhôn 3n
Gwynedd 41n, 44, 45	Ynys Prydain gw. Prydain
Mabwyniawn 91n	Ynys

Atodiad C

Dangosir yma'r enghreifftiau mydryddol a geir yn fersiwn Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353 (y mae copi ffotostat ohoni yn LIGC 9048E), o'r Gramadeg. Dilynir trefn yr enghreifftiau yn y ddwy lawysgrif hyn, gan godi darlleniadau amrywiol o Lyfr Coch Hergest, llawysgrif Peniarth 20, a llawysgrif Bangor 1 pan ddigwydd yr enghreifftiau yno. Lle ceir bwlch yn llawysgrif Bangor 1, codwyd yr enghreifftiau o lawysgrif Peniarth 169, copi llawnach o lawysgrif Bangor 1 'a wnaethpwyd gan Roger Morris o Goed y Talwrn, yn 1588, pan oedd Peniarth 191 a Bangor 1 yn un', gw. J.T. Jones, 'Gramadeg Einion Offeiriad', B ii (1923–5), 185.

Y mae'n gwbl bosibl mai Einion Offeiriad ei hun a gyfansoddodd y rhan fwyaf, onid y cwbl, o'r enghreifftiau hynny na ellir eu priodoli i feirdd eraill.

I
I Wen

Mi yw'r gwas gweddeiddlas, gwan,
A fydd o fodd ei galon,
Dwysgawdd bryd, yn disgwyl brŷn
O dawl is gwawl yn oes Gwen.

4

Ffynonellau

A—Llst 3, 490^r B—Pen 20, 322 C—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 111^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

3 B dwyschawl, C dysgawl; A y. 4 C oedawl.

Olnod

B bledyn llwyt ay kant.

I Wen

Mi yw'r llanc golygus ifanc, eiddil,
A fydd o ddymuniad ei galon,
[Ac â] wynepryd galarus iawn, yn disgwyl soriant
Yn rhan [imi] dan olau haul yn [ystod] bywyd Gwen.

4

Nodiadau

Englyn proest dalgron, ac enghreifftir, meddai'r Gramadeg, ynddo'r ffigur 'ymoralw', hynny yw, *y[m]rauaelyon personeu y gyt yn ymadrawd*. Os enw lluosog yw *y[m]rauaelyon* ei ystyr yma yw rhywbeth fel '*disagreements, discords*'. Yn yr enghraifft hon, *Mi yw'r gwas*, y mae'r ymrafael rhwng y rhagenw person cyntaf unigol *Mi* a'r ferf trydydd person unigol *yw*.

Yn Pen 20, 322 rhoddir yr englyn hwn yn enghraifft o'r bai 'gŵydd ac absen' ac yn y rhestr feiau diffinnir 'gŵydd ac absen' yn Llyfr Coch Hergest (J 111, 1136) mewn dwy ffordd, fel a ganlyn:

Vn yw pan dotter dwy berson amryual y gyt yn ymadrawd, ual pei dywettit *mi a wyr prydu*, pan dylyit dywedut *mi a wnn brydu*. Arall yw pan dotter deu amser amryual y gyt yn ymadrawd, mal pei dywettit *mi a*

brydaf, pei gwypwn y bwy, pan dylit dywedut *mi a brydwn, pei gwypwn y bwy*.

Dyfyynnir yr englyn hwn yn enghraifft o ddau fai gwahanol, sef yn Llst 3 yn enghraifft o'r bai 'ymoralw', ac yn Pen 20 yn enghraifft o'r bai 'gŵydd ac absen'. Ar y bai 'gŵydd ac absen', sef rhoi'r ferf a'i thestun mewn personau gwahanol, gw. J. Morris-Jones: CD 307 lle dangosir nad yw brawddeg fel 'Mi yw'r gwas' yn anghywir o gwbl a lle ni sonnir am yr 'ail ffordd' a'r enghraifft o anghytundeb rhwng y mynegol a'r dibynnol ar ôl *pe*.

4 **o dawl** Cymerwyd mai'r ardd. *o* = 'from' sydd yma + *tawl* yn golygu 'rhan, cyfran', yn llythrennol 'drwy raniad'; cf. uchod cerdd 1.26 *Deifr dawl*; GDG³ 7 (2.28) *Mawl heb dawl*. Posibilrwydd arall yw mai cysylltair yw *o*, ac mai 3 un.pres.myn. y f. **dolaf*: *doli* yw *dawl*, yn golygu 'rhanna [ef]', ond y mae enghreifftiau o **dolaf* yn golygu 'rhannaf' yn absennol o'r geiriaduron er bod enghraifft o'r geiriau cyfansawdd *gwaddol* a *diddawl* ar gael.

is gwawl Digwydd y cyfuniad *is Gwa6l* yn GDB 18.22 lle cymerwyd mai 'islaw Clawdd [Offa]' yw'r ystyr.

Gwen Gellid deall yma e.p. neu e.c.

Olnod Yn llsg. B (yn unig) dywedir am yr englyn: *bledyn llwyd ay kant*. Ni oroesodd unrhyw gerdd o waith Bledlyn Llwyd ar wahân i'r darnau enghreifftiol yn y Gramadeg, gw. Atodiad C, rhif 3, isod, ac Atodiad Dd, rhif 6, isod. Lluniodd Cynddelw Brydydd Mawr englynion marwnad i ryw Fleddyn Fardd a gall mai'r *bledyn llwyd* hwn yw gwrthrych ei gerdd ef; ar y gerdd, gw. GCBM i, cerdd 29. Os canwyd y llau. hyn cyn 1157, fodd bynnag, byddent yn dystiolaeth drawiadol i ledaeniad motiffau serch cwrtais yn gynnar ym Mhowys, cf. *ib.* cerdd 4.

2

I ferch anhysbys

Pei cawn o gyflwr gyfle brofi—rhin,
 Cyd bai rhôn fy nghrogi,
 Fy neges oedd fynegi
 Fy ngofeg, ddyn teg, i ti.

4

Ffynonellau

A—Bangor 1, 26 B—J 111 [= RWM 1], 1127 C—L1st 3, 491^r D—Pen 20,
 323 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E],
 112^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 C kyflwr; A proui. 2 E rann. 4 C ddyn ytti.

Olnod

D Ioruerth vy[]an ap I[] ap rotp[] ay kan[].

I ferch anhysbys

Pe cawn o sefyllfa gyfle [i] brofi cyfathrach [â thi],
 Hyd yn oed pe cawn fy nghrogi [am hynny],
 Fy mwriad fyddai datgan
 Fy serch, ferch hardd, i ti.

4

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae'r pedair odl yn gorffen ag un llafariad. Ymhellach ar yr englyn hwn, gw. GBF cerdd 31, ac ar y bardd, Iorwerth Fychan ap Iorwerth, gw. y Rhagymadrodd i waith y bardd, *ib.* 307–11. (Codwyd yr aralleiriad o'r gyfrol honno a diolchir i Dr Christine James am ei chaniatâd parod i'w gyhoeddi yma.)

- 2 **bai rhôn** Ar y cyfuniad *pei ron*, gw. GMW 243; hefyd GPC 2784–5 d.g. *perhôn*, *peirhon*, *pe(i) rhôn*.

Olnod Yn Pen 56, 44 priodolir yr englyn i 'jer' vychan o arllechwedd'; gw. GP 46n4.

3

I ferch anhysbys

Dilynais, clwyfais, fal y'm clyw—decant,
 Y decaf o ddyd byw;
 Dolur gormodd a'm doddyw,
 Dilyn pryd ewyn, prid yw.

4

Ffynonellau

A—Bangor 1, 26 B—J 111 [= RWM 1], 1127 C—Llst 3, 491^r D—Pen 20,
 323 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 112^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 C kwyneis; E hyt (*am fal y testun*). 3 C a.

Olnod

D bledyn llwyd ay kant.

I ferch anhysbys

Canlynais [di], clafychais, megis y mae mil yn fy nghlywed,
 Y brydferthaf o ferch[ed] ar dir y byw;
 Poen gormodol a ddaeth imi,
 [Gorchwyl] costus yw canlyn un o wedd ewyn ton.

4

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae'r pedair odl yn gorffen â deusain dalgron ac a elwir yno yn englyn unodl dalgron. Fe'i dyfynnir yn J. Morris-Jones: CD 322 yn enghraifft o englyn unodl union.

Olnod Am gerddi eraill yn y Gramadeg gan Fleddyn Llwyd, gw. Atodiad C, rhif 1, uchod a'r nodyn arno yno, ac Atodiad Dd, rhif 6, isod.

4

I ferch anhysbys

Un dwyll wyt o bwyll, o ball dramwy—hoed,
 Â hud mab Mathonwy;
 Unwedd y' th wneir â Chreirwy,
 Enwir fryd, rhyhir frad rhwy.

4

Ffynonellau

A—Bangor 1, 26 B—J 111 [= RWM 1], 1127 C—Llst 3, 491^v D—Pen 20,
 324 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E] 112^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darllenid y llawysgrif

1 B bwyl.

Olnod

D bledyn du ay kant.

I ferch anhysbys

Mor dwyllodrus wyt o ran amcan, oherwydd dyhead [yn codi o]
 fethu cyfarfod,
 Â [thwyll] hud mab Mathonwy;
 Fe' th wneir o'r un cymeriad â Chreirwy,
 [Sef o] dueddfryd diegwyddor, [o] faith frad eithafol.

4

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae'r pedair odl yn gorffen â deusain leddf. Ymhellach ar yr englyn hwn, gw. GBDd cerdd 8, a'r nodiadau arno, *ib.* 63. Ymdrinnir â'r bardd yn y Rhagymadrodd i'r un gwaith, tt. 1–12.

- 2 **mab Mathonwy** Sef Math fab Mathonwy, arglwydd ar Wynedd, ac a roddodd ei enw i Bedwaredd Gainc y Mabinogi. Enwir dewiniaeth Math yn un o 'Dair Prif Hud Ynys Prydain', gw. TYP² 448–50, a gw. WCD 457. Yn ôl 'Cerdd Dronwy' ystyrid Mathonwy hefyd yn ddewin, gw. T 28 (ll. 26) *hutulath vathonby*. Gw. hefyd sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 165.

- 3 **Creirwy** Sef Creirwy ferch Ceridwen, un o ‘Dair Gwenriain Ynys Prydain’ (gw. TYP² 198, 311; WCD 148–9) ac yn ôl ‘Hanes Taliesin’, hi oedd *tegkaf morwyn o’r byt* (gw. Pen 111, 2). Fe’i nodweddid gan ei phrydferthwch anghyffredin, ac yn ôl Hywel ab Einion Lygliw (yn unig) yr oedd yn gariadferch i Arwy Hir. Eithr ni oroesodd tystiolaeth yn y llsgrau. ei bod yn *enwir*.

5

Moliant Rhys

Llawnlwys lys yw Rhys, Rhos gynired—cad,
 Cedernid Edelffled,
 Llyw difai, llywiawdr Dyfed,
 4 Llew llafn gyniwair, crair Cred.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1128 B—L1st 3, 491^v C—Rhydychen, Coleg Balliol
 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 112^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* Llawnlwys lys rys, *B* llawnwys lys yw rys, *C* llawnwys llys yw rys. 2
AC edelffet. 3 *B* llywyadyr. 4 *AC* [Llew] llafyn; *C* kyniweir.

Moliant Rhys

Llawn ac ysblennydd [ei] lys yw Rhys, cyrchwr byddin [i] Ros,
 [Â] gallu milwrol [megis eiddo] Edelffled,
 Pennaeth di-feth, llywodraethwr Dyfed,
 4 Ymladdwr a'i gleddyf yn gwibio yma ac acw, trysor byd Cred.

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddosbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae'r pedair odl yn gorffen ag un llafariad ac un gytsain. Awgryma Ifor Williams mai englyn i Syr Rhys ap Gruffudd yw hwn, gw. I. Williams, 'Dosbarth Einion Offeiriad', *Beirn* v (1915), 130 a chynigia Dr Ann Parry Owen (ar sail y ffaith fod *Rhys* yn digwydd yn y ll. gyntaf) y gallai'r englyn fod yn perthyn i gyfres o bedwar englyn dienw a gadwyd yn Llawysgrif Hendregadredd, gw. GLIBH 136.

1 **Rhys** Gw. y nodyn uchod. I anrhydeddu Syr Rhys ap Gruffudd y lluniwyd y Gramadeg gan Einion Offeiriad a gall mai ef yw'r Rhys a enwir yma. Gw. hefyd sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', *YB* x (1977), 166.

Rhos Cantref yn ne-orllewin Dyfed, gw. WATU 188, 306–9, a safle terfysg cyson rhwng Normaniaid Penfro a thywysogion Deheubarth.

- 2 **Edelffled** Edelffled Ffleisor, sef Aethelfrith, brenin Northumbria, gw. G 438, a fu'n fuddugol ar y Cymry tua'r flwyddyn 615, gw. J.E. Lloyd: HW³ 178–80. Yn ôl traddodiad fe'i lladdwyd gan Ysgafnell fab Dysgyfdawd, un o'r 'Tri Wŷr a wnaeth y Tair Mad Gyflafan', gw. TYP² 17–18, 68, 338. Ymhellach, gw. WCD 221–2. Gellid ei ddeall yn drosiadol am Edward II (y bu Rhys ap Gruffudd yn gefn milwrol iddo, ac yn ôl R.A. Griffiths: PW i, 100 '*the king's principal sentinel in the west*') ac aralleirio 'Gallu milwrol Edelffled'.
- 3 Sylwer nad yw *-dr* yn *llywiawdr* wedi'u hateb yn hanner cyntaf y ll. **llywiawdr Dyfed** Yr oedd Syr Rhys ap Gruffudd yn wŷr grymus yn hanner cyntaf y 14g. a daliodd sawl swydd ddylanwadol dan y Goron megis dirprwy ustus Tywysogaeth De Cymru, gw. R.R. Davies: CCC 415 ac R.A. Griffiths: PW i, 99–102; gellid, ar sail hynny, honni ei fod ef, yn anad neb, yn llywodraethwr ar Ddyfed.
- 4 **crair cred** Digwydd y cyfuniad droeon yng nghanu'r beirdd, cf. GBF 11.8 *Didón y eir ual creir cred* (Y Prydydd Bychan) a cf. R 1215.32–3 *tydi a anet get gret greireu. o ueir* (Gruffudd ap Maredudd); GDG³ 427 (III.7) *myn creiriau Cred* (Gruffudd Gryg).

6

I Gadwgon

- Ofer o iawnder undawd—hwyl anaw
 Haelioni'r fydysawd
 Wrthyd, ail Arthur yrthwawd,
 4 Cadwgon, cadr ffynnon ffawd.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1128 B—L1st 3, 491^v C—Rhydychen, Coleg Balliol
 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *C* iawder. 2 *A* haelyoni vedussyawt, *B* haelonir vedyssawt, *C* haeloni
 vedussyawt.

I Gadwgon

- Diwerth yn ôl undod uniondeb yw helpa cyfoeth
 Haelioni gwledydd Cred
 O'i chymharu â thi, [sy'n] debyg i Arthur y mae'r gân amdano
 yn gyffrous,
 4 Cadwgon, wych ffynhonnell bendith.

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y
 mae'r pedair odl yn gorffen â deusain dalgron a chytsain.

- 3 **Arthur** Sef Arthur ab Uthr, un o brif arwyr traddodiadol y Cymry, gw.
 TYP² 274–7; WCD 26–9.

gyrthwawd Ar *gyrth* a'i ystyron, gw. GPC 1798 d.g. *gyrth*.

- 4 **Cadwgon** Ni wyddys pwy yw Cadwgon, ond y tebyg yw ei fod yn
 noddwr i'r bardd. Pe gellid dehongli *gyrthwawd* yn gerdd ddychan
 gellid awgrymu mai dyma'r person a ddychanwyd gan Drahaearn
 Brydydd Mawr yn 'Dychan i Gadwgawn Ficar a'i ferch a'i ddaw', gw.
 GGDT cerdd 12. Sylwer hefyd fod Llywelyn Ddu ab y Pastard yn
 dychanu *Cadwgawn ... / Cythreulfab Cynwrig*, gw. GLIBH 19.35–6.

7

I'r eos

Cathlau eos nos, yn oed—y'u ciglau,
 Mau gofau gofalhoed,
 Coethlef, herwoddef hiroed,
 4 Cethlydd, cain awenydd coed.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1128 B—L1st 3, 491^v C—Rhydychen, Coleg Balliol
 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *A* neu, *C* meu *ond gyda strôc drwy finim cyntaf yr m-*.

I'r eos

Caniadau eos [yn nyfnder] nos, yn ystod cyfarfod cariadon y'u
 clywais,
 Fy meddyliau yw hiraeth pryder,
 [Un] cain ei iaith, dioddefaint alltudiaeth hir ei barhad,
 4 Cantor, gwych brydydd [y] goedwig.

Nodiadau

Englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y
 mae'r pedair odl yn gorffen â deusain leddf ac un gytsain.

1 **eos** Gw. sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a bardd-
 oniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 166–7.

9

I Hunydd

4 Hunydd hirloyw ei hystlys,
 Gwypm ei llun yn ei llaesgrys,
 Gwynlliw ewyn gwendon iawn
 O ddwfn eigiawn pan ddyfrys.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 28 B—J 111 [= RWM 1], 1128 C—L1st 3, 492^r D—Pen 20, 327 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *C* hunys. 2 *A* llaesgrys *gyda dot rhwng yr -s- gyntaf a'r -g-*. 3 *C* gwnlliw owyn. 4 *BD* eigiawn; *C* dyucys, *E* dyfnrys.

I Hunydd

4 Hunydd hir a llathraid ei hystlys,
 Rhagorol yw ei ffurf yn ei dilledyn llaes,
 [Megis] lliw gwyn ewyn ton wen iawn
 Pan frysia o ddyfnder [y] môr.

Nodiadau

Englyn cyrch a ddyfynnir yn enghraifft hefyd yn J. Morris-Jones: CD 323.

- 1 **Hunydd** Ni wyddys pwy yw'r ferch hon er bod ei henw, fel Generys yn yr englyn blaenorol, yn cael ei restru yn un o gariadferched Hywel ab Owain Gwynedd yn y 'Gorhoffedd', gw. GLIF 6.73 *Am Hunyt, ddefnynt hyd Dyt Bra6d*. Rhestrir Hunydd, ynghyd â Lleucu, Dyddgu a Gwen, yn BDG 337 (cerdd clxvi) a ddyfynnir yn GLIBH 156–7.
- 4 **dwfn** *Ddwfr* sydd yn J. Morris-Jones: CD 323, i gytuno â *ddyfrys* y mae'n debyg, eithr ni cheir *dwfr* yn yr un o'r pum llsg. a ddilynir yma ond sylwer ar *dyfnrys* yn llsg. E.

10

I Ruffudd

Doeth i feirdd heirdd hardd westi
 Hael Ruffudd, o'i rudd a'i ra;
 Cymraw pan ddelid Cymro,
 4 Cymraaisg addfwyndawd Cymry.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1128 B—Llst 3, 492^r C—Pen 20, 325 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* Deuth. 4 *AD* kymreist, *B* kymereist; *AC* adwyndawt.

I Ruffudd

Daeth i feirdd ardderchog groeso ardderchog
 Gruffudd hael, a'i wisg borffor a'i ffwr;
 Braw mawr oedd pan garcherid Cymro,
 4 Harddwch cadarn pobl Cymru.

Nodiadau

Englyn proest dalgron sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel englyn sydd â'r pedair odl yn gorffen â llafariad, gw. J. Morris-Jones: CD 325.

- 2 **Gruffudd** Sef Syr Gruffudd Llwyd, yn ôl pob tebyg, a garcharwyd yng ngharchar Rhuddlan a charcharau eraill yn 1316–18, gw. J. Beverley Smith, 'Gruffydd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315–18', *B* xxvi (1974–6), 463–78.

o'i rudd a'i ra Cf. *o'i ra a'i rudd* yn 'Moliant Syr Rhys ap Gruffudd' (Einion Offeiriad), gw. Gwaith Einion Offeiriad, uchod cerdd 1.173.

II

I Angharad

4 Dy garu, goroen eglur,
Angharad, gwenwynfrad gwŷr;
Hoyw gangen, hy a gyngor,
Hawl enaid y direidwr.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 14 B—J 111 [= RWM 1], 1129 C—Llst 3, 492^v D—
Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *D* groen. 2 *D* gwiw leuat (*am* gwenwynfrad y *testun*). 3 *D* hyganhenn; *A* hi a gyngor, *D* hoyw agynghor.

I Angharad

4 Dy garu, [ti sy'n ffynhonnell] gorfoledd amlwg,
Angharad, yw twyll creulon gwŷr;
Rhiain lawen, cofn o gyngor,
Fe hawlia enaid y direidus.

Nodiadau

Englyn proest dalgron sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel englyn lle y mae'r pedair odl yn gorffen â chytsein.

- 2 **Angharad** Yn ôl pob tebyg, Angharad wraig Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron, gw. GDG³ xxxviii–xxxix, 44–7 (cerdd 16), 370–1 (cerdd 140); R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 170–2. Am ganu pellach i Angharad yn y Gramadeg, gw. Atodiad C, rhifau 12, 29, 36 ac Atodiad D, rhif 10.
- 3 **hy a gyngor** Ar y gystrawen hon, gw. GMW 37.
- 4 **hawl** Er dehongli'r gair yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *hawlio*, noder y gallai fod yn e. yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr gyfreithiol, 'cwyn a ddygir i gyfraith', gw. GPC 1828.

12

I Angharad

4 Angharad, hoyw leuad liw,
 Yng nghuriaith lewychwaith law,
 Wyf o'th gariad, glwyfgad glew,
 Ynfyd drwy benyd i'm byw.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 14 B—J 111 [= RWM 1], 1129 C—Llst 3, 492^v D—Pen 20, 325 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *A* ynguriaith, *B* yghiyeith, *C* yghyfreith, *E* ynghyfieith. 3 *A* oth garu glöyf nychu gle6, *D* llifawd vy hoen glwyfboen glew. 4 *A* Gyf ynuyt my6n byt ym by6, *D* lledryt om bywyt ym byw.

I Angharad

4 Angharad, [o] liw lleuad hardd,
 Ym meddiant gweithrediad disglair iaith poen,
 Yr wyf o achos dy gariad, catrawd glwyfedig [y] glew,
 Yn ynfyd o achos penyd yn fy mywyd.

Nodiadau

Englyn proest dalgron sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae pob llinell yn gorffen â deusain dalgron wahanol.

- 1 **Angharad** Tebyg mai'r un Angharad a gyferchir yma ag a gyfarchwyd yn yr englyn blaenorol. Ai rhan o gadwyn o englynion i'r ferch honno sydd yma? Gw. hefyd Atodiad C, rhifau 29, 36, ac Atodiad D, rhif 10.

13

I'r gwregys

4 Cae a gefais, dawngais, doe,
Cu fydd cof, rhydd rodd erfai,
Yn eilgroes i'm oes a mwy,
Anwylgrair cywair yw'r cae.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1129 B—Llst 3, 492^v C—Pen 20, 325 D—Pen 169
[fersiwn llawnach o lsg. Bangor 1], 147 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353
[copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* dangeis, *E* drangeis. 2 *D* rhodd ddiuei.

I'r gwregys

4 Gwregys yn amcan rhodd a gefais ddoe,
Bydd [y] cof [am hynny] yn [un] annwyl, rhodd hael [a] gwych,
[Y mae]'n ail groesig yn fy mywyd a rhagor,
Trysor priodol a gerir yw'r gwregys.

Nodiadau

Englyn lleddfbroest sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel englyn sydd â'i linellau'n gorffen mewn pedair deusain leddf wahanol.

- 1 **cae** Gw. sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 167–8. Sylwer bod ailadrodd y gair hwn yn ll. 4 yn torri'r rheol a fynegir gan awduron y Gramadeg yn GP 14, 33, 53; dim ond *hirgyllaeth neu asmalawch karyad* a fyddai'n ei esgusodi. Sylwer nad oes raid i'r gair *cae* olygu 'gwregys', gw. GGrG 67–8.
- 3 **eilgroes** Cymerir mai cyfeirio a wneir yma at ryw ddelw o Grist ar y groes a oedd yn arbennig o werthfawr yng ngolwg y bardd: dim ond ychydig yn llai gwerthfawr oedd y gwregys a gafodd gan ei gariad; eto efallai mai at y gwregys ei hun y cyfeirir, gw. GPC 606 d.g. *croesgae*.

14

I ferch anhysbys

4 Llawen dan glaerwen len laes,
 Lleddf olwg gloyw amlwg glwys,
 Llathrlun manol a folais,
 Llariaidd foneddigaid foes.

Ar yr englyn hwn, gw. Gwaith Dafydd Ddu o Hiraddug, isod cerdd 5.

15

I ferch anhysbys

4 Mynnwn, cyd yd gawn gwg,
 Mau dy gael, rin adael reg,
 Yng ngobant, yng ngobell mwg,
 Yng ngobaith tywynwaith teg.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1129 B—Llst 3, 493^r C—Pen 20, 326 D—Pen 169
 [fersiwn llawnach o destun llsgr. Bangor 1], 148 E—Rhydychen, Coleg
 Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* kyt yt gawn gwc, *B* kyt yt gwegawn gwc, *D* kyt kaw'n y gwc, *E* kyt yt gawn gwc. 2 *A* meu dy gael, *B* myn dy gael, *C* men dy gael, *E* ymdy gael; *E* anael (adael). 3 *E* yngobell yngobant. 4 *D* tau yn waith tec (*am* tywynwaith teg y *testun*).

I ferch anhysbys

4 Dymunwn, er imi gael cam,
 Dy gael yn eiddo imi, rhodd [sy'n] caniatáu cyfathrach,
 Mewn pant bychan, yng nghafn mwg,
 Yn disgwyl [cael] gwaith pleserus [ar] dywyn.

Nodiadau

Englyn proest gadwynog dalgron yn ôl dosbarthiad y Gramadeg, gyda'r llinellau i gyd yn gorffen yn acennog.

- 3 **gobell** Gwrthodir awgrym petrus G 539 mai 'nepell, gobellter' yw'r ystyr yma: geiriadurol yn unig yw *gobell* yn yr ystyr honno yn ôl GPC 1417. Cymerir yn hytrach mai'r ystyr arferol 'cyfrwy' sydd i'r gair, ond ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol yma.
- 4 **tywynwaith** Er cymryd mai'r elfen *tywyn* yn golygu 'traeth, tywod' sydd yma, dylid nodi y gallai fod yn fôn y f. *tywynnu*.

16

I Leucu Llwyd

Na'r haul yn hwyl awyrnaid,
 Na'r lloer nid gwell y'u lliwwyd,
 Yn llathrwiw wedd, yn llathraid,
 4 Yn llathru, no Lleucu Llwyd.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1129 B—Llst 3, 493^r C—Pen 20, 326 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

3 A ynllathrwiw wedyn, D yn llathr eurwed yn.

I Leucu Llwyd

Yr haul ar [ei] gwrs yn llamu drwy'r awyr,
 Y lleuad [hefyd] nid gwell y'u lliwiwyd [hwynt],
 Yn ddisglair a gwych [eu] golwg, yn llachar,
 4 Yn disgleirio, na Lleucu Llwyd.

Nodiadau

Enghraifft o englyn lleddfbroest gadwynog. Y mae'r englyn hwn yn dilyn yn fras yr un cynllun â'r englynion proest i Weirfyl a Gwenllïan a gadwyd yn Llawysgrif Hendregadredd (gw. GLIBH cerdd 12), yn diweddu â *no* ynghyd ag enw merch, ac yn mynegi goruchafiaeth prydfferthwch y ferch ar elfennau o fyd natur. Tybed a yw'r englyn hwn yn rhan o'r un gyfres, yn enwedig gan fod Lleucu Llwyd hithau (pwy bynnag yw) yn cael ei chrybwyll yn Llawysgrif Hendregadredd?

- 4 **Lleucu Llwyd** Os canwyd yr englyn hwn cyn c. 1325 (gw. y Rhagymadrodd i Waith Einion Offeiriad uchod td. 3), anodd credu mai'r un yw ei wrthrych â chywyddau llatai a marwnad enwog Llywelyn Goch Amheurig Hen, y Lleucu Llwyd honno a oedd yn wraig briod o Bennal, Meirionnydd. (Ni cheir yr un anhawster gyda'r ddau gwpled o gywydd yn cynnwys acrostig ar enw Lleucu Llwyd a ddarganfuwyd gan Mr Daniel Huws yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd, gw. D. Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', Cylchg LIGC xxii

(1981–2), 17–18 a GLIBH 15.5–8, td. 157.) Y mae'r Athro Dafydd Johnston hefyd o'r farn fod yma ddwy ferch wahanol, gw. *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (i'w gyhoeddi). Eithr am farnau gwahanol, gw. S. Lewis, 'Y cywyddwyr cyntaf' yn *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R.G. Gruffydd (Caerdydd, 1973), 56–63; R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 168–70.

17

I'r fwyalchen

Chwerddid mwyalch mywn celli;
 Nid ardd, nid erddir iddi;
 Nid llawenach neb no hi.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1130 B—Llst 3, 493^r C—Pen 20, 328 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darllenid y llawysgrif

1 B Chwedid.

I'r fwyalchen

Chwardd [y] fwyalchen mewn coedlan;
 Nid yw'n aredig, nid oes neb yn aredig drosti;
 [Eto] nid oes neb yn fwy llawen na hi.

Nodiadau

Englyn sy'n cael ei ddosbarthu yn y Gramadeg yn esiampl o 'englyn o'r hen ganiad' (*Ynglynn o'r hengerd* yn Pen 20 (GP 49)) ac yn J. Morris-Jones: CD 320–1 yn esiampl o englyn milwr. Ymhellach ar yr englyn hwn, gw. R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 160–2.

- 1 **chwerddid** Enghraifft o ffurf 3 un.pres.myn. annibynnol y f. *chwerthin*, gw. GMW 118–19.

18

Gwireb gyfreithiol

Onid ynad a darllead—llyfrau

A'i eirau yn wastad,

Araith mywn cyfraith ni ad.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1130 B—Llst 3, 493^r C—Pen 20, 328 D—
Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E], 114^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *C* Namyn ynat. 2 *B* ac eireu, *C* ay eiryau, *D* ageireu; *B* yn wast. 3 *CD*
yngkyfreith.

Gwireb gyfreithiol

Oni bai am ynad a darllenwr llyfrau

A'i ymadrodd yn gyfiawn,

Nid yw'n caniatáu traethiad mewn llys barn.

Nodiadau

Englyn sy'n cael ei ddosbarthu yn y Gramadeg yn esiampl o 'englyn o'r hen ganiad' (*Ynglynn o'r hengerd* yn Pen 20 (GP 49)) megis yr enghraifft flaenorol, ac a ddosberthir yn J. Morris-Jones: CD 320 yn esiampl o englyn penfyr. Rhoddir cyfieithiad Saesneg o'r englyn yn *ib.* nodyn 1, a dilynir ei ystyr yma.

3 **cyfraith** Estynnir peth ar ystyr G 215–16 a GPC 710–11 a'i ddeall, gyda J. Morris-Jones: CD 320n1, i olygu 'llys barn'.

ni ad A all fod grym amheronol i'r ffurf hon?

19

Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd

Nid digerydd Duw, neud digarad—cyrdd,
 Neud llai gwyrdd i fyrdd o feirdd yn rhad,
 Neud lliaws frwyn cwyn canwlad—yng nghystudd
 4 O'th atal, Ruffudd, wayw rudd roddiad.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 33 B—J 111 [= RWM 1], 1131 C—L1st 3, 494^r D—Pen 20,
 329 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E],
 114^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *E* Neut digeryd; *A* neut digariat, *E* nyt digaryat; *BE* kerd. 2 *C* lliw. 3 *A* nit
 neut; *A* brwyn. 4 *AC* attall; *C* gwayw rud.

Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd

Nid yw Duw yn ddi-fai, y mae lluoedd yn wrthodedig,
 Llai [niferus] yw[r] dillad gwyrdd yn anrheg i fyrdd o feirdd,
 [Achos] mynych dristwch yw cwyn can ardal mewn gofid
 4 Oherwydd dy atal, Ruffudd, [y] rhoddwr coch [dy] wayw.

Nodiadau

Enghreifftir yma ddau doddaid o awdl a ysgrifennwyd gan Wilym Ddu o Arfon i Syr Gruffudd Llwyd pan oedd Syr Gruffudd yng ngharchar yng nghastell Rhuddlan rhwng Rhagfyr 1316 ac Ebrill 1317. Ymhellach ar yr awdl honno, gw. GGDT cerdd 6, ac ar y bardd, gw. y Rhagymadrodd i'w waith, *ib.* 47–9. (Codwyd yr aralleiriad uchod o'r gyfrol honno a diolchir i Dr R. Iestyn Daniel am ei ganiatâd parod i'w gyhoeddi yma.) Ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 339–40.

4 **Gruffudd** Syr Gruffudd Llwyd, gw. y nodyn uchod.

20

Myfyrdod duwiol

- Meddyliais i drais o drasyml fryd
 Meddwl meddw-gymwyn, anfwyn, ynfyd;
 Meddyliaf am Naf, am nawdd gyd—esmwyth:
 4 Nid meddwl diffrwyth, modd ymddiffryd.

Ffynonellau

A—Llŷt 3, 494^r B—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 114^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Myfyrdod duwiol

- Bûm yn meddwl yn dreisgar oherwydd meddylfryd ffôl iawn
 Feddwl toreithiog o ddireol, angharedig, ffôl;
 [O hyn ymlaen] byddaf yn meddwl am yr Arglwydd, am [Ei]
 nodedd gyffredinol [a] thirion:
 4 Nid meddwl diffrwyth [mo hwn], [ond] modd[ion] ymwarded.

Nodiadau

Enghraifft o wawdodyn; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 340–1. Tebyg mai pedair llinell o awdl grefyddol goll a ddyfynnir yma.

- 1 **trasyml** Y mae i'r gair *syml* weithiau ystyr ddrwg, gw. 'Gwaith Dafydd Ddu o Hiraddug', isod cerdd 2.66 a'r nodyn yno.

21

Cyfarch y Drindod

Trindawd parawd pur, traws, maws, moes eglur,
 Trwy rad mad Modur, Mur mireinwch,
 Tro fi, Ri rhadlawn, Trafniwr dyfnor dawn,
 4 Tref nef, Naf cyfiawn, digawn degwch.

Ffynonellau

A—Llŷt 3, 494^v B—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 114^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 *B* traws moes meith eglur. 2 *B* mab. 3 *B* rhi; *B* dyfnor.

Cyfarch y Drindod

Y Drindod ewyllysgar [a] phur, cadarn, hyfryd, clir [ei] fuchedd,
 Trwy ras daionus yr Arglwydd, Amddiffynnydd harddwch,
 Tro fi, Frenin graslon, Pennaeth-reolwr byd bendith yn gyfan,
 4 [Sef] tiriogaeth y nef, yr Arglwydd cyfiawn, cyflawn [Ei]
 harddwch.

Nodiadau

Enghraifft o gyhydedd hir; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 338–9. Dyfynnir yma bedair llinell o awdl grefyddol o eiddo Casnodyn, gw. R 1237.8–11, ac y mae dwy linell o rupunt o'r un awdl hefyd yn cael eu dyfynnu yn y Gramadeg, gw. isod rhif 23; ymhellach, gw. G.C. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14deg ganrif' (Cymru [Aberystwyth], M.Phil., 1991), 178 (1.214–17): y mae'r testun a'r aralleiriad a gynigir yno beth yn wahanol i hwn.

22

Cwyn serch

4 Gwan wyf o glwyf, yn glaf trym maint,
 Gwen ffraeth a'm gwnaeth gne gofeilaint,
 Gweniaith yw gwaith y gwythlon ddaint,
 Gwynder lleufer lloer am bylgaint.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 36 B—J 111 [= RWM 1], 1131 C—Llst 3, 494^v D—Pen 20, 330 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 114^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *C* glwyf trymheint, *E* glwyf yn glaf drymheint. 2 *A* g6enfraeth; *CD* goueilyeint. 4 *B* lleuer; *A* lloer bylgaint, *BD* lloer am blygeint, *C* lloer am bylgein.

Cwyn serch

4 Yr wyf yn wan oherwydd clwyf, [yr wyf] yn glaf o [glefyd]
 difrifol,
 [Y] ferch hardd ffraeth a barodd i mi olwg cystudd,
 Geiriau twyllodrus yw cynnyrch y dannedd llidiog,
 [Hi sydd o] wynder goleuni lleuad ar doriad gwawr.

Nodiadau

Enghraifft o gyhydedd fer; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 334. Noder bod pedwar curiad, nid tri, i bob llinell, a gw. sylwadau Dr Peredur Lynch a drafodir yn y Rhagymadrodd i waith Einion Offeiriad, gw. td. 5.

1 **gwan wyf o glwyf ...** Sylwer ar agoriad tebyg enghreifftiau 25 a 38 isod.

23

Cyfarch y Drindod

Trindawd ffawd ffêr,	tref nef nifer,	gwarder Gwirdad,
Trech wyd no neb,	trwy ddawn ateb	treiddwn atad.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 37 B—J 111 [= RWM 1], 1131 C—L1st 3, 494^v D—Pen 20, 330 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 115^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *C* vyd (am *wyd* y testun); *E* Iawn (am *ddawn* y testun); *D* treidywn, *E* trown.

Cyfarch y Drindod

Y Drindod o gadarn fendith, cartref ll[u]'r] nefoedd, tiriondeb y gwir Dad,
Yr wyt Ti yn drech na phawb, drwy['r] gras [i] ymateb nesawn atad.

Nodiadau

Enghraifft o rupunt; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 331–3. Dyfynnir yma ddwy linell o awdl grefyddol gan Gasnodyn, gw. R 1235.8–10, a gw. hefyd rhif 21 sy'n bedair llinell o gyhydedd hir o'r un awdl. Ymhellach ar Gasnodyn, gw. G.C. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14deg ganrif' (Cymru [Aberystwyth], M.Phil., 1991), 168 (1.120–1): y mae'r aralleiriad a gynigir yno beth yn wahanol i hwn.

24

Thomas a Rhopert ...

- Thomas a Rhopert, rhwyd pâr—gwersyllig,
 Rhwyf rhyfyg rhyfelgar,
 Rhuthr Arthur anrheithio esgar,
 4 Rheithion gawr, rhwythawr llawr llachar,
 Rhwym cynnygn, cyngyd diwatwar,
 Rhwym cedyrn, cadarn o fâr;
 8 Rhwysg tân â gwynnon fal twrf gwyniar —drud,
 Molud clud clod wasgar.

Ffynonellau

A—Llst 3, 495^r B—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 115^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *B* bar. 3 *A* areithraw. 4 *B* reidyon. 5 *A* kynigin kynegy, *B* kyngyn kyngit.
 6 *B* kedern. 7 *B* gwynnan; *B* gwanar. 8 *B* molit.

Thomas a Rhopert ...

- Thomas a Rhopert, magl gwaywffon gwersyll bychan,
 Rheolwr [ar] feiddgarwch rhyfelgar,
 [Gyda] chyrch [fel eiddo] Arthur yn ysbeilio gelyn,
 4 Cawr [ymysg] gwŷr y gyfraith, gwŷr cedyrn [y] pencampwr
 ysblennydd,
 Rhwymwr gelynon, o fwriad di-gabl,
 Rhwymwr gwŷr cedyrn, cryf o ran digofaint,
 [Megis] angerdd tân mewn brigau crin fel trwst hyrddwynt
 gwyllt,
 8 Moliant yw ysbail [yr un sy'n] lledaenu [ei] glod.

Nodiadau

Enghraifft o fyr a thoddaid, cf. J. Morris-Jones: CD 334–6. Dyfynnir yma wyth llinell gyntaf awdl fawl gan fardd dienw i Domas ap Rhotbert, a olygyd yn GLIBH cerdd 8; sylwer bod y golygiad yno wedi'i seilio ar yr holl lawysgrifau, yn enwedig Llawysgrif Hendregadredd. Ymgais sydd yma i

ddeall beth a olygai'r llinellau i awdur y Gramadeg a seiliwyd y testun felly ar destunau cynnar y Gramadeg yn unig.

- 1 **Thomas a Rhopert** Ond *Tomas fab Rhotbert* yn GLIBH 8.1, a hynny, wrth reswm, sy'n iawn. Gall *Thomas a Rhopert*, o bosibl, gynrychioli ffurf lafar ar *Thomas ap Rhopert*.
rhwyd pâr Gan mai *rhwyd par* sydd yn Llst 3 a *rhwyd bar* sydd yn Rhydychen, Coleg Balliol 353, y mae'n bosibl mai 'rhwydd bâr' a olygid yma.
- 3 **Arthur** Sef Arthur ab Uthr, un o brif arwyr traddodiadol y Cymry, gw. TYP² 274–7; WCD 26–9.
- 4 **rhwythawr** Fe'i deallir yn ffurf gyfochrog â *rhwython*, 'gwŷr cedyrn', gw. CA 364–5; gthg. GLIBH 8.4 *rheithfawr*. Sylwer bod P yn esbonio *rhwythawr llawr* fel 'the pervader of the ground'.
- 5 **cyngyd** Gw. GPC 784.

25

Clwyf serch

- 4 Gwan iawn wyf o glwyf er gloyw forwyn,
 Gwae a faeth hiraeth, brif arfaeth brwyn,
 Gŵyr fy nghalon don ddefnydd fy nghwyn,
 Gwn ar fyr y tyr cyd bo terrwyn,
 Am na ddaw i law i lwyn—a bwyllaf,
 A garaf ataf, ateb addwyn.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 15 (llau. 1–5) B—J 111 [= RWM 1], 1132 C—Llst 3, 495^v
 D—Pen 20, 331 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC
 9048E], 115^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *C* wrwyn. 3 *C* vyghaglonn; *E* defnyd vynghallon donn defnyd vynghwyn.
 4 *A* vyrr kyn bo, *BC* vyrr y tyrr kynno, *E* vyrr y tyrr kyt boet. 5 *A* ol6yn, *E*
 o lwyn. 6 [*A*]; *BE* adfwyn.

Clwyf serch

- 4 Yr wyf yn wan iawn oherwydd clwyf o achos merch ieuanc
 ddisglair,
 Gwae y mae hiraeth wedi ei fagu, amcan pennaf tristwch,
 Y mae fy nghalon ddrylliog yn gwybod achos fy ngofid,
 Yr wyf yn gwybod y bydd yn sydyn yn torri er [ei] bod yn
 eiddgar,
 Am na ddaw ataf yn eiddo imi i[’r] llwyn yr un y meddyliaf
 amdani,
 Yr un a garaf, [ag] ateb hynaws.

Nodiadau

Enghraifft o wawdodyn hir; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD
 341–2. Yn ôl pob golwg, dyfynnir yma chwe llinell o awdl serch goll.

- 1 **gwan iawn wyf ...** Sylwer ar agoriad tebyg enghreifftiau 22 uchod a 38
 isod.

- 5 **i law i lwyn** Gw. sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 171.

26

Erchi tangnefedd Duw

4 Wrthyd, Greawdr byd, bid fy ngobaith,
 Wrthyf bydd drugar, hywar hywaith,
 I'th argae neud gwae, nid gwael y gwaith,
 Wrth ddynion gwylon y bo golaith!
 Wrth hynny, Dduw fry, Frenin pob iaith,
 Y'th archaf dangnef, ceinllef canllaith.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 15 B—J 111 [= RWM 1], 1132 C—L1st 3, 495^v D—Pen 20, 321 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 115^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *E* yngobeith. 2 *E* hoywweith. 3 *D* yrth (*am* I'th y *testun*); *E* nyt gwae. 4 *DE* gwylyon; *A* gobaith. 6 *A* dagned, *C* dagneueth; *E* kanllef kwynlleith.

Trefn y llinellau

B 1–3, 6, 5, 4.

Erchi tangnefedd Duw

4 Arnat [Ti], Greawdwr y byd, boed fy ngobaith [bob amser],
 Bydd [Di] drugarog wrthyf, [yr Un] tra charedig [a] gweithredol,
 Yn dy garchar y mae gwae, gwych yw'r drefn,
 Boed osgoi [hynny] i bobl ostyngedig!
 Oherwydd hynny, y Duw dyrchafedig, Frenin pob cenedl,
 Y deisyfaf dangnefedd gennynt, [deisyfiad] hyfryd ei sain [a]
 thawel.

Nodiadau

Enghraifft o gyhydedd naw ban; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 337–8. Dyfynnir yma, i bob golwg, chwe llinell o awdl grefyddol goll.

3 **argae** Y mae'n amlwg mai 'lle caead, carchar' yw'r ystyr yma, sef uffern, y mae'n debyg.

27

Canu Owain Cyfeiliog

Ei barau, arfau arfoloch,
 Ei bebyll, ei byll, ei ball coch,
 4 Aml iwch, feirdd, ei fudd, emyrth llys nyw lludd
 Emys rhudd rhuthr gwyddfoch.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1133 B—Llst 3, 496^r C—Pen 20, 332 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 116^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *B* baren aren. 2 *A* ballcoh. 3 *A* emrych, *D* (emryth); *D* ny.

Canu Owain Cyfeiliog

Ei waywffyn, [ei] arfau bygythiol,
 Ei babell, ei wisg, ei fantell goch,
 Lluosog ichwi, feirdd, yw ei feddiannau, ymherodr llys nad
 yw'n gwrthod [i chwi]
 4 Feirch gwinau [ac iddynt] ruthr moch gwyllt.

Nodiadau

Enghraifft o glogyrnach, mesur a elwir hefyd yn 'ddull Cynddelw'; ymhellach arno, gw. J. Morris-Jones CD: 336–7. Dyfynnir yn y Gramadeg o awdl Cynddelw Brydydd Mawr 'Canu Owain Cyfeiliog', gw. GCBM i, 16.133–4, 123–4; y mae trefn y llinellau'n wahanol, yn ôl pob tebyg am fod Einion Offeiriad yn dibynnu naill ai ar ffynhonnell lawysgrifol wahanol i'r rhai y seiliwyd testun GCBM i arnynt, neu ar ei gof. (Seiliwyd yr aralleiriad uchod ar y gyfrol honno a diolchir i Dr Ann Parry Owen am ei chaniatâd parod i'w gyhoeddi yma.)

- 1 **barau, arfau** Dyma ddarlleniad holl lsgrau. y Gramadeg, ond yn nhestun Llawysgrif Hendregadredd ychwanegir y (= 'ei') rhwng y ddeuair. Diddorol nodi mai fersiwn y Gramadeg sy'n gywir o ran nifer sillafau.
- 3 **emyrth** Cymerir mai amrywiad, neu ffurf lwgr, ar *emyr* yw hwn, gw. G 474 d.g. *emer*.

28

Serch at Angharad

- 4 Gwynfyd gwŷr y byd oedd fod Angharad,
 Gwenfun, yn gyfun â'i gwiwfawr gariad;
 Gwanllun a'm lludd hun, hoenddwg barabliad;
 Gwynlliw eiry dyfriw difrisg ymddeithiad;
 Gwen dan aur wiwlen, lleddf edrychiad—gŵyl,
 Yw f'annwyl yn ei hwyl, haul gymeriad.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1133 B—Llst 3, 496^r C—Pen 20, 333 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E], 116^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *D* (yw bot). 3 *D* gwavnllun; *D* [hun] hoedvyn; *ABC* barablat. 4 *A* divriw, *B* difriw, *C* diuriw; *A* divrist. 6 *A* pann wyl (*am* f'annwyl *y testun*), *D* vy annwyl; *D* [ei hwyl]; *C* gymharyat.

Serch at Angharad

- 4 Llawenydd gwŷr yr [holl] fyd fyddai fod Angharad,
 [Y] ferch ieuanc hardd, wedi'i huno â'i chariad gwir fawr;
 Y mae[’r] un eiddil ei ffurf yn rhwystro fy nghwsg, [yr un y mae
 ei] lleferydd yn amddifadu [dyn o’i] afaith;
 Un o liw gwyn eira mân [ar] lwybr disathr;
 Un hardd mewn gwsg hardd euraid, [a’i] haddfwyn olwg
 gwylaidd,
 Yw f'un annwyl yn ei rhodiad, [un o] natur [yr] haul [ei hun].

Nodiadau

Enghraifft o hir a thoddaid; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 342–3. Dyfynnir yma chwe llinell o awdl serch gan awdur anhysbys, er y gall yn hawdd fod mai Einion Offeiriad ei hun ydoedd.

- 1 **Angharad** Sef, yn ôl pob tebyg, Angharad wraig Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron, gw. uchod, rhif 11, a'r nodyn yno. Am ganu pellach i Angharad yn y Gramadeg, gw. Atodiad C, uchod rhifau 11, 12, ac isod rhifau 29, 36; hefyd Atodiad D, rhif 10.
- 5 Cf. pennill rhif 36 isod, ll. 1.

29

Serch at Angharad

- Llithrodd, ys rhannodd, ys rhad,
 Llathrgof ynof, anynad,
 Lloer Gymry, gymraïsg ddyad
 4 (Llwyr y gwnaeth, mygr arfaeth mad,
 Lleas gwas, gwÿs nad diwad),
 Lliaws gair hynaws gariad
 Lleddfgain riain llun meinwar:
 8 Lliw llewychgar Angharad.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1133 B—Llst 3, 496^r C—Pen 20, 333 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 116^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *CD* rynnawd, *D* (rannawd); *AD* is rat. 2 *A* annyat, *D* an ynat (anyat). 3 *B* [Lloer] kymry; *AD* gymreist, *B* kymereist. 4 *D* ym; *B* gwnaneth. 5 *ABC* nas; *A* dywat, *B* diwas.

Serch at Angharad

- Llithrodd, fe ymgyfrannodd, yn rhodd,
 [Y] syniad llathraid yn anfoddog imi,
 Am leuad [y] Cymry, [a'i] hymddangosiad trawiadol
 4 (Yn llwyr y parodd, [o] anrhydeddus fwriad da,
 Farwolaeth llanc ifanc, cyhuddiad nad yw'n [ei] wadu),
 [Â] mynych air cariad addfwyn
 Gwylaidd hyfryd forwyn fain a bonheddig [ei] ffurf:
 8 [Rhyw] liw disglair yw Angharad.

Nodiadau

Enghraifft o gyrch a chwta; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 343–4. Dyfynnir yma wyth llinell o awdl serch goll gan fardd anhysbys, er y gall yn hawdd fod mai Einion Offeiriad ei hun ydoedd.

- 8 **Angharad** Sef, yn ôl pob tebyg, Angharad wraig Ieuan Llwyd ab Ieuan ap Gruffudd Foel o Lyn Aeron, gw. uchod, rhif 11, a'r nodyn yno. Am

ganu pellach i Angharad yn y Gramadeg, gw. Atodiad C, uchod rhifau 11, 12, 28 ac isod rhif 36; hefyd Atodiad D, rhif 10.

30

Moliant Rhys ap Gruffudd

Buddiant i feirdd fyrddau dramwy,
 Dramawr ofwy ofeg hael Nudd,
 Hoywon a heirdd gan hardd facwy
 4 Fyddant hwy rwy o'i ra a'i rudd;
 Arfau pybyr erfai dymyr,
 Arfawg frehyr, arf gwŷr gwaywrudd,
 Arial milwyr eirau myfyr:
 8 Eryr rhyswyr Rhys ap Gruffudd.

Nodiadau

Enghraifft o dawddgyrch cadwynog; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 344–8. Golygwyd yr enghraifft hon yn rhan o'r awdl 'Moliant Syr Rhys ap Gruffudd', gw. uchod cerdd 1, Atodiad B, td. 11.

31

March i'w ddeisyf

4 Breichffyrf, archgrwn, byr ei flew,
Llyfn, llygadrwth, pedreindew,
Cyflwydd, cyflith, ceirch ymgaff,
Cyflym, cefnfyr, carn geugraff,
Cyflawn o galon a chig,
Cyfliw blodau'r banadlfrig.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 9 (llau. 3–6) B—J 111 [= RWM 1], 1134 (llau. 1–2) C—Llst 3, 497^r D—Pen 20, 334 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 117^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

3 *AD* kyflwyd kofleit kyrch amkaff, *CE* kyflwyd koflith geirch ymgaff. 4 *A* kyflymgefn vyrgarn gengraff, *C* kyflym kefn vyrr kadarnn gen graff, *E* kyflym kadarn graff *gyda bwlch rhwng* kyflym *a* kadarn. 6 *AE* blodeu banadyl vric.

March i'w ddeisyf

4 [Â] choesau cryfion, crwn o ganol, byr ei flew,
Llyfn [ei gôt], â llygaid mawrion, trwchus ei grwper,
Ffyniannus, porthiannus, yn awchus am geirch,
Cyflym, byr ei gefn, [â] charn cafnio gafaelgar,
Yn llawn ysbryd a chnawd,
Yn unlliw â blodau'r blaen banadl.

Nodiadau

Enghraifft o gywydd deuair hirion; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 328–9. Gw. hefyd sylwadau R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 173 a'r awgrymiadau a wneir yno.

3 **cyflith** Cymerir mai *cyf-* + *llith* 'porthiant' sydd yma, ac nid *cy-* + *blith* 'llaethog', gw. GPC 699. Sylwer mai dyma'r unig enghraifft o'r gair, os yw'n bod.

32

I ferch hawddgar

Hardd-deg riain, hydwf, glwysgain,
 Hoywliw gwenyg, huan debyg:
 Hawdd dy garu, haul yn llathru.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 6, 9 B—J 111 [= RWM 1], 1135 C—Llst 3, 497^v D—Pen 20, 335 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 117^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* Hoe6dec *CE* hardec; *D* hoywdwf (*am* hydwf *y testun*). 2 *ABD* hoywne; *B* gwanec, *C* gwein; *B* debec. Yn llsgrau. *AD* y mae trefn ll. 2 fel a ganlyn: *huan debic hoywne gwenic*. 3 *C* llethru.

I ferch hawddgar

Ferch ieuanc hardd a theg, lluniaidd, prydferth a theg,
 [O] liw disglair tonnau, tebyg i[’r] heulwen:
 Y mae’n hawdd dy garu, [yr wyt fel] haul yn disgleirio.

Nodiadau

Enghraifft o gywydd deuair fyrion; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 329.

33

Cwyn y gŵr llên gwrthodedig

4 O gwrthody, liw ewyn,
 Gwas difelyn gudynnau,
 Yn ddiwladaidd, da ei lôn,
 A'i awen yn ei lyfrau,
 Cael yt filain aradrgaeth,
 Yn waethwaeth ei gyneddfau.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 9 (llau. 1–2, 5–6) B—J 111 [= RWM 1], 1135 C—Llst 3, 497^v D—Pen 20, 335 (llau. 1–2, 5–6) E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 117^r (llau. 1–2, 5–6)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 *BD* was; *E* hard velyn. 5 *C* aradgaeth. 6 *C* kynedueu.

Cwyn y gŵr llên gwrthodedig

4 Os gwrthodi, [dydi o'r un] lliw [ag] ewyn,
 Lanc a'i wallt heb fod [bellach] yn felyn,
 Yn foesgar, eang ei ddysg,
 A'i afiaith yn ei lyfrau,
 Fe gei di ŵr taecog caeth i'w aradr,
 [A]'i deithi [yn mynd] yn waeth ac yn waeth.

Nodiadau

Enghraifft o awdl-gywydd; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones: CD 327–8. Y mae fersiwn cyflawnach o'r enghraifft hon yn Pen 20, gw. isod Atodiad Dd, rhif 37.

34

Moliant Goleuddydd

- 4 Lliw eiry glennydd Mynydd Mynnau,
Lluoedd a'th fawl, gwawl gwawr Deau,
Llathrlun golau Oleuddydd;
Llifodd fy hoen o boen benyd,
Lluddiodd ym hun llun bun, lloer byd:
Lledfryd, nid bywyd, a'm bydd.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 10 B—J 111 [= RWM 1], 1135 C—Llst 3, 497^v D—Pen 20
335 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E],
117^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* Llebych eiry manot, *BD* lluwch eiry manot. 2 *A* va6l g6a6r y deheu. 3 *A*
llathyr bun. 4 *E* lludyawd; *A* hoen boen beunyd, *BC* hoen o boen beunyd, *E*
hoen o boen benyd beunyd *gyda dot uwchben yr -u- yn* beunyd. 5 *C* hun lun
bun lloer byd, *E* hun bun llun byn lloer byd. 6 *ABD* lletryt; *E* ym (*am* nid *y*
testun).

Moliant Goleuddydd

- 4 [Dydi o] liw eira llethrau Mynydd-dir yr Alpau,
[Y mae] torfeydd yn dy foli, [ti sy'n] oleuni codiad haul [y] De,
Ffurf ddisglair Goleuddydd loyw;
Llifodd [ymaith] fy hapusrwydd oherwydd penyd poen,
Rhwystrodd ffurf merch ifanc, [sydd megis] lleuad [yr holl] fyd,
fy nghwsg:
Gofid, nid bywyd, a fydd imi [bellach].

Nodiadau

Enghraifft o gywydd llosgymog; ymhellach ar y mesur, gw. J. Morris-Jones:
CD 330.

- 1 **Mynydd Mynnau** *Mont Blanc*, neu'n gyffredinol, fynydd-dir yr Alpau,
gw. GMB 27.39n.
- 3 **Goleuddydd** Cariad Gruffudd Gryg, gw. GDG³ 461; hefyd 'Marwnad
Gruffudd Gryg', *ib.* 56 (20.19–20) *Pwy a gân ar ei lân lyfr, / Prydydd*

Goleuddydd liwddyfr?; ond cf. GP 24 (llau. 15–16) *Rys ac Einyawn a gara[n]t Oleudyd* a cf. *ibid.* 6 (llau. 8–9) a Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], f. 110^v (ll. 24). Am ganu pellach i Oleuddydd yn y Gramadeg, gw. isod Atodiad D, rhif 16. Gw. hefyd y drafodaeth yn CO² 44.

35

'Hir ei lygad a wrthrych'

Gwrthrych eurgrair pair, pendefig,—ydd wyf
 I gan Dduw gwynfydig;
 Hir ei lygad, Loegr odrig,
 4 A wrthrych, deigr hywlych dig.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1137 B—Llst 3, 499^r C—Pen 20, 337 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LlGC 9048E], 118^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 B Gwrthrych. 3 C lloegr.

'Hir ei lygad a wrthrych'

Gobeithio am drysor gwych arglwydd, pendefig, yr wyf
 Drwy'r Duw bendigaid;
 Y mae[r] hir ei olwg, [o'i] arhosiad [yn] Lloegr,
 4 Yn [ei] ddisgwyl, [gyda] dagrau llifeiriol trist.

Nodiadau

Englyn unodl union a ddefnyddir yma i enghreifftio'r ffigur 'hircyllaeth', neu 'etgyllaeth', sef hiraeth neu alar cyhoeddus, sydd yn esgusodi defnyddio'r un gair, *gwrthrych*, ddwywaith mewn englyn.

3–4 **Hir ei lygad ... a wrthrych** Dihareb Gymraeg a restrir yn W. Hay *Diarhebion Cymru* (Lerpwl, 1955), 141, gyda'r amrywiad *Hir ei lygad a wrthgrif*, sef y ffurf a ddefnyddir gan Ddadydd ap Gwilym, *Dau lygad swrth yn gwrthgrif*, gw. GDG³ 260 (95.49) a gw. *ib.* 519. Ceir fersiwn cynnar yn Cy vii (1886), 142, *Hir y lygat a wrthrych*.

36

Serch at Angharad

Gwen dan aur wiwlen, leddf edrychiad—gŵyl,
 Y gwelais Angharad;
 A gwan o bryd, erwan brad,
 4 Y'm gwyl gwylwar Angharad.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1137 B—Llst 3, 499^r C—Pen 20, 337 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 118^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *B* edeychyat. 3 *D* egwan (*am* erwan y *testun*). 4 *D* lliw llewychgar (*am* y'm gwyl gwylwar y *testun*).

Serch at Angharad

Yn hardd mewn gwisg wych euraid, [ag] edrychiad isel llednais,
 Y gwelais [i] Angharad;
 Ac yn wan o ran golwg, [oherwydd] brathiad twyll,
 4 Y gwêl Angharad lednais a moesgar fî.

Nodiadau

Englyn unodl union, a ddefnyddir yma i enghreifftio 'ysmalawch cariad', sydd yn esgusodi defnyddio'r un gair, *Angharad*, ddwywaith mewn englyn.

- 4 **Angharad** Angharad ferch Ieuan Llwyd, yn ôl pob tebyg, sef yr un a gyferchir yn Atodiad C, uchod rhifau 11 (a gw. y nodyn yno), 12, 28, 29, ac yn Atodiad D, rhif 10. Trawiadol yw fod ll. gyntaf yr enghraifft hon bron yr un â phumed ll. pennill 28.

37

Englyn i farch

Pei prynwn seithbwn sathrgrug—i'th oddau,
 Pedolau pwyll gaddug
 Mangre grawnfaeth, saeth seithug,
 4 Main a'u nadd yn Hiraddug.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1137 B—L1st 3, 499^v C—Pen 20, 322 D—
 Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 118^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau llawysgrifau ABC

1 *D* bei; *A* oth oleu, *B* yth ova, *C* yth oleu *wedi ei ddiwygio yn yth odew*. 2
 [*B*]. 3 *B* []eth saeth seuthuc.

Y mae'r testun yn wahanol iawn yn llawysgrif D ac fe'i dyfynnir i gyd yma:

bei prynwn seithbwnn sychboen gruc aruaeth
 yth anaeth saeth seithuc
 neu pei gwnelwn gwnn ganfuc
 4 mein ai nad yn hiraduc

Olnod

C Gwilim ryuel ay kant.

Englyn i farch

Petawn yn prynu saith o bynnau wedi eu sathru'n bentwr ar dy
 gyfer,
 [Pynnau o] bedolau gyda'r bwriad o guddio
 [Carnau] gre wedi ei magu ar rawn, saeth seithug [fyddent hwy],
 4 Cerrig a'u treulia [hwy] yn Hiraddug.

Nodiadau

Englyn unodl union a ddefnyddir yma i enghreifftio'r bai 'carn-
 ymorddiwes', sef bod dwy linell olaf yr englyn yn gorffen yn ddiacen, gw. J.
 Morris-Jones: CD 304–5. Ymhellach ar yr englyn, gw. GLIF cerdd 29.

(Codwyd yr aralleiriad uchod o'r gyfrol honno a diolchir i'r Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams am ei ganiatâd parod i'w gyhoeddi yma.)

- 4 **Hiraddug** Trefgordd ym mhlwyfi Cwm a'r Ddiserth yn sir y Fflint, gw. WATU *s.n.*; Moel Hiraddug yw enw'r bryn uwchlaw'r Ddiserth.

38

Cwyn llanc ifanc

Gwan iawn wyf o nwyf o naws anhun—hoen,
 Am ddyn hael gweddeiddlun,
 4 Gwen a gloyw a hoyw ei hun,
 Gwynfyd gwŷr y byd yw bun.

Ffynonellau

A—J 111 [= RWM 1], 1137 B—Llst 3, 499^v C—Rhydychen, Coleg Balliol
 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 119^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* nwyf a naws anhun gwael, *C* nwyf anaws anhun, hoen. 2 *A* gwyl (*am*
 hael y *testun*). 3 *C* agloyw hoyw; *B* ehun.

Cwyn llanc ifanc

Gwan iawn o egni wyf gan nwyd [a'i] duedd [at] goll cwsg,
 Oherwydd merch hael osgeiddig,
 Hardd a disglair a diofal ei chwsg,
 4 Llawenydd gwŷr yr [holl] fyd yw merch.

Nodiadau

Englyn unodl union a ddefnyddir i enghreifftio'r bai 'tin âb', sef fod dwy
 linell olaf englyn yn gorffen yn acennog; ymhellach, gw. J. Morris-Jones:
 CD 304–5.

1 **gwan iawn wyf** Sylwer ar agoriad tebyg enghreifftiau 22 a 25 uchod.

39

Carw ymosodol

Cyrnig, llym, trychig, llam trwch,—ysgerygl,
 Tud erthygl, tad erthwch,
 Cymrnyrn deirnwern, cern ceirnfwch,
 4 Carn sarn, darn dwrdd, corn hwrdd, hwch.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 32 B—J 111 [= RWM 1], 1137 C—Llst 3, 499^v D—Pen 20,
 339 E—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E],
 119^r

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *B* trychit. 2 *B* tut erthygl, *C* tyt erthygl, *D* tit erthygl, *E* tityrthigl. 3 *AD*
 dyrnwern, *C* deirnwern, *E* deirwern; *B* keirnvwch, *E* keirnwch. 4 *E* gwrdd (*am*
 corn y *testun*); *C* hwrth (*am* hwrdd y *testun*); *C* hwc.

Carw ymosodol

Corniog, siarp, parod i rwygo, [â] naid fawr, [â] chyrn megis]
 careglau,
 Cyswllt gwlad, tad tuchan,
 Cymr [megis] dyrnau pren gwern i ergydio, [gydag] wyneb [fel]
 bwch corniog,
 4 Carn [i] sathru, peth [i beri] cynnwrf, corn hwrdd, baedd.

Nodiadau

Englyn unodl union a ddefnyddir i enghreifftio'r bai 'diffyg berf'.

- 1 **ysgerygl** Digwydd *cerygl* fel ll. *caregl* yn GCBM i, 3.171 *Pennyadur kerygl* a aralleirir 'Pennaeth careglau', gw. GPC 426 'cwpan, ffiol, llestr yfed; y cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun'; cf. GDG³ 324 (122.34) *A charegl nwyf a chariad*. Gogleisiol yw'r ddihareb a ddyfynnir gyntaf yn W. Salesbury, *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* (Llundain, 1547; adargraffiad 1902), *Tebic oedd corn bwch i carecl*; gw. ymhellach W. Hay, *Diarhebbion Cymru* (Lerpwl, 1955), 250 am amrywiadau. Anodd, fodd bynnag, yw esbonio'r *ys-*. Y mae'n demtasiwn cysylltu'r ffurf â *s(i)errigl*, gw. GLIL 9.12 *Edeimueirch a seirch serygl kynnw* a'r nodyn yno. Yr ystyr wedyn fyddai '[yn peri torri'n] gandryll'.

- 3 **ceirnfwch** Cf. G 125, lle yr awgrymir y gall y gair olygu 'bwch carnog' yn ogystal â 'bwch corniog'.
- 4 **hwch** Sylwer bod y gair yn cael ei ddefnyddio yma yn ei ystyr wreiddiol 'mochyn gwryw', gw. GPC 1928–9.

Atodiad Ch

Dangosir yn y rhestr isod yr enghreifftiau mydryddol a geir yn fersiwn Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353, yr ymdriniwyd â hwy yn Atodiad C gan nodi lleoliad yr enghreifftiau cyfatebol yn Llyfr Coch Hergest. Dilynir trefn yr enghreifftiau yn Atodiad C a rhoddir eu rhif yn y drefn honno yn y golofn gyntaf isod. Yn dilyn y rhestr rhoddir y penillion enghreifftiol hynny a geir yn Llyfr Coch Hergest ond nas ceir yn Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353.

	Llanstephan 3 a Balliol 353	Llyfr Coch Hergest
1	<i>Mi yw'r gwas gweddeiddlas, gwan</i>	nis ceir
2	<i>Pei cawn o gyflwr gyfle brofi—rhin</i>	J 111, 1127
3	<i>Dilynais, chwyfais, fal y'm clyw—decant</i>	J 111, 1127
4	<i>Un dwyll wyt o bwyll, o ball dramwy—hoed</i>	J 111, 1127
5	<i>Llawnlwys lys yw Rhys, Rhos gynired—cad</i>	J 111, 1128
6	<i>Ofer o iawnder undawd—hwyl anaw</i>	J 111, 1128
7	<i>Cathlau eos nos, yn oed—y'u ciglau</i>	J 111, 1128
8	<i>Cyd ymwnel cywyd, bryd brys</i>	J 111, 1128
9	<i>Hunydd hirloyw ei hystlys</i>	J 111, 1128
10	<i>Doeth i feirdd heirdd hardd westi</i>	J 111, 1128
11	<i>Dy garu, goroen eglur</i>	J 111, 1129
12	<i>Angharad, hoyw leuad liw</i>	J 111, 1129
13	<i>Cae a gefais, dawngais, doe</i>	J 111, 1129
14	<i>Llawen dan glaerwen len laes</i>	J 111, 1129
15	<i>Mynnwn, cyd yd gawn gwg</i>	J 111, 1129
16	<i>Na'r haul yn hwyl awyrnaid</i>	J 111, 1129
17	<i>Chwerddid mwyalch mywn celli</i>	J 111, 1130
18	<i>Onid ynad a darllead—llyfrau</i>	J 111, 1130
19	<i>Nid digerydd Duw, neud digarad—cyrdd</i>	J 111, 1131
20	<i>Meddyliais i drais o drasymf fryd</i>	gw. isod 20
21	<i>Trindawd parawd pur, traws, maws, moes eglur</i>	gw. isod 21
22	<i>Gwan wyf o glwyf, yn glaf trymaint</i>	J 111, 1131
23	<i>Trindawd ffawd ffêr ...</i>	J 111, 1131
24	<i>Thomas a Rhopert, rhwyd pâr—gwersyllig</i>	gw. isod 24
25	<i>Gwan iawn wyf o glwyf er gloyw forwyn</i>	J 111, 1132
26	<i>Wrthyd, Greawdr byd, bid fy ngobaith</i>	J 111, 1132

(Trefn y llau. yn Llyfr Coch Hergest yw 1–3, 6, 5, 4.)

27	<i>Ei barau, arfau arfoloch</i>	J 111, 1133
28	<i>Gwynfyd gwŷr y byd oedd fod Angharad</i>	J 111, 1133
29	<i>Llithrodd, ys rhannodd, ys rhad</i>	J 111, 1133
30	<i>Buddiant i feirdd fyrddau dramwy</i>	J 111, 1134
31	<i>Breichffurf, archgrwn, byr ei flew</i> (llau. 1–2 yn unig)	J 111, 1134
32	<i>Hardd-deg riain, hydwf, glwysgain</i>	J 111, 1135
33	<i>O gwrthody, liw ewyn</i>	J 111, 1135
34	<i>Lliw eiry glennydd Mynydd Mynnau</i>	J 111, 1135
35	<i>Gwrthrych eurgrair pair, pendefig,—ydd wyf</i>	J 111, 1137
36	<i>Gwen dan aur wiwlen, leddf edrychiad—gŵyl</i>	J 111, 1137
37	<i>Pei prynwn seithbwn sathrgrug—i' th oddau</i>	J 111, 1137
38	<i>Gwan iawn wyf o nwyf o naws anhun—hoen</i>	J 111, 1137
39	<i>Cyrnig, llym, trychig, llam trwch,—ysgerygl</i>	J 111, 1137

Noder bod yr enghreifftiau uchod yn digwydd yn yr un drefn yn union â Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353.

20

Mawl tywysog dienw

4 Daroganaf nas darogant,
 Daroganfeirdd heirdd digeirdd Dygant;
 Dognoedd o wisgoedd a wisgant—o'i law,
 Darf Lloegrfraw, canllaw, Cynllug rymiant.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 35 B—J 111 [= RWM 1], 1131

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *AB* naf. 3 *A* o lab. 4 *B* daryfloeg-uraw.

Mawl tywysog dienw

4 Proffwydaf yr hyn na phroffwydant [hwy],
 [Sef] beirdd proffwydol heirdd anrhydeddus Degannwy;
 Byddant [hwy]'n gwisgo rhoddion o wisgoedd o'i law,
 [Sef y] tarfwr yn dwyn braw ar Loegr, [y] cynheiliad, [un o] rym
 Cynllug.

Nodiadau

Enghraifft o wawdodyn.

1–2 Cymharer pedair ll. agoriadol 'Marwnad Owain Gwynedd' gan Gynddelw Brydydd Mawr, gw. GCBM ii, 4.1–4, a sylwer ar y cyfuniad *Dygant* / ... *darogant*.

Dygant Dilynir awgrym petrus G 416 yma.

4 **Cynllug** Arwr chwedlonol na wyddys fawr ddim amdano, gw. G 252; posibilrwydd arall yw mai e.c. yn golygu 'tywysog', &c., sydd yma, a dyna ddewis GPC 793.

21

Serch creulon

4 Llafaru a wnaf Llywiawdr nef a'i Naf,
 Llyw nerth y'i galwaf, gelfydd arfer,
 Llyna fy namwain, llym foli rhiain,
 Llariaidd bryd mirain, llun main muner.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 36 B—J 111 [= RWM 1], 1131 C—Pen 20, 330

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

2 A llarfnerth, C llary nerth.

Serch creulon

4 Deisyf a wnaf ar Reolwr ac Arglwydd y nefoedd,
 Yn Bennaeth gallu y'i galwaf [Ef], [yn ôl fy] arfer gelfydd,
 Dyna fy anffawd, eiddgar foli merch ieuanc,
 [Un o] wedd radlon [a] hardd, [un o] olwg meini gwerthfawr
 [teilwng o] arglwydd.

Nodiadau

Enghraifft o gyhydedd hir.

- 1 **Llafaru ... Llywiawdr** Cymerwyd bod *Llafaru* yn golygu 'deisyf' yma a bod *Llywiawdr* yn wrthrych uniongyrchol iddo, ond sylwer nad yw'r dystiolaeth yn eglur i gystrawen o'r fath yn GPC 2141. Posibilrwydd arall yw fod *Llywiawdr nef a'i Naf* yn gyfarchol a bod *celfydd arfer* yn wrthrych i'r f. *llafaru*.
- 4 **main** Nid amhosibl yr ystyr 'tenau, *slim*' i'r gair hwn.

24

Awdl i Dduw

Y Gŵr a'm rhoddes rhiniau—ar dafawd
 Ac arawd a geiriau,
 A'm troses i gyffes nid gau,
 4 A'm troso i'r trosedd gorau:
 I guriaw gorwisg fy ngruddiau,
 I garu Mab Duw diamau,
 I gymryd penyd rhag poenau—uffern
 8 Ac affaith bechodau.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 16 B—J 111 [= RWM 1], 1132 C—Pen 20, 332

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *A* rinneu; *C* dauot. 2 *B* arawt ac eiryeu, *C* arot ageiryeu. 3 *A* an. 4 *A* an; *A* tryssed. 5 *A* gorŵic yn grudieu. 8 *A* ai haffeith; *C* pechodeu.

Awdl i Dduw

Boed i'r Gŵr a roddodd i mi gyfrinachau ar lafar
 Ac araith a pharabl,
 [Ac] a'm trodd i gyffes ddidwyll,
 4 Fy nhroi i'r rhagoriaeth orau:
 I dreulio [â dagrau] orchudd fy mochau,
 I garu Mab diamau Duw,
 I benydio rhag dioddefiannau uffern
 8 Ac effaith pechodau.

Nodiadau

Yn enghraifft o fyr a thoddaid dyfynnir yma wyth llinell gyntaf 'Awdl i Dduw' o waith Gruffudd ab yr Ynad Coch, gw. GBF 40.1–8. Dilynr yr aralleiriad a roddir yno, hyd y gellir, gan ddiolch i'r Athro McKenna am gael gwneud hynny.

4 **trosedd** Ar y gair diddorol hwn, gw. BI BGCC 149–50; cf. hefyd gerdd Einion Offeiriad uchod 1.145 *Rhysedd gwledig drosedd gwlad*.

Atodiad D

Dangosir yma'r enghreifftiau mydryddol a geir yn fersiwn Llanstephan 3 a Rhydychen, Coleg Balliol 353, yr ymdriniwyd â hwy yn Atodiad C, gan nodi lleoliad yr enghreifftiau cyfatebol yn Bangor 1 / Peniarth 169. Dilynir trefn yr enghreifftiau yn Atodiad C a rhoddir eu rhif yn y drefn honno yn y golofn gyntaf isod. Lle ceir bwlech yn llawysgrif Bangor 1, codwyd yr enghreifftiau o lawysgrif Peniarth 169, copi llawnach o lawysgrif Bangor 1 'a wnaethpwyd gan Roger Morris o Goed y Talwrn, yn 1588, pan oedd Peniarth 191 a Bangor 1 yn un', gw. J.T. Jones, 'Gramadeg Einion Offeiriad', B ii (1923-5), 185.

Llanstephan 3 a Balliol 353

Bangor 1 /
Peniarth 169

- | | | |
|---|---|--------------|
| 1 | <i>Mi yw'r gwas gweddeiddlas, gwan</i> | nis ceir |
| 2 | <i>Pei cawn o gyflwr gyfle brofi—rhin</i> | Bangor 1, 26 |
| 3 | <i>Dilynais, clwyfais, fal y'm clyw—decant</i> | Bangor 1, 26 |
| 4 | <i>Un dwyll wyt o bwyll, o ball dramwy—hoed</i> | Bangor 1, 26 |
| 5 | <i>Llawnlwys lys yw Rhys, Rhos gynired—cad</i> | |

Yn Bangor 1, 13 yr enghraifft o englyn unodl dalgron heb ddeusain dalgron ynddo (sef pan fo pedair odl yr englyn yn gorffen yn yr un gytsain a'r un llafariad) yw rhif 5 isod.

6 *Ofer o iawnder undawd—hwyl anaw*

Yn Bangor 1, 13 yr enghraifft o englyn unodl union sy'n gorffen â deusain dalgron a chytsain yw rhif 6 isod.

- | | | |
|----|---|--------------|
| 7 | <i>Cathlau eos nos, yn oed—y'u ciglau</i> | Bangor 1, 13 |
| 8 | <i>Cyd ymwnel cywyd, bryd brys</i> | Bangor 1, 28 |
| 9 | <i>Hunydd hirloyw ei hystlys</i> | Bangor 1, 28 |
| 10 | <i>Doeth i feirdd heirdd hardd westi</i> | |

Yn Pen 169, 147 yr enghraifft o englyn proest dalgron, sef englyn sydd â'r pedair odl yn gorffen â llafariad amrywiol, yw rhif 10 isod.

- | | | |
|----|-------------------------------------|---------------|
| 11 | <i>Dy garu, goroen eglur</i> | Bangor 1, 14 |
| 12 | <i>Angharad, hoyw leuad liw</i> | Bangor 1, 14 |
| 13 | <i>Cae a gefais, dawngais, doe</i> | Bangor 1, 147 |
| 14 | <i>Llawen dan glaerwen len laes</i> | Bangor 1, 14 |
| 15 | <i>Mynnwn, cyd yd gäwn gwg</i> | Bangor 1, 148 |
| 16 | <i>Na'r haul yn hwyl awyrnaid</i> | |

Yn Pen 169, 148 yr enghraifft o englyn lleddfbroest gadwynog yw rhif 16 isod.

17 *Chwerddid mwyalch mywn celli*

Yn Bangor 1, 29 yr enghraifft o englyn milwr yw rhif 17 isod.

18 *Onid ynad a darllead—llyfrau* nis ceir

19 *Nid digerydd Duw, neud digarad—cyrdd* Bangor 1, 33

20 *Meddyliais i drais o drasymf fryd*

Yn Bangor 1, 35 yr enghraifft o wawdodyn yw'r un a geir yn Llyfr Coch Hergest, gw. Atodiad Ch, rhif 20.

21 *Trindawd parawd pur, traws, maws, moes eglur*

Yn Bangor 1, 36 yr enghraifft o gyhydedd hir yw'r un a geir yn Llyfr Coch Hergest, gw. Atodiad Ch, rhif 21.

22 *Gwan wyf o glwyf, yn glaf trymaint* Bangor 1, 36

23 *Trindawd ffawd ffêr ...* Bangor 1, 37

24 *Thomas a Rhopert, rhwyd pâr—gwersyllig*

Yn Bangor 1, 16 yr enghraifft o fyr a thoddaid yw'r un a geir yn Llyfr Coch Hergest, gw. Atodiad Ch, rhif 24.

25 *Gwan iawn wyf o glwyf er gloyw forwyn* Bangor 1, 15

26 *Wrthyd, Greawdr byd, bid fy ngobaith* Bangor 1, 15

27 *Ei barau, arfau arfoloch* nis ceir

28 *Gwynfyd gwŷr y byd oedd fod Angharad* nis ceir

29 *Llithrodd, ys rhannodd, ys rhad* nis ceir

30 *Buddiant i feirdd fyrddau dramwy*

Yn Bangor 1, 5 yr enghraifft o dawddgyrch cadwynog yw'r un a olygwyd yng ngherdd 1 y gyfrol hon, Atodiad B, td. 11.

31 *Breichffyrf, archgrwn, byr ei flew* Bangor 1, 9

(llau. 3–6 yn unig)

32 *Hardd-deg riain, hydwf, glwysgain* Bangor 1, 6, 9

33 *O gwrthody, liw ewyn* Bangor 1, 9

(llau. 1–2, 5–6 yn unig)

34 *Lliw eiry glennydd Mynydd Mynnau* Bangor 1, 10

35 *Gwrthrych eurgrair pair, pendefig,—ydd wyf* nis ceir

36 *Gwen dan aur wiwlen, leddf edrychiad—gŵyl* nis ceir

37 *Pei prynwn seithbwn sathrgrug—i'th oddau* nis ceir

38 *Gwan iawn wyf o nwyf o naws anhun—hoen* nis ceir

39 *Cyrnig, llym, trychig, llam trwch,—ysgerygl* Bangor 1, 32

Noder mai yn y drefn ganlynol y mae'r enghreifftiau uchod yn digwydd: 2, 3, 4, 10, 13, 15, 16, 5, 6, 7, 11, 12, 14, 40, 8, 9, 17, 39, 19, 41, 20, 21, 22, 23, 25, 26, 24, 30, 32, 31, 33, 34.

5

I Ddyddgu

Dyddgu, degwch llu, llathraid ddangos—pall,
 A farn pell ac agos
 Yn ganeidlun fun feindlos,
 4 Yn gannwyll nefawlbwyll nos.

Ffynhonnell
 Bangor 1, 13

Darlleniad y llawysgrif
 3 ganeitlun.

I Ddyddgu

Dyddgu, [safon] tegwch [i] dyrfa, yn arddangos yn ysblennydd
 fantell,
 Y mae [pawb] yn bell ac yn agos yn barnu
 [Ei bod] yn ferch ddisgleirwen, hardd a main,
 4 [Ac] yn oleuni [yn ôl] doethineb ddwyfol [yn y] nos.

Nodiadau

Dyma'r enghraifft o englyn unodl dalgron heb ddeusain dalgron ynddo, sef pan fo pedair odl yr englyn yn gorffen yn yr un gytsain a'r un llafariad, yn Bangor 1, 13.

- 1 **Dyddgu** Fe gofir mai dyma enw un o gariadon Dafydd ap Gwilym, gw. GDG³ xxiii–xxv a'r canu iddi yno.

6

Coedwig yn lluddias serch

Pa wnaf, pa ganaf, geinwawr—lliw golau?
 Neur giliawdd mis Chwefrawr
 Rhag meithed, mau godded mawr,
 4 Dros Elfael drawsgoed Maelawr.

Ffynhonnell
 Bangor 1, 13

Coedwig yn lluddias serch

Beth a wnaf, beth a ganaf, deg arglwyddes [o] liw[’r] goleuni?
 Aeth mis Chwefror heibio [heb i mi dy weld]
 Oherwydd mor bell, er mawr ofid imi,
 4 Yw[’r daith] dros Elfael i goedwig fawr Maelor.

Nodiadau

Dyma’r enghraifft o englyn unodl union sy’n gorffen â deusain dalgron a chytsain yn Bangor 1, 13.

4 **Elfael** ‘Cantref yn neau Maesyfed’ yn ôl G 467, a gw. WATU 66.

trawsgoed Yn gyffredinol, coedwig fawr. Y mae’r enw plwyf Bangor Is Coed ym Maelor Saesneg yn awgrymu’n gryf fod unwaith goedwig a weithredai fel rhaniad daearyddol yn y fro honno, gw. WATU 9, a hefyd W. Linnard, *Welsh Woods and Forests* (Cardiff, 1982), 199, lle yr enwir amryw (weddillion?) fforestydd ym Maelor Saesneg yn 1696. (Diolchir yn gynnes i Dr Linnard am ei gymorth gyda’r nodyn hwn.) Noder bod *trawsgoed* yma’n gweithredu fel gwrthrych bf. (ddealledig) yn dynodi symud heb ardd. o’i flaen.

Maelawr Ar gymydau Maelor Gymraeg a Maelor Saesneg ym Mhowys, gw. WATU 148.

10

I Angharad

4 Angharad, lleuad pob lle,
Angharad, braisg fonedd bro,
Glew a beth oeddud imi,
Gloywliw, hygar dy garu.

Ffynhonnell

Pen 169, 147

Darlleniadau'r llawysgrif

2 boned (v) gyda ll. o dan y b- a'r v. 3 gleua beth oedut. 4 gloywlyu.

I Angharad

4 Angharad, goleuni pob man,
Angharad, o gadarn linach fonheddig bro,
Peth ardderchog oeddit [ti] ar fy nghyfer i,
[Yr un o] liw disglair, [y mae] dy garu [di yn] garu hawdd.

Nodiadau

Dyma'r enghraifft o englyn proest dalgron, sef englyn sydd â'r pedair odl yn gorffen â llafariad amrywiol, yn Pen 169, 147.

- 1 **Angharad** Anodd osgoi'r casgliad mai gwraig Ieuan Llwyd ab Ieuan o Lyn Aeron yw hi, gw. y nodyn yn Atodiad C, rhif 11, uchod, ac y mae'n debygol fod yr englyn hwn yn perthyn yn agos i'r englyn hwnnw a'r un sy'n ei ddilyn. Am ganu pellach i Angharad yn y Gramadeg, gw. uchod Atodiad C, rhifau 11, 12, 28, 29, 36. Noder hefyd fod yma enghraifft o 'ysmalawch cariad', a bod hynny yn esgusodi defnyddio'r un gair, *Angharad*, ddwywaith mewn englyn, cf. uchod Atodiad C, 36.2, 4 ac isod Atodiad Dd, 8.2, 4; yn achos Atodiad Dd, 14.4 efallai y dylid diwygio.

16

I Oleuddydd

Ynghyd, gwyn fy myd, i'm hoes,
 Â mi *fai*, pai hi hyddwys:
 Goleuddawn llawn llawenfoes
 Goleuddeddf Goleuddydd lwys.

4

Ffynhonnell

Pen 169, 148

Darlleniad y llawysgrif

1 Ygyt. 2 mi pei hi.

I Oleuddydd

Ynghyd, gwyn fy myd, drwy f'oes,
 Â mi fyddai, petai hi o ddifrif calon:
 Rhodd olau llawn bywyd llawen
 [Fyddai] arfer golau Goleuddydd deg.

4

Nodiadau

Dyma'r enghraifft o englyn lleddfbroest gadwynog yn Pen 169, 148.

- 2 Y mae ll. y llsgr. sillaf yn fyr; diwygiwyd er mwyn adfer hyd y ll. ac er mwyn yr ystyr.
- 4 **Goleuddydd** Cariad Gruffydd Gryg, a gysylltir hefyd â *Rys ac Einyawn* yn y Gramadeg, gw. y nodyn yn Atodiad C, rhif 34.

17

Tri mab Gilfaethwy

Tri maib Gilfaethwy enwir,
 Tri chyfrwy saethiad, cad gywir,
 Bleiddwn, Hyddwn, Hychdwn hir.

Ffynhonnell
 Bangor 1, 29

Darlleniad y llawysgrif
 2 kywir.

Tri mab Gilfaethwy

Tri mab Gilfaethwy anffyddlon,
 Tri saethydd [o] gyfrwy, ffyddlon [mewn] brwydr,
 Bleiddwn, Hyddwn, Hychdwn dal.

Nodiadau

Dyma'r enghraifft o englyn milwr yn Bangor 1, 29. Codwyd yr enghraifft o Bedwaredd Gainc y Mabinogi, gw. PKM 76. Yno y mae'r ail linell beth yn wahanol: *Tri chynryseddad cywir*, sef 'Tri champwr ffyddlon'.

- 1 **Tri maib** Â'r agoriad, cf. GLIBH cerdd 10, sydd hefyd yn dechrau *Tri maib* ...
Gilfaethwy Un o gymeriadau chwedl 'Math fab Mathonwy', y bedwaredd o geinciau'r Mabinogi. Y mae Gilfaethwy yn enwog am dreisio Goewin ferch Pebin a chael ei gosbi am hynny gan Fath mab Mathonwy; o ganlyniad bu iddo dri mab, gw. PKM 252–3 ac WCD 282–3.
- 3 **Bleiddwn** Bleiddwn ap Gilfaethwy, gw. PKM 268–9 a'r nodyn ar *Gilfaethwy* uchod ll. 1.
- 3 **Hyddwn** Hyddwn ap Gilfaethwy, gw. PKM 268–9 a'r nodyn ar *Gilfaethwy* uchod ll. 1.
- 3 **Hychdwn** Hychdwn ap Gilfaethwy, gw. PKM 268–9 a'r nodyn ar *Gilfaethwy* uchod ll. 1.

40

I Rydodyn

Cerddais, tramwysais tremyn—teyrnedd,
 Tai orne gwledd wehyn,
 Rhyd hynod hoywglod odyn,
 Rhwydd ged, lle rhed pob rhyw ddyn.

4

Ffynhonnell
 Bangor 1, 28

I Rydodyn

Cerddais, teithiais daith brenhinoedd,
 [I] oleuni llys yn rhannu gwledd[oedd],
 [I] Rydodyn arbennig [a] bywiog ei glod,
 [Lle] hael [ei] rodd, lle y cyrch pob rhyw ddyn.

4

Nodiadau

Yn Bangor 1 cynhwysir dwy enghraifft ychwanegol. Y mae'r naill (ar d. 28) yn enghreifftio englyn unodl union gyda gair cyrch trisillafog.

- 3 **Rhyd ... odyn** Plasty ym mhlwyf Llansawel yn yr hen sir Gaerfyrddin, gw. WATU 191. Croesewid beirdd yno ar ddiwedd y 14g. a chanodd Madog Dwygraig i'w noddwr Morgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn, gw. R 1271.33–4 *llgybyr hard y brifuard brofi obennllyn gofyn ryt odyn ae reit oedi*. Yr oedd yn lle enwog am ei haelioni, gw. GGI² 278 (CVIII.47–8) *Nid adwen hyd Rydodyn / Abad well i roi bwyd yn*; gw. hefyd E.R.Ll. Davies ac E. Edwards, 'Teulu Ifor Hael a'r Traddodiad Nawdd', YB xii (1982), 143–56 (yn arbennig 143–9).

41

Cais y cariadlanc

Bydd gywir, feinir, fun decaf,—glaerfryd,
Gwynfyd dihewyd, haul gymhryd haf.

Ffynhonnell
Bangor 1, 34

Cais y cariadlanc

Bydd [di]'n ffyddlon, lances hardd, ferch brydferthaf [a] thirion
ei natur,
Dedwyddwch dyhead, o'r un tegwch â heulwen haf.

Nodiadau

Y mae'r enghraifft ychwanegol arall (ar d. 34) yn enghreifftio gair cyrch deusillafog mewn toddaid.

- 2 **dihewyd** Nid amhosibl nad enw'r pentref yng nghanolbarth Ceredigion sydd yma, gw. WATU 57.

GWAITH
DAFYDD DDU O HIRADDUG

Rhagymadrodd

Megis Einion Offeiriad, y mae Dafydd Ddu o Hiraddug yn ffigur pur bwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg ar gyfrif ei fersiwn o'r gramadeg barddol. Ychydig, fodd bynnag, sy'n hysbys am ei fywyd.¹ Yn llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg, fe'i gelwir yn 'Dafydd Ddu Athro o Degeingl a Hiraddug' ac awgryma hynny ei fod yn frodor o drefgordd Hiraddug ym mhlwyf y Cwm, a oedd yn rhan o gwmwd Rhuddlan a hwnnw yn ei dro yn rhan o gantref Tegeingl. Y tebyg yw iddo gael ei eni naill ai'n ddiweddar yn y drydedd ganrif ar ddeg neu'n gynnar yn y bedwaredd ar ddeg, ond ni wyddys dim i sicrwydd am ei achau. Y mae pob lle i gredu iddo ddilyn gyrfa fel gŵr eglwysig secwlar, ac y mae'r teitl 'Athro' a briodolir iddo—yn llawysgrif Peniarth 20 yn ogystal ag yn llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg—yn awgrymu iddo dreulio cyfnod mewn prifysgol sef, yn ôl pob tebyg, Rhydychen: efallai fod ei deitl yn arwydd iddo raddio'n *Magister in Artibus* yno. Gydag amser daeth yn un o ganoniaid Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Dywed haneswyr esgobaeth Llanelwy iddo ddod yn Ganghellor yr eglwys gadeiriol, a chan hynny'n gyfrifol am ei hysgol a'i llyfrgell, ond ni wyddys ar ba sail y dywedir hynny. Y mae sail gadarnach dros gredu iddo fod yn Ficer Cyffredinol yr esgobaeth yn ystod y deg mis yn 1357 pan oedd y sedd esgobol yn wag rhwng marw'r esgob Siôn Trefor I a dyrchafu'r archddiacon Llywelyn ap Madog ab Elis i fod yn esgob. Dywed Dr John Davies o Fallwyd yn 1632 i Ddafydd Ddu yntau fod yn archddiacon, ac os cywir hynny tebyg mai olynu Llywelyn ap Madog ab Elis a wnaeth. Erbyn 1371 Ithel ap Robert, un o brif noddwyr Iolo Goch, oedd yr archddiacon, a'r tebyg yw felly fod Dafydd Ddu wedi marw erbyn hynny. Yn ôl traddodiad llafar a glywodd Edward Lhuyd yn 1696, fe'i claddwyd yn eglwys blwyf y Ddiserth, a chan fod y plwyf yn rhan o waddol yr archddiaconiaeth a'r archddiacon yn trigo ynddo, y mae hynny'n bur debygol. Ers y ddeunawfed ganrif honnir mai Dafydd Ddu yw'r DAVID FILIVS HOVEL FILIVS MADOC a gladdwyd mewn beddrod trawiadol yn eglwys blwyf Tremeirchion, ond ysywaeth nid yw hynny bellach yn ymddangos yn debygol. Ers yr unfed ganrif ar bymtheg, ac efallai cyn

¹ Trafodir yr holl dystiolaeth yn R.G. Gruffydd, 'Wales's Second Grammarian: Dafydd Ddu o Hiraddug', PBA xc (1995), 1–29. Y mae'r gwaith hwn yn disodli'r erthygl gynharach gan yr un awdur 'Dafydd Ddu o Hiraddug', LICy xviii (1994–5), 205–20. Dylid nodi bod enw Dafydd Ddu o Hiraddug yn cael ei gynnwys gan Syr Thomas Wiliems (BL Add 31055, 47–8) a Roger Morris (CM 530A, 155) yn eu rhestrau o feirdd.

hynny, cylchredai chwedlau ar lafar gwlad am Ddafydd Ddu fel dewin, ac iddo alluoedd arbennig ar gyfrif ei gyfathrach ag ysbrydion drwg.

Ei waith

Cofir am Ddafydd Ddu yn bennaf fel awdur golygiad o ramadeg barddol Einion Offeiriad. Tebyg i ramadeg Einion gael ei gyfansoddi'n gynnar yn nauddegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac i olygiad Dafydd Ddu gael ei lunio ychydig flynyddoedd wedi hynny: rhaid fod y gwaith wedi'i wneud cyn c. 1330, gan mai dyna ddyddiad llawysgrif Peniarth 20, sy'n cynnwys y copi cynharaf o ddigon o olygiad Dafydd Ddu.

Yng ngramadeg gwreiddiol Einion Offeiriad ac yng ngolygiad Dafydd Ddu, cynhwysir pedair llinell o ganu serch gan Ddafydd Ddu yn enghraifft o fath o englyn proest. Y mae'n esiampl ardderchog o'r math o ganu 'teuluaid' y rhoddodd Einion le mor amlwg iddo yn ei ramadeg.² Gan fod y pedair llinell yn ymddangos yng ngramadeg Einion yn ogystal â golygiad Dafydd Ddu, y mae'n amlwg fod Einion o leiaf yn gwybod am waith Dafydd Ddu pan luniai ei ramadeg: nid yw'n amhosibl eu bod yn gydweithwyr o'r dechrau.

Y mae'r ddau gywydd a gadwyd o waith Dafydd Ddu yn amlwg yn addysgol eu hamcan (os oedd Dafydd Ddu'n Ganghellor Eglwys Gadeiriol Llanelwy, byddai cyfansoddi cywyddau o'r fath yn gweddu i'r dim i'w swydd). Ar un olwg y maent yn gynnyrch y mudiad eglwysig mawr i addysgu clerigwyr a lleygwyr fel ei gilydd a gychwynnwyd ym Mhedwerydd Cyngor y Lateran yn 1215 ac a gafodd hwb arbennig yn yr ynysoedd hyn drwy gyfansoddiadau Cyngor Lambeth a gynhaliwyd gan yr Archesgob John Peckham yn 1281.³ Dengys nifer y llawysgrifau y cadwyd y cywydd cyntaf ynddynt iddo fod yn eithriadol o boblogaidd. Adrodd yn syml Hanes yr Iachawdwriaeth a wneir ynddo, gan ddechrau gyda'r Creu, manylu ar gwmp Adda a'i ganlyniadau ac yna ddangos sut y bu i ddyfodiad Crist ddileu effeithiau'r Cwmp. Trawiadol yw'r modd y dibynnir ynddo am ei fframwaith, nid ar y Beibl fel y cyfryw, ond ar y testun apocryffaidd 'Hystoria Adrian ac Ipotis';⁴ ni wneir dim byd tebyg, hyd y sylwyd, yn y cerddi eraill o'r Oesoedd Canol Diweddar sy'n ceisio adrodd hanes y Creu.⁵

² Gw. yn arbennig R. Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 157–80.

³ Gw., e.e., J.E. Caerwyn Williams, 'Rhyddiaith Grefyddol Cymraeg Canol' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. G. Bowen (Llandysul, 1974), 312–408, yn arbennig tt. 388–403.

⁴ LIA 128–37; J.E. Caerwyn Williams, 'L'Enfant Sage ac Adrian et Epictitus yn Gymraeg', B xix (1960–2), 259–95; *ib.* xx (1962–4), 17–28. Gw. ymhellach yn awr, Catherine E. Byfield a Martha Bayless, 'Y Gorcheston: The Welsh *Ioca Monachorum*: Texts, Translations and Commentary', SC xxx (1996), tt. 197–222.

⁵ Cf., e.e., R 1367.14–1369.6; IG 494–500.

Ni ellir, ysywaeth, honni bod cywydd Dafydd Ddu'n un awenyddol iawn, er bod y diweddglô rhybuddiol yn neilltuol o rymus.

Fel y mae'r cyntaf o'r ddau gywydd yn amcanu dysgu Hanes yr Iachawdwriaeth, y mae'r ail yn amcanu dysgu'r Deg Gorchymyn. Unwaith eto, fodd bynnag, nid ar y Beibl y dibynnir, ond ar sgema o eiddo Dafydd Ddu ei hun, i bob golwg, sydd yn cyfuno fersiwn canoloesol y Deg Gorchymyn (a olygai hepgor yr ail orchymyn a rhannu'r degfed yn ddau)⁶ gyda gorchymynion Crist i garu Duw a chymydog fel y cofnodir hwy yn yr Efengylau cyfolwg.⁷ Y mae'n werth crybwyll bod 'decem mandata decalogi' a 'duo praecepta evangelii, scilicet geminae charitatis' wedi'u nodi'n nesaf at ei gilydd yng Nghyfansoddiadau Lambeth.⁸ Awgrymodd yr Athro Catherine McKenna fod cyfuno nid annhebyg o'r Deg Gorchymyn a'r Saith Bechod Marwol yn digwydd mewn awdl gan Ruffudd ab yr Ynad Coch.⁹ Unwaith eto diweddglô'r cywydd, gyda'i anogaeth i ddisgyblion i ddsygu'r Deg Gorchymyn ar eu cof, yw'r peth mwyaf trawiadol ynglŷn ag ef.

Os gellir ystyried dau gywydd Dafydd Ddu'n ddogfennau addysgol, rhaid ystyried ei unig awdl yn bregeth, fel y gwelwyd yn eglur eisoes gan Dr Brynley F. Roberts a Syr Glanmor Williams.¹⁰ Myfyrdod estynedig yw'r awdl ar ddiffanedigrwydd gogoniant dyn, ar dynged arswydus ei gorff yn y bedd, a'r bygythiad am farn fwy erchyll fyth i ddod: cwbl briodol gan hynny yw'r nodyn o eiriolaeth ddwys y gorffennir yr awdl arno. Y mae thema *sic transit gloria mundi* yn gyffredin yn y cyfnod, wrth gwrs,¹¹ ac fe wneir defnydd arbennig o bwerus o'r thema ar ddechrau'r ganrif nesaf yng ngwaith Siôn Cent, ond gellir ystyried Dafydd Ddu yn yr awdl hon yn rhagredegydd teilwng iddo.

Y mae cywydd yn mydryddu Gweddî'r Arglwydd yn cael ei briodoli i Ddafydd Ddu mewn un llawysgrif, ond gan fod pedair yn ei briodoli i Siôn ap Rhys ap Llywelyn (ac un arall yn ei adael yn ddienw) bernir mai hwnnw yw'r awdur mwyaf tebygol.

Mewn llawysgrifau o'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg, honnir mai Dafydd Ddu oedd 'awdur' *Gwassanaeth Meir ac Ymborth yr*

⁶ Cf., e.e., T. Jones, 'Pre-Reformation Welsh Versions of the Scriptures', Cylch LIGC iv, (1945–6), 97–114, yn arbennig tt. 108–9. Diddorol yw gweld Raff ap Robert yn cyflwyno'r un fersiwn ar drothwy'r Diwygiad Protestannaidd, gw. A. Cynfael Lake, 'Pedwar o farwnadwyr Tudur Aled, Gwaith Morys Gethin, Lewys Daron, Siôn Ceri a Raff ap Robert' (Ph.D., Cymru [Aberystwyth], 1995), tt. RR: 45–6, 86.

⁷ Math 22.34–40, Marc 12.28–34, Luc 10.25–8.

⁸ J.E. Caerwyn Williams, 'Rhyddiaith Grefyddol Cymraeg Canol' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. G. Bowen (Llandysul, 1974), 388.

⁹ MWRL 69–70; gw. y modd y cyfeirir ati yn GBF 451–67.

¹⁰ GM lxxix; Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1962), 112–13.

¹¹ Cf., e.e., MWRL 66–9.

Eneit yn ogystal â'r gramadeg a'r cerddi a drafodwyd uchod, ond gwahanol yw barn golygyddion diweddar y testunau hyn ynglŷn â'u hawduriaeth.¹²

Y llawysgrifau

Oherwydd ei fod yn rhan o draddodiad testunol gramadeg y beirdd, y mae englyn proest Dafydd Ddu i'w gael mewn pedair llawysgrif ganoloesol—Peniarth 20, 'Llyfr Coch Hergest', Llanstephan 3 a Bangor 1—yn ogystal â chryn nifer o lawysgrifau sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg ac wedi hynny.¹³ Yn anffodus, ni ddigwydd yr un o'r ddau gywydd na'r awdl mewn unrhyw lawysgrif sy'n gynharach na thrydydd chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, er bod digonedd o gopiâu ohonynt, yn enwedig o'r cywydd 'O ddechreuad y byd hyd Grist', mewn llawysgrifau diweddarach na hynny. I ddyneiddwyr y Dadeni Dysg, felly, y mae'r diolch am ddiogelu'r rhan fwyaf o lawer o waith Dafydd Ddu inni. Y tebyg yw eu bod hwy'n dibynnu ar lawysgrifau cynharach sydd bellach wedi diflannu, er ei bod yn bosibl hefyd fod rhai fersiynau wedi'u codi'n uniongyrchol oddi ar lafar. Ac eithrio cywydd 'Y Deg Gorchymyn', ymddangosodd pob un o'r cerddi mewn print yn ystod y ganrif ddiwethaf neu hanner cyntaf y ganrif hon,¹⁴ ond prin y cawsant y sylw y maent yn eu haeddu hyd yma.

¹² GM lxxv–lxxx; *Ymborth yr Enaid*, gol. R.I. Daniel (Caerdydd, 1995), l–lv.

¹³ Gw. GP xiii–xvi, xlvii–lx, lle y rhoddir disgrifiad sydd hyd heddiw yn agos at fod yn gyflawn o'r llsgrau. y digwydd testunau o'r gramadeg ynddynt.

¹⁴ Gw. y cyfeiriadau a roddir ar ddechrau'r nodiadau ar bob cerdd.

Awdl sanctaidd am ddiwedd dyn a'i gorff

- Rhyfedd na phwyllwn, rhyfyg na ddaliwn,
 Peidiwn, na rwyfwn, er Ei fawr rinwedd.
 Gwae ddyn nad ystyr ydd â'n ehegyr,
 4 Cyn rhuthr tymyr, tomog faenfedd.
 Yr un dyn teca' o holl blant Adda,
 Aro ('fory y gwna nefol rinwedd!),
 A phob dyn felly, rhwng yr awyr fry
 8 A'r ddaear obry, wely waelwedd.
 Na wnaer ar unig na thrais na thremyg,
 Na wnäed neb ddig nac eiddigedd.
 Miloedd anghyfoed, fal yr oedd erioed,
 12 Pawb a gyrch yr oed i'r saith droedfedd.
 Milwr tŵr taerfor, fal y bu Hector,
 Nid eiddo rhagor yn ei orwedd
 (Rhywnaeth caeth cynnabl, rhyfyg anhrwyadl)
 16 Rhag rheidus distadl dostur fuchedd.
 Eurfab y brenin a Iarlles Erbin
 A fagwyd ar win flin flynyddedd
 Neu'r fun lun laesra fal y bu Efa,
 20 Fal dyma fal 'dd â yn y diwedd:
 Mewn pwll y'i dodir, mewn pridd y'i cuddir,
 A byth ni welir, ddyhir ddyhedd,
 Y corff afrifed mewn budr gaered
 24 Yn fwyd i bryfed heb ged gyd-wedd,
 Llyffaint braint brydnod a chynrhon diglod
 A phryfed hynod nod, a nadredd,
 Yn sach drewedig, yn sur dodededig,
 28 Yn swydd annelwig (dig dygn agwedd):
 Y pen a weled yn hoff ei dynged
 Yn benglog bridled ar bruddlawr bedd;
 A'r pryd gweddeiddliw a oedd wedduswiw,
 32 Cyd boed teg heddiw, hyddysg falchedd,
 'E fydd annelwig dan bridd a cherrig
 Heb na chroen na chig, dremyg drymwedd;
 Y llygaid glwysion yn dyllau crynion,
 36 Yn llawn o gynrhon, myn gwirionedd;
 Y genau gweddus a fu chwaraëus,

- A fu ryfygus, yn oer ei agwedd,
 Yn dwll mingamddu, yn ambell ei garu,
 40 Yn dyllgorn digddu, ddygn ddifroedd;
 A'r dannedd gwynion fal hen ebillion
 Yn esgryn llwydion budron bydredd;
 Yr hirion freichiau a'r heirdd esgeiriau
 44 Yn ffustiau gïau; gohagr budredd!
 Nid estyn erddaw na thraed na dwylaw
 Can gorfu arnaw braw breuoledd.
 Ni flasa'r genau, ni chlyw y clustiau,
 48 Ni wyl llygaid brau mewn cau cadfedd.
 Ni ddysg ffysg ffyniant na gwŷr â gwarant
 Nac aur nac ariant na meddiant medd.
 Yna y diflan y lwyswedd eirian
 52 I mewn pwll truan anghyfannedd.
 Archwn yt, Geli, er Dy bum weli,
 Er Dy ddaioni, Rhi gymyrredd,
 Er Dy ddrain goron, er Dy ddrud loesion
 56 A gwaed Dy galon, gymodlonedd,
 Drwy ddiwair eiriawl Mair wryrf ganmawl,
 Ysbrydawl hil hawl, brenhinawl wedd,
 Drwy eiriawl sawl saint, ohonun gymaint
 60 Yn eu bro a'u braint, am ein camwedd,
 Cyn cyrchu'r ddalfa, cwblfawr gymanfa;
 Ni thycia yna un gyfrwysedd,
 Ond herwydd y gwnaethant ac y gorugant
 64 Ac yr haeddasant, anfad chwant chwerwedd.
 Iôr yr uchelder! Mynydd Olifer!
 Nid drwy na symlder nac oferedd;
 Yna y diolchir ymadrodd cywir,
 68 Yna y dielir pob enwiredd.

Ffynonellau

A—LIGC 2002C [= Pant 33], 135 B—LIGC 3048D [= Mos 145], 17 C—
 LIGC 5274D, 19^v (llau. 1–12) D—Llst 119, 132 E—Pen 98 ii, 75 F—Pen
 111, 295 G—Pen 226, 21

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 CDG rhyfedh na dhaliwn. 3 CDG yr. 4 D tynyr; A tomod. 5 A deccaf,
 E teckaf; AE Addaf. 6 D ai ir ddayar yna; C foru gwna; AE gwnaf. 8 AD
 waeledd. 9 CDG wna; D ag. 10 B eddigeidd. 11 AF anghyoed, B anghoed,

CDG anghydoed. 12 *CG* o saith, *D* ar saith. 13 *E* taerfawr *gydag* o *uwchben* yr *ail* a; *E* *Ectawr* *gydag* o *uwchben* yr *a*. 15 *DG* er a wnaeth; *B* rhyfig avrwyadyl. 16 *BE–G* rhag y rheidus; *G* destun. 17 *AF* ac; *E* eurlin. 18 *A* fagawd. 19 *G* *Ne'r*, *D* a ir; *D* vn; *D* laesa; *E* y modd y bu. 20 *B* weldyna, *AF* wel dyma, *E* [Fal] dyma; *ABDFG* yr â, *E* yd â. 21 *D* []ewn pridd. 22 *D* []byth; *ABFG* dyhir dihedh. 23 *B* a fwried; *E* y mewn; *ABEF* garrec, *D* garred. 24 *D* a'n fwyd; *ABDFG* geidwedh. 27 *E* ddrewedig. 28 *D* swrth. 29 *E* hoff ei weled. 31 *D* [a] oedd; *B* weddvs win, *G* wedhusliw. 32 *D* bo; *A* deg; *AF* a hyddysc, *B* ei hyddysg. 33 *AB* ef a fydd. 35 *D* ar llygaid. 36 *ABG* myn y gwirionedd, *DE* mewn gwirionedd. 37 *D* ar; *B* gene; *A* chareus. 38 *D* a rhy; *B* rhyfygvs. 39 *DG* mingamu; *ABF* anybell ai, *D* heb neb iw, *E* [yn] ambell. 40 *AF* dwllgorn; *AF* difroedd, *B* difraedd, *D* ddyfrwedd, *G* dyfrvedh. 41 *BD* gwnion. 42 *A* budredd. 43 *D* ar hirion; *D* hardd; *B* ysgeirie. 44 *BF* ffustie gie, *G* Fustie giaeu; *DE* agwedd. 45 *ABDFG* erdho; *ABDFG* dwylo. 46 *D* cans gorfydd; *ABDFG* arno; *AB* braw brefoledd, *D* yno orwedd, *G* bro breuoledd. 47 *BG* vlasia'r. 48 *D* o gau geufedd. 49 *AB* na dysg; *ABE* garant, *D* na gwarant, *G* gwr na. 51 *D* *Ag* yno i taflan. 52 *ABF* [I] mewn, *D* ir du bwll, *E* yn y pwll. 54 *D* ath bur ddaioni; *AF* rhif rhwydd, *B* rhif rwydd, *D* rhif rhwyf, *E* *Rhi* rhwydd gymredd, *G* rhi rhwy (rhwyf). 56 *ABDE* er; *ABDF* kymydlonedd. 57 *AF* *Mair* wyrf, *B* mawr wyrf; *B* gannawl, *D* gywirawl, *G* wiriawl. 58 *D* yn ysbrydawl, *G* *Mair* sprytawl; *D* frenhinawl. 59 *ABDEF* kimaint. 60 *B* yn bro. 61 *B* cyn cyrchv ir, *D* yn cyrchu o'r, *E* yn cyrch ir, *G* yn cyrchu'r; *A* cymmanfa, *B* y gymanfa, *D* gymynfa. 62 *D* gyfrwyswedd. 63 *D* fal i gwnaethant, *E* herwydd gwnaethant. 64 *E* o chwant. 66 *BF* symdler, *DG* drwy vanylder. 67 *DG* yno; *D* diolchir *gyda* didolir *uwch ei ben*. 68 *DG* yno; *BD* anwiredd.

Teitl

B *Hên* gerdd, *C* *Cyffes* *Dafydd* *Ddu* athro, *DG* *Cyffes* dauydh dhu o hiradhuc Athro.

Olnod

ABEF *Davydd* ddv o hiradduc ai kant, *C* []fydd []u athro []egeingl [] hiraddug *Mae* ychwaneg, *D* *Dauid* ddu o hiraddug yr athro ai kant, *G* *Davydh* dhu Athro o Degeingl a hiradhuc.

Trefn y llinellau

Yn llawysgrif *B* y mae cymal olaf llinell 59 a chymal cyntaf llinell 60 wedi cyfnewid lle.

Awdl sanctaidd am ddiwedd dyn a'i gorff

- Y mae'n rhyfedd nad ydym yn ystyried, peidiwn â pharhau yn
 [ein] rhyfyg,
 Peidiwn, nac aflonyddwn, er mwyn Ei fawr rinwedd.
 Gwae ddyn nad ystyria yr â'n ebrwydd,
 4 Cyn [darfod] rhuthr y byd [hwn, i] fedd carreg bawlyd.
 Yr un dyn tecaf o blith holl blant Adda,
 A fydd yn dioddef (yfory y gweithreda rinwedd nefol!),
 A phob dyn felly, rhwng yr awyr uwchben
 8 A'r ddaear islaw, gyflwr gwael gwely [sef y bedd].
 Peidier â gwneuthur yn erbyn person unig na thrais na dirmyg,
 Peidied neb â gwneuthur [gweithred yn codi o] ddigofaint nac
 eiddigedd.
 Miloedd [o rai] o wahanol oedrannau, fel y bu erioed,
 12 Fe fydd pawb [ohonynt] yn mynd i'r apwyntiad yn y [bedd o]
 saith troedfedd.
 Milwr tŵr [yn wynebu] môr gwyllt, fel y bu Hector,
 Ni chaiff ragor [o hyd] yn ei orwedd
 (Fe wnaeth [y] slaf achos cyfreithiol, [canlyniad] balchder salw)
 16 Na[’r] person anghenus isel ei stad [ac iddo] ffordd o fyw
 druenus.
 Mab anrhydeddus y brenin ac Iarlles Erbin
 A fagwyd ar win [am] flynyddoedd blin
 Neu'r ferch ifanc [a'i] chorff [yn gwisgo] ffwr llaes fel y bu Efa,
 20 Dyma fel yr â [hi] yn y diwedd:
 Mewn pwll y dodir [hi], â phridd y cuddir [hi],
 Ac ni welir fyth, [dyna] aflonyddwch blin,
 Y corff llawn gormodedd mewn lle caeedig budr
 24 Yn fwyd i bryfed, heb [un] fendith deilwng,
 Llyffaint o wedd ffurf hynod a chynrhon iselwael
 Ac ymlusgiaid o ymddangosiad eithriadol, a nadroedd,
 Mewn sach ddrewllyd, yn chwerw bydredig,
 28 Mewn swydd aneglur (trallodus yw[’r] cyflwr gresynus):
 Y pen a welwyd yn ganmoledig ei nod
 [Bellach] yn benglog briddlyd ar waelod trist bedd;
 A'r ffurf hyfryd ei liw a oedd yn hardd a gweddus,
 32 Er ei fod heddiw yn deg [ac o] falchder gwybyddus iawn,
 Fe fydd yn afluniaidd dan bridd a cherrig
 Heb na chroen na chnawd, o wedd athrist ddirmygus;
 Y llygaid tirion yn dyllau crwn,
 36 Yn llawn o gynrhon, myn [y] gwir;
 Y genau gweddus a fu'n chwareus,

- [Ac] a fu'n rhyfygus, yn drist ei ffurf,
 Yn dwll mingam a du, yn annhebygol [o gael] ei garu,
 40 Yn bibell dyllog boenus a thywyll, unigrwydd gresynus;
 A'r dannedd gwynion fel hen ebillion
 Yn esgyrn gwelw o bydredd budr;
 Y breichiau hirion a'r coesau heirdd
 44 Yn ffustiau [wedi'u cysylltu â] gïau; hyll iawn yw[r] budreddi!
 Nid yw na thraed na dwylo yn estyn er ei fwyn
 Oherwydd gorchfygwyd ef [gan] arswyd darfodedigrwydd.
 Nid yw'r genau'n blasu, nid yw'r clustiau'n clywed,
 48 Nid yw[r] llygaid pwdr yn gweld yng ngheudod [y] bedd
 nerthol.
 Nid yw'n elwa o brofi prysurdeb llwyddiant na gwŷr o
 awdurdod
 Na [gwŷr ag] aur neu arian neu ddarpariaeth o fedd.
 Yna y diflanna'r olwg luniaidd a hardd [oedd arno]
 52 Mewn pydew truenus didrigfan.
 Deisyfwn arnat, Arglwydd, er mwyn Dy bum clwyf,
 Er mwyn Dy ddaioni, [Un y mae iddo] urddas Brenin,
 Er mwyn Dy goron ddrain, er mwyn Dy boenau gwerthfawr
 56 A gwaed Dy galon, gymod,
 Drwy eiriolaeth bur Mair wryf ganmoledig,
 [Ac iddi] hawl ysbrydol ar [yr] hil, [o] ymddangosiad brenhinol,
 Drwy eiriolaeth [yr] holl saint, cynifer ohonynt
 60 Yn eu bro ac yn eu hawlfraint, oherwydd ein pechod,
 Cyn [gorfod] mynd i'r carchardy, [y] cynulliad mawr cyfan;
 Ni fydd yn tycio yno unrhyw ddichell,
 Ond [digwydd iddynt] yn ôl fel y gwnaethant ac y
 gweithredasant
 64 Ac yr haeddasant, [sef] chwerwedd blys drygionus.
 Arglwydd yr uchelder! Mynydd yr Olewydd!
 Nid mewn na gwiriondeb na gwagedd;
 Yna y bydd diolch am [bob] ymadrodd cywir,
 68 Yna y bydd dial am bob anghyfiawnder.

Cywydd o ddechrau'r byd hyd Grist

Di-gam y gwnaeth Duw, o'i gymwyll,
 Dechrau'r byd, diochr Ei bwyll.
 Pob rhyw beth, ddifeth ofeg,
 4 A greodd Duw mewn gradd deg.
 Angylion oll, yng ngŵyl Naf,
 Dawn gynt, a wnaeth Duw yn gyntaf;
 Ar Ddywsul, yn rhodd oesoedd,
 8 Y gwnaeth hwynt, a gwyniaith oedd.
 Dyw Llun y gwnaeth Duw llywydd
 Yr haul deg er *rhwylio* dydd
 Ac awyr diargywoedd
 12 A'r sêr oll: wi o'r saer oedd!
 Dywmawrth, gorau dadameg,
 Y gwnaeth y Tad *gwyniaith* teg:
 Y moroedd gynt, mur oedd gall,
 16 A'r tiredd o'r tu arall.
 Dyw Merchyr, myfyr fu'r Mab,
 Diarbed y gwnaeth Duw eurbab
 Pysgod i ddyfod i ddyn,
 20 Pawb i dir, pob ederyn.
 Difiau y gwnaeth Duw ofydd
 Yr holl 'nifeiliaid yn rhydd,
 Drud arfaeth daear derfyn,
 24 A'i droi'n dda i druan ddyn.
 Dyw Gwener, yn deg uniawn,
 Adda a wnaeth, addwyn iawn;
 Ef a dynnawdd fy nawdd Naf,
 28 Iesin oedd, asen Addaf
 I wneuthur â'i loywbur law,
 Gorau y gwyddiad, gwraig iddaw.
 Dyw Sadwrn, cyn ymwrn cawdd,
 32 Buan deg y bendigawdd
 Pob rhyw ddim (Pab rhiaidd oedd,
 Gwynieithydd) ag a wnaethoedd.
 Dyw Sul y bu dewis hawdd,
 36 Gwawr physyg, y gorffwysawdd
 A gosod pob negesydd
 O'i giwdod Ef i gadw dydd.

- 40 Ac Adda, Duw a'i gwyddiad,
 Ac Efa deg, o gof Dad,
 O fewn y gaer ni fyn gawdd,
 Paradwys y'u priodawdd.
 44 Ni buont hwy o bwynt iach
 Yn huodl yno haeach:
 Efa a wnaeth o fewn awr
 A'i dial cyn pen dwyawr.
 48 Prin y dug o'r pren degwm
 Afal, troes yn ofal trwm,
 A thrwy som uthr *osymaith*
 Angel Duw yng ngolau daith
 A'u gyrodd hwy o'u gradd hon,
 52 Lên abrwys', i Lyn Ebron;
 Ac Addaf, gyntaf wy gawdd,
 Â'i law fawr a lafuriaudd
 A'i gaib lem, o'i gwbl amwyll:
 56 Eddyl tost i ddial twyll!
 Deuddeng mlynedd, diwedd dall,
 Ar hugain, ni bu rhygall,
 A naw cant, moliant milwr,
 60 Befr ei gorff, y bu fyw'r gŵr.
 A chwedy bradychu brad,
 Marw Adda: mawr a wyddiad.
 Bu yn uffern, fignwern fodd,
 64 Bedeirmil, bywyd ormodd,
 A chwechant, cyn tyfiant hedd,
 Flin Adda, o flynyddedd,
 A phedair (och na pheidiwn!)
 68 Blynedd hir fu orwedd hwn.

 Ys daeth Grist, a'th iawngar oedd,
 Dan ras, i dynnu'r oesoedd
 (Da fu'r Mab, difai yw'r modd,
 72 Dawn disgybl, da y'n dysgodd)
 A chymryd, ddiwyd ddeuir,
 Geniad i'i fam, gnawd o Fair;
 A chwedy, gwely gwiwlun,
 76 Geni o Fair, gwn wiw fun,
 Gwirion oedd, gwarae a wnaeth
 Y bêl yn ei fabolaeth,
 Hyd pan aeth, hiraeth herwr,
 80 Awdr ein gwaith, yn oedran gŵr.

- Deuddeng mlynedd, arwedd iôr,
 Ar hugain, a pheth rhagor,
 Y bu'r Gŵr byw a garwn,
 84 Bywyd teg, yn y byd hwn.
 Disgyblion fu'r dynion da
 Ar unwaith i wŷr Anna.
 Diddig y gwnaethoedd dioddef,
 88 Duw'n Ei gnawd a'n dug i nef
 Mal y dengys, mold unGair,
 Delw'r grog, da liw ar grair:
 Y byd a fu, bid o fodd,
 92 Ar y pren dir y'i prynodd.
 Na fid dyn rhy ynfyd hwyl,
 Gwaed orchwy, gwedi'i orchwyl:
 Ni phryn nef Grist, didrist daith,
 96 Gwaed rinwedd, gwedi'r unwaith,
 Ac nid oes, gwedi'i foes Fo,
 Mab brenin mwy a'i pryno.

Ffynonellau

A¹—Bangor (Mos) 6, 1^r A²—Bangor (Mos) 6, 17^r A³—Bangor (Mos) 6, 64^r B—BL Add 14866 [= RWM 29], 10^v C—BL Add 14876, 28^r D—BL Add 14880 [= RWM 36], 26^r E—BL Add 14900, 124^r F—BL Add 14906 [= RWM 45], 35^v G—BL Add 14940, 93^r H—BL Add 14964, 34^r I—BL Add 14966, 17^r J—BL Add 14973, 32^v K—BL Add 14979, 38^r L—BL Add 14984, 179^r M—BL Add 14986, 90^r N—BL Add 15007, 5^v O—BL Add 31058, 14^r P—BL Add 31062, 5^v Q—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 221 R—Card 2.13 [= RWM 34], 41 S—Card 2.40 [= RWM 26], 481 T—Card 2.68 [= RWM 19], ii, 1 U—Card 2.114 [= RWM 7], 460 V—Card 4.10 [= RWM 84], ii, 979 W—Card 5.10 [= RWM 48], i, 72 X—Card 5.44, 22^v Y—Card 5.167, 7^r Z—CM 3, 2^v a—CM 10, 1 b—CM 114, 332 c—CM 552, 169 d—J 137 [= RWM 12], 146 e—J.R. Hughes 5, 122 f—LIGC 435B, 36^r g—LIGC 436B, 34^v h—LIGC 970E, 41 i—LIGC 1246D, 445 j—LIGC 1979B [= Pant 10], 43 k—LIGC 2691D, 65 l—LIGC 3037B [= Mos 129], 107 m—LIGC 3038B [= Mos 130], 283 n—LIGC 3040B [= Mos 132], 80 o—LIGC 4710B, 261 p—LIGC 6681B, 397 q—LIGC 6735B, 57^v r—LIGC 10748D, 18 s—LIGC 11087B, 100^v t—LIGC 11816B, 73^v u—LIGC 12873D, 23^r v—LIGC 13061B, 138^v w—LIGC 13068B, 13^v x—LIGC 13071B, 30 y—LIGC 13072B, 43 z—LIGC 13081B, 90^v A—LIGC 13167B, 155 B—LIGC 13168A, 52 C—LIGC 13178B, 27^v D—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 263 e¹—LIGC 21700D, 25^r e²—LIGC 21700D, 181^r F—LIGC Mân Adnau 1206B, 917 G—Llst 47, 114 H—Llst 52, 36 I—Llst 118, 285 J—Llst 133, 307^r K—Llst

134, 30^r \mathbb{L} —Pen 93, 213 \mathbb{M} —Pen 112, 661 \mathbb{N} —Pen 119, 125 \mathbb{O} —Pen 198, 240 \mathbb{P} —Pen 239, 148

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

Gan fod y gerdd yn digwydd mewn cynifer o lawysgrifau codwyd yr amrywiadau fesul llinell er hwylustod i'r darllenydd. Pan fo darlleniad mewn cromfachau y mae'n amrywiad ar brif ddarlleniad y llawysgrif; a phan fo'r llythyren sy'n cynrychioli'r llawysgrif yn digwydd mewn cromfachau, y mae'n dangos bod y darlleniad a nodir yn amrywiad ar brif ddarlleniad y llawysgrif honno. Dylid nodi hefyd fod bylchau yn y testun yn achos llawysgrifau A^3 , n , \mathbb{E}^2 .

1 $A^1A^2DEI-LQSTVWXZa-j(p)suvwx\mathbb{C}\mathbb{G}\mathbb{T}\mathbb{I}\mathbb{J}\mathbb{K}\mathbb{L}\mathbb{N}$ Digam i gwnaeth duw gymwyll; $BCFGHOPpt\mathbb{M}$ Di gam yw Duw ai gymwyll gyda Digam i gwnaeth dwv gymwyll yn amrywiad pellach yn p a Di gam y gwnaeth Duw ai gymwyll yn amrywiad pellach yn P ; M di am ygnaeth duw gmwyll; N Digam yv Dyv oi gymwyll; $(P)l$ digam y gwnaeth duw ai gymwyll; R digain y gwnaeth Duw gynwyll; U Digamwedd gwnaeth duw gymwyll; $YE^1(\mathbb{P})$ Digamm gwnaeth duw oi gymwyll; k []w Duw ai gymmwyll; m Digam fi duw gymwyll; n Di gam y gwaeth duw gymwyll; $o\mathbb{A}$ Dygam A wnaeth Duw gymwyll; $r\mathbb{O}\mathbb{P}$ Di gam fydd duw i gymwyll gyda gwnaeth yn amrywiad ar fydd ac o'i yn amrywiad ar i yn \mathbb{P} ; y Digam y gwaeth dŷ gymwyll; z Di gan jgwnaeth duw gynwll; \mathbb{B} Digam ygwnaeth duw gynwyll; \mathbb{F} Digam fydd Duw ei gymwyll; l Digam i ddŵ i gymwyll; [$A^3\mathbb{E}^2$].

2 $A^1ITadiy(\mathbb{J})$ dechrav byd di ochr o bwyll; A^2 dechrav/r/ byd di ochr o bwyll; CGH Dechre byd diochre bwyll; $DMNQmou$ dechray byd di ochr o bwyll; E dechre r byd diocher bwyll; F dechre y byd diochre bwyll; $JW\mathbb{T}\mathbb{I}$ dechrav byd diochor o bwyll; Ks ddechrav r byd ddiochyr bwyll; L dechrau byd diochyr bwyll; O dechrer byd diochyr bwyll; $Rz\mathbb{B}$ ddechrayr byd ddiochor y bwyll; $Sf(\mathbb{J})\mathbb{L}$ dechre byd diochr i bwyll; UVZ Dechrau'r byt diochor bwyll; $Xehrvx\mathbb{C}\mathbb{F}\mathbb{G}\mathbb{R}\mathbb{O}\mathbb{P}$ dechrav byd diochri bwyll; $Y\mathbb{D}$ dechre byd diochri i bwyll; b dechre y byd diochor bwyll; c Dechre yr byd diochr bwyll; gj dechre/r/ byd diochr bwyll; l dechre byd kyn diochri bwyll; n Dechre byd diochyr o bwyll; p ddechre/r/ byd ddiochri i bwyll; q dechre r byd diodyr ei bwyll; w dechrav byd diochr oi bwyll; \mathbb{A} Ddechre Bud, Ddiochor Bwyll; \mathbb{E}^1 dechre bŷd diochwerw bwŷll; l a dechrav/r/ byd diochr bwyll; \mathbb{N} dechrav y byd diochr bwyll; [$A^3\mathbb{E}^2$].

3 $A^1A^2IJQTWabdiuz\mathbb{B}\mathbb{T}\mathbb{I}$ pob peth drwy ddifeth ofeg; $CFGH$ a ffob peth ddifeth ofeg; E a ffob peth ddifeth ofeg; Ks A phob peth drwy ddifeth ofeg;

M(*J*) pob peth trwy ddiveth oveg; *R* pob peth drwy ddiffeth ofeg; *UZjo*(*A*) Pop peth yn ddiveth oveg; *V* a phob peth difeth ofeg; *YD*¹ pob rryw beth hyveth oveg; *cx* pob Ryw beth diveth oveg; *h* pob ryw beth ddiveth oveg; *n* pob rrvw beth defeth oveg; *y* Pob peth drwy difeth ofeg; [*A*³*E*²].

4 *M* areawdd duw mywn gradd deg; *N* a greawdd Duw gwiwradd Deg; *SR* a greawdd mewn gradd deg; *W* a yrodd Duw, mewn gradd deg; *y* Y Greodd Dyw mewn gradd deg; [*A*³*E*²].

5 *A*²*IO*(*T*)*Wai*(*l*)*ru*¹(*J*)*o* yngylion oll ynglwn naf; *B* Angylion oll yn-glan naf; *CFGHP*(*p*)^M yngylion oll ynglan naf *gydag* yng wyl *yn amrywiad ar* yng glan *yn P a chyda'r ll. yn amrywiad ar l. y testun yn p*; *E* yngylion nef ynglunn naf; *JT*^d*fl* yngylion oedd ynglynn naf *gydag* oll *yn amrywiad ar* oedd *yn T*; *KU**ks* yngylion nef ynglan naf; *LMZc*(*g*)*jnoy*(*A*) Angelion nef yngwyl Naf; *N* Engylion oll ynglan iaf; (*P*)*gl* yngylion oll ynwyl naf *gydag* ynglin *yn amrywiad ar* ynwyl *yn l*; *Qb* Angylion Nef yngwyl iaf; *Y* Angylion oll yngwyll naf; *F* Angylion ôll ynglyw naf; *l* angylion oll fynglan naf; *N* angylion nêr yngwyl naf; [*A*³*E*²].

6 *A*¹*A*²*ERSZdj*¹*M* Gynt a wnaeth Duw'n gyntaf; *BCDF-KMPQT-Xabefhiknopqs-z*(*A*¹*CG*¹*l*)*K*¹*l*^N gynt awnaeth duw yn gyntaf; *E* gynt a wnaeth Duw yn gynta; *L* ynt a wnaeth duw yn gyntaf; *O* gynt awnaeth dw y gyntaf; *cg* gynt a wnaeth duw gyntaf; *m* Gynt a wnaeth duw'n gynta; *B* Gynt ywneth duw yn gyntaf; *o* Dawn gynt wnaeth Duw yn gyntaf; *β* dawn gynt a wnaeth duw'n gyntaf; [*A*³*E*²].

7 *A*¹*A*²*C-HKLM*(*P*)*QTbce-jmn*(*p*)*tv*(*A*¹*l*)^N ar ddywsyl arwydd oysoedd *gydag* iraidd *yn amrywiad ar* Arwydd *yn T*; *BPkM* ar dduw sul yr Urddassoedd *gydag* arwydd oesoedd *yn amrywiad ar* yr urddasoedd *yn P*; *IJ*(*T*)*Uad*¹(*J*) ar dduwsvl iraidd oessoedd; *N* ar dduwsvl a'i urddas oedd; *O* ar dwsvl ervrddasoedd; *R* Ar dduw syl deddef oefoedd; *S* Arwydd Sül arwydd oes oedd; *VWosu* Ar ddydd sül arwydd oesoedd; *XxCG* ar ddüw sül arwydd oes oedd; *Z* Ar ddüwsül afraidd oesoedd; *l* ar dduwssul y roedd oessoedd; *p*¹ Ar dduwsvl i'r oedd oesoedd *gydag* arwydd *yn amrywiad ar* ir oedd *yn p*; *q* ar ddydd Sul iroedd oesoedd; *r* ar Dduwsvl a rhodd oesoedd; *u* ar Ddydd Sul arwydd oesoedd; *w* ar dduw svl yr vrddas oedd; *zβ* Ar dduw syl deddef oesoedd; *D*¹*o*¹*o*¹ ar dduwsvl y rrodd oessoedd; *F* Ar ddyddsül y rhôdd oesodd; *l* ar ddüwsül a vrddasoedd; *K* arwydd sül arwydd oes oedd; *l* Ar dduwsvl ir oedd oesoedd; [*A*³*yE*²].

8 *A*¹*A*²*CG-KQTWabdiu*¹(*J*) y gwnaeth hwynt ag vn Iaith oedd; *BPkM* a wnaeth ef, i iawn waith oedd *gydag* A wnaeth hwynt a gwniaith oedd *yn amrywiad yn P*; *Dt* i gwnaith hwynt a gwniaith oedd; *E* i gwnaeth hwynt ag

ini aeth oedd; *F* i gwnaeth hwnt ag vn iaith oedd; *LJ* y gwnaeth hwynt a gwiniath oedd; *M* ygnaeth hwynt ac weinaith oedd; *N* y gwnayth ef hwnt ag un iaith oedd; *O* y gwaith hwynt a gwnwaith oedd; *R*β y gwnaeth e hwynt ay gwniath oedd; *SXhvxCGK* j gwnaethant y gwenithoedd; *U* i gwnaeth hwynt gwniath oedd; *V* ei gwnaeth hwynt ag vn iaith oedd; *YrDFL0P* y gwnaeth hwynt a gwyn waith oedd; *Zcg* I gwnaeth hwynt gwyniaith oedd; *e* y gwnaethont y gwenithoedd; *f* (J) i gwnaeth hwynt gwenithaidd oedd; *l* y gwnaeth ef a gweniaith oedd *gyda* gwnwaith *yn amrywiad ar* gweniaith; *n* y gwniath hwynt gwyniaeth oedd; *o* y Gwnaeth Nhwy, Gwynn waith oedd; *p* i gwnaeth hwynt a gwnwaith oedd; *s* I gwnaeth oleu ag unjaith oedd; *w* i gwnaeth ef y gwyn ieithoedd; *z* y gwnaeth ef hwynt ay gwniath oedd; ¶ *Y* Gwnaeth Hwyl, gwniath oedd; *E*¹ y gwnaeth hwŷnt ag ŷn waith oedd; *l* i gwnaeth ef gain i iaith oedd; *N* y gwnaeth hwynt ag iownwaith oedd; [*A*³*yE*²].

9 *A*¹*A*²*GIRTagi*β Duw llŷn y gwnaeth down llywydd; *CH* duw llun y gwnaeth duw'r llowydd; *Ddflwv* dw llvn y gwnaeth dw llonydd *gyda* llywydd *y testun yn amrywiad ar* llonydd *yn* J; *Lbcz* Duw llun i gwnaeth duw yn llowydd; *M* dyw llyn ygnaeth dŵ yn llonydd; *O* dwllvn i gwnaeth dw lowydd; *Pjm* duw llun y gwnaeth Duw llywydd; *QsXfvcGK*l dŵ llvn i gwnaeth dŵ n llonydd; *Vsf* Dydd llŷn i gwnaeth duw llowydd; *W* Ddydd llun i gwnaeth Duw n llowydd; *Z* Dŵ llŷn y gwnaeth llonydd; *e* dŵ llŷn gwnaeth dŵ yn llonydd *gyda* dydd *yn amrywiad ar* dŵ; *k* Dy' llŷn y gwnaeth Duw Llywydd; *n* ddwllvn gwnaeth dw llowydd; *o* Dudd llŷn, y Gwnaeth Dŵ yn llonudd; *q* dydd llun i gwnaeth dŵ yn llowydd; *u* Dydd llun i gwnaeth Duw n llowydd; *y* dyw llŷn y Gwnaeth dŵ y llonydd; ¶ Duwllŷn, y gwnaeth, Duw yn llonydd; [*A*³].

10 *A*¹*A*²*IKTVW* yr haul deg er rheoli dydd; *BDEFMOPSUVXYZefh jknptvxyzC*ḂG|–N Yr Haül dec er hwyliaw dydd *gyda* rheoli *yn amrywiad ar* hwyliaw *yn* V; *CGHE*¹ yr haevl teg er hwŷliaw dŷdd; *JdH* yr haul deg er rholi dydd; *L* yr haul deg er hwyliaw yr dydd; *Ngqw*^F yr haul dec er hwyliaw/*r*/ dydd; *QRb* yr haul deg ar hwyliaw dydd; *R*β yr haul deg ar hwyliawr dydd; *a* Yr Haul tēg er rheoliad dŷdd; *c* yr haul deg er hwylio yr dydd; *i* 'r Haul dēg er rheoli dydd; *l* yr haul dec er hiwlio dydd; *m* yr Haul deg er rheoli'r dydd; *o* Yr Haul Yn Deg I Hwyliaw Dŷdd; *r*Ḃ yr haul deg i hwyliaw *r* dydd *gydag* er *yn amrywiad ar* *i yn* Ḃ; *s* Yr wybren fawr lēn a fydd; *u* yr haul deg er rheol dydd; ¶ Yr Haul, yn Deg, y Hwyliaw Dydd; *E*² yr haül deg ir llvnio dydd; *O* Yr haül deg i hwyliaw/*r*/ dydd; [*A*³].

11 *A*¹ Ag awyr gav ar gwoedd; *A*²*Td* ag awyr gav ar gwoedd; *BPk(p)w* ac awyr loyw argywoedd; *CFGH* ar wybyr oll ar gwoedd; *D* ar wybr fry gloyw argywoedd; *EV* ar wybwr loyw ar gwoedd *gydag* Ag Awyr Loer *yn amrywiad*

ar Ar wybyr loyw yn *V*; *F* ar wybyr oll ar goydd; *I* Ag awyr gav ar gowoedd; *J*†(j) ar awyr gav ar gowedd; *Km* ar wybr gloyw ar gyoedd *gydag* Ar awyr gau argowedd yn *amrywiad* yn *J*; *L* Ar wybyr loyw ar gowoedd; *M* yr wybyr gloyw ar gyoedd; *N* ag awyr loer argwoedd; *O* agawyr ar lloyr gyhoedd; *Q* ar wybyr gloyw ar gyfoedd; *RyB* Ar wybyr gloyw ar glyoedd; *SVXZehjvxCGK* Ac awyr gloyw ar gyoedd *gydag* wybr yn *amrywiad* ar awyr yn *Z*; *U* ar awyr gloyw ar gyfoedd; *Wu* Ac awyr gau ar gwoedd; *Z* Ac wybr gloyw ar gyoedd; *a* Ag Awyr gau a'r guoedd; *b* ar awyr gloyw ar gyoedd; *i* Ar Awyr gau ar guoedd; *l* ac awyr ddiar gyoedd; *n* ag awyr loer ar gyoedd; *o*† Ar wybur Gloyw, Argloedd; *p* Ag awyr a llevad gyoedd *gyda* loyw argowoedd yn *amrywiad* ar a llevad gyoedd; *q* ar awyr loiw ar gyoedd; *r*†*p* ag awr diargowedd *gyda* di argywoedd yn *amrywiad* ar di argowedd yn *p*; *s* Yr haul gloyw ar gyhoedd; *t* yr wybyr gloyw argowoedd; *z* ar awyr glovw ar glyoedd; *e*² ag awyr loer ar gyoedd; *l* Ag wybyr loyw argowoedd; *l*_o ag awyr loiw ar gyoedd; *M* Ar awyr loyw argowood; [*A*³*cfgn*].

u

12 *A*¹*DUjrFOp* ar ser oll ys da saer oedd *gyda* wi o'r yn *amrywiad* ar ys da yn *p*; *A*²*IJTWadiu†(j)* ar ser oll orav saer oedd; *BCE-HKLMOPQV(Z)* *bko(p)sy†e¹e²lM* A'r ser oll gorau saer oedd *gyda* da yn *amrywiad* ar gorau yn *p* ac oreu yn *amrywiad* ar goreu yn *J*; *N* ar syr oll gore sayur oedd; *RzB* Ar ser oll goray siwrni oedd; *SXvxCGK* a ser oll os da saer oedd; *Z* A'r ser oll gwiw o saer oedd *gyda* gorau yn *amrywiad* ar gwiw o; *e* a ser oll ys da saer oedd; *h* a ser oll or da saer oedd; *l* ar ser oll wiw wr saer oedd; *m* Ar ser oll wiw saer oedd; *nw* a ser oll gorav saer oedd; *p* ar ser oll ior saer oedd *gyda* gore yn *amrywiad* ar ior; *q* a ser oll da saer oedd; *l*_o ar sêr oll os da saer oedd; [*A*³*cfgn*].

13 *A*¹*t* Duw Mawrth gorau fū r Dameg; *A*²*ITai* dw mawrth gorav ywr dameg; *BPkplM* Duwmawrth goreuddydd Dameg; *DQcegvxyGKl_o* A duwmawrth gorav dameg; *Jd†(j)* Dvw-mawrth gorav yw dameg; *K†* dūwmawrth gorey y dameg; *L* Diw marth gorau a dameg; *Mw* dūw mawrth orey dameg; *O* dvmawrth ore y dameg; *RYbrzB†e¹e²p* Duwmawrth gorav damec; *SX* a dūw mawrth gorav dameg; *V* Dydd Mawrth gore yr dameg; *W* Dydd Mawrth, gorau yw'r dameg; *Zj* A dywmawrth da vu'r damec; *f* a duwmorth ore dameg; *h* a dūw mawr gorav dameg; *l* duwmorth y gorav damec; *m* Duw-mawrth gore fi'r dammeg; *n* diwmawrth y tad gwn iaith teg; *os* Dydd mawrth goreu y dameg; *q†* a dydd mawrth gorau dammeg; *u* Dydd Mawrth gorau yw r ddameg; *C* a dūw mawrth gorai dameg; *J* Duw mawrth goreu ar dammeg *gydag* yw yn *amrywiad* ar ar; *N* dvmawrth mawr oedd y dameg; [*A*³].

14 A^1QM i gwnaeth y Tad gwn iaith teg; $A^2IJL(P)TU(V)WZad(g)ijyz\{A\}$ i gwnaeth y Tad gwnniaith tec; $BPK(p)l$ i gwnaeth y tad gan iaith teg *gyda* gwnniaith *yn amrywiad ar* gan iaith *yn P*; CGH Y gwnaeth y Tad gweniath teg; D y gwnaeth y tad gwnniaith deg; E i gwnaeth y tad gwennineth teg; $FSXhvwxC\{E\}GR$ i gwnaeth y tad gwenniath teg *gyda* gwahaniaeth *yn amrywiad ar* gwenniath *yn F*; KVs y gwnaeth y tad gwiw iaith teg *gyda* gwn *yn amrywiad ar* gwiw *yn V*; M y gwnaeth y dad gwneith tec; N i gwnaeth y tad gwrthay teg; O y gwnaeth y tad iownwaith teg; $R\{B\}$ y gwnaeth y tad gwnniaith teg; $Ym\{D\}(P)$ J gwnaeth y tad gwenith tec; b y gwnaeth gwn iaith deg; c y gwnaeth y Tad gamwaith deg *gyda* gemwaith *yn amrywiad ar* gamwaith; e y gwnaeth tud gwenniath teg; $f\{E\}^2$ i gwnaeth y tad gwnwaith teg; g y gwnaeth y tad gamwaith teg (y gwnaeth y tad gwnniaith teg); $lr\{F\}O\{P\}$ y gwnaeth y tad y gwaith tec *gyda* gwenith *a* geinwaith *yn amrywiadau ar* y gwaith *yn P*; n diwmawrth y tad gwn iaith teg; $ol\{B\}$ i gwnaeth y tad gwn waith teg; p y gwnaeth y tad gwmwaith teg *gyda* gan iaith *yn amrywiad ar* gwmwaith; q i gwnaeth y tad gwyniaith tec; t y gwnayth yn tad gwnniaith tec; u i gwnaeth y tad gwaith teg; J Y gwnaeth Tad y ginaeth *gyda* gwnniaith *a* gwnwaith *yn amrywiadau ar* ginaeth; $\{N\}(P)$ y gwnaeth y tad geinwaith teg; $[A^3]$.

15 $A^1A^2IJTdi\{H\}$ moroedd a gwynt mawredd gall; $BNknrtw\{F\}lM\{O\}P$ y moroedd gynt muroedd gall; $CFGH$ y moroedd gyoedd ar gall; $D(P)$ moroedd gynt amryw arall; E y moroedd ar gvoedd gall; $KLMVos\{A\}N$ y moroedd yn gyoedd gall *gyda* cau myroedd call *yn amrywiad ar* gynt mur oedd gall *yn V ac* y Moroedd a gwynt mawredd gall *yn amrywiad ar* y ll. *gyfan yn V*; O Y moroydd gynt mair oydd gall; P Y moroedd gynt, mur oedd gall *gydag* amryw arall *yn amrywiad ar* mur oedd gall; Qb Y Moroedd yn gyfoedd gall; R y moroedd ygyrodd yn gall; $SXehvx\{C\}GR$ moroedd i gyd mvroedd gall *gyda* mawroedd *yn amrywiad ar* müroedd *yn x*; U moroedd a gwynt mvroedd gall; $(V)fgq(l)\{L\}$ y moroedd kav mvroedd kall *gydag* yn gyhoedd gall *yn amrywiad ar* cau muroedd call *yn g*; W moredd a gwynt, mowredd goedd; Z y moroedd gynt myredd gall *gydag* yn gyoedd *yn amrywiad ar* gynt myredd; a Moroedd, Gwynt, Mawredd gall; c y moroedd cau mur oedd call; lm y moroedd gynt mowredd gall; p y moroedd kynt ar mvroedd kall *gyda* gynt *yn amrywiad ar* kynt *a* gall *yn amrywiad ar* kall; u moroedd a gwynt, mowredd goedd; y Y moroedd y gyoedd gall; z ymoroedd y gurodd yn gall; $\{B\}$ ymoroedd y gyrodd yn gall; $\{E\}^1$ y moroedd gÿnt mÿr oedd gall; $\{E\}^2$ y moroedd kau myroedd kall; J Y moroedd ar gyfoedd gall (Y moroedd cau muroedd call; Y moroedd a gwynt mawredd gall); $[A^3]$.

16 $A^1A^2B-VXYa-sv-P$ ar tiroedd o'r tv arall; W or tu arall, ar tiroedd; n ar tiroedd ar tu arall; s Ar tiroedd y tu arall; u ar tu arall ar tiroedd; $[A^3]$.

17 $A^1A^2OSTXaefhixCGR$ düw mercher myver vyr mab; $DEFIKNRdprt\mathcal{D}E^2\mathcal{O}$ dw mercher myfyr fvr mab *gyda* merchur *yn amrywiad ar* mercher *yn* \mathcal{D} ; G Duw Mercher myfir fy'r Mab; JL Dvw mercher myfyr fv yr mab; $Vq\mathcal{F}$ Dydd-mercher myfür fu'r mâb; Wou Dûdd Mercher, Nifer Fûr Mâb; m Duw-merchyr myfyr mab; s Dydd mercher myfir yw'r mab; v dydd mercher myver vy r mâb; \mathcal{A} Duw Mercher Mifer Fÿr Mâb; \mathcal{H} Dvw mercher myfyr fv yr mab; [A^3].

18 $A^2BJNPTWYdfiuw\mathcal{D}E^1\mathcal{H}I\mathcal{J}M\mathcal{N}$ di arbed gwnaeth duw evr bab; D di arbed gwnaeth düw wir bab; E diareb i gwnaeth duw evrbab; G Diarbed y gwnaeth Duw eur Bob; I diarbed gwnaeth Dvw evrdab; R diarbed y gwnaeth duw ayrbed; U diareb i gwnaeth duw arab; n diarbed y gwneth dwv arbab; o Diareb gwaith, Dûw Aurab; p diarbod i gwnaeth dwv evrbab *gyda* diarbed *yn amrywiad ar* diarbod; q di arbed ei gwnaeth duw eurfab; \mathcal{A} Diarbed, gwaith Duw Ayrhab; \mathcal{O} Diarbeb i gwnaeth Duw evrdab; [A^3].

19 D pysgod i ddyfod y ddyn; $LQRbo\mathcal{A}\mathcal{B}$ y pysgod yddyfod yddyn; M pyscod yn dyvod yr dyn; V Pysgod ei ddyfod i ddyn; c pysgod i ddyfod ei ddyn; m y pyscod yn dyfod ir dyn; q pyscod i ddyfod ei dyn; \mathcal{F} byscod i ddyfod i ddym; [A^3].

20 e pawb y dir pab aderyn; u pawb i dir pob adery; $o\mathcal{A}$ Bâwb Ar Dir Pôb Ederun; [A^3].

21 A^2 Difiaw gwnaeth dwv ddofydd; $BJPUDkpt\mathcal{H}(\mathcal{J})M\mathcal{N}$ Difiav i gwnaeth Duw Dofydd; $CFGH$ duw iav gwnaeth Duw ofydd; D Dyw Jof y gwnaeth düw ofydd; $MRz\mathcal{B}$ duw iay y gwnaeth düw ofydd; N Difiev o gwnaeth Duw ofydd; $ShxCGR$ dydd yav ve gwnaeth düw ddovydd; X dydd jav vo gwnaeth düw ddovydd; $Yr\mathcal{D}\mathcal{F}\mathcal{O}\mathcal{P}$ Difiav dranoeth ir dovydd; Z A dyw Iaü gwnaeth yn Dofydd (A dywflaü gwnaethe yn Dofydd); b difiav gwnaeth düw ofydd; cg Difiau y gwnaeth Duw ddofydd; e dydd jav fe gwnaeth düw ddafydd; j a duwiau i gwnaeth Dofydd; l difiav dranoeth er dofydd; m Duw iaü i gwnaeth yn ddofydd; t Difiev i gwnaith y dofydd; n difai i gwnaeth duw ofydd; w difiav gwnaeth duw dofydd (dyw joy gwnaeth duw dofydd); y Dyw Jau y gwnaeth düw dofydd; \mathcal{D} duwviav dranoeth er dovydd; E^1 Difiav dranoeth fy r dofydd; J Difiau y gwnaeth Duw ufydd *gyda* dofydd *yn amrywiad ar* ufydd; [A^3]; 21+ s Yn llowydd an llawenydd.

22 $A^1A^2BCEFHIJNPTVWbdnpqt\mathcal{H}\mathcal{L}$ yr holl enfeiliaid yn rhydd; $GKRUYgi-mqstz\mathcal{B}\mathcal{D}E^2M\mathcal{P}$ yr holl aniveiliaid yn rydd; c yr holl anifeied yn rhydd; r y holl anifeiliad rhydd; u yr holl anifeiliad yn rhwydd; w y rrol nefeilied yn rrydd; $\mathcal{A}E^1$ yr hollt nifeiliaid yn rhydd; \mathcal{F} Yr anifeiliaid y rhÿdd; \mathcal{N} yr holl anifeiliaid rhydd; \mathcal{O} yr holl Anifeiliaid y rhydd; [A^3].

23 $A^1A^2IJTUWadiuF\uparrow(J)\circ$ drvd i arfav drwy derfyn *gydag* arfaeth iawn *yn amrywiad ar* i arfav *yn U*; *CGH* Ar drud arfaeth drwy derfyn; *BP(U)*l Drud arfaeth iawn drwy derfyn *gyda* Gwydd per a ffob aderyn *yn amrywiad ar y ll. yn P*; *D(P)* gwydd per a phob ederyn; *EFLMNRbosyz\uparrow\uparrow* dryd arfaeth drwy dervyn *gydag* ei arfau *yn amrywiad ar* arfaeth *yn J*; *K* dyrvd ar faeth drwy derfyn; *O* drvd i arfayth trwy derfyn; *Q* a dryd ar faeth drwy derfyn; *SXhxC\GGK* drvd o aürfaeth drwy derfyn; *Vcfnqwe^2\uparrow* drvd y arfaeth drwy derfyn; *Y \mathcal{D}^1* Drud i arvaeth daiar dervyn; *e* dryd o aurfach drwy derfyn; *kM* Drüd arfaeth iawn trwy derfyn; *m* Dryd fi'n faeth trwy derfyn; *p* Drvd i arfaeth iawn trwy dervyn *gyda* drwy *yn amrywiad ar* trwy; *r* Drüd i arfau drwy erfyn; *t* Drvd ir arfayth drwy derfyn; \aleph drvd o arfaeth drwy derfyn; [A^3Zj].

24 $A^1TW\uparrow$ i droi/n/ dda i drvan o ddyn; A^2dfq I droi yn dda i dryan o ddyn; *BCGHPk(p)\M\aleph* ai troi'n dda ir truan ddyn *gyda* twrn *yn amrywiad ar* truan *yn P*; *D* ai troi n dda ir twrn dyn; *EF* ai troi yn dda i'r trvan ddyn; *Iaiu\uparrow* i droi/n/ dda i drvan ddyn; *JU(J)* i droi yn dda i drvan ddyn *gyda* troi *yn amrywiad ar* droi *a* trvan *yn amrywiad ar* drvan *yn U*; *KLMOQVmosty* ai troi yn dda yr tryan ddyn; *N* ai troi yn dda tryan ddyn; *Rz* y droi yn dda yr tryan ddyn; *SXhxC\GGK* Ai droi'n dda i dryan o ddyn; *Yep\uparrow\mathcal{D}^1 ai droi yn dda i dryan o ddyn *gyda* troi *yn amrywiad ar* droi *a* trvan *yn amrywiad ar* drvan *yn P*; *bn* ai troi yn dda ir trvan o ddyn; *cg* ai droi yn dda druan ddyn; *l* a droe yn dda i drvan o ddyn; $r^2F\circ\uparrow$ ai droi yn dda i drvan o ddyn; *vw* ai droi/n/ dda i drvan ddyn; \mathfrak{B} ydroi yn dda yr tryan ddyn; *J A'u* troi'n dda i'r truan o ddyn (I droi yn dda i druan ddyn); [A^3Zj]; 24+ *s* Gwedi hyn yn deg uniawn.*

25 *VWoquF* Dùdd Gwener yn Dêg Vnniawn; *e* dyw gwener deg jniawn; *s* Dydd gwener gwnaeth d'arglwydd; [A^3].

26 $A^1A^2DJKS-VXadehiuvxC\uparrow\uparrow K$ addaf a wnaeth addfwyn iawn; *BLNOPcfcgkq^1M\aleph* Adda a wnaeth yn addwyn iawn; *E* Addaf y wnaeth addfwyn iawn; *I* Adda a wnaeth addfwyn iawn; *MRmoz\uparrow\uparrow* addaf anaeth yn addvyn iawn; *Qb* Adda a wnaeth yn addfwyn iawn; *W* Addef a wnaeth addfwyn iawn; $l\mathcal{E}^2$ addaf a wnaeth addwyn iawn; *n* addaf awnaeth yn addwyn iawn; $p\uparrow$ Adda a wnaeth/n/ addwyn iawn; *s* Addaf a wnaeth addfwyn iawn; *w\uparrow* adda wnaeth yn addwyn iawn; *y* Addaf y naeth ayddfwyn iawn; [A^3].

27 A^1A^2TWaiu Düw a dynawdd ai nawdd naf; *CGH* Ef a dynodd a nawdd nâf; *DJ(P)dm\uparrow(J)* Iessv a dynawdd nawdd naf; *EF* Ef a dynawdd i nawdd naf; *IDvw* a dynodd a nawdd naf; *N* [] dynawdd oniaudd naf; *O* dvw a dynawdd oi nawdd naf; *PV\uparrow* Ef a dynawd fy nawdd naf *gydag* Iesu a

dynawdd nawdd naf *yn amrywiad ar y ll. yn P*] a drwy *yn amrywiad ar fy yn V*; *Q* Efa dynnawdd fy nawdd Naf; *R*β efo ydynodd ofewn naf; *S*κ ef a dynnawdd dy nawdd naf; (*U*)*Z* Ef a dynnawdd oi' Nnawdd Naf; *Uc*q^Fl^oo^p Iesv a dynawdd o'i nawdd naf *gydag ef yn amrywiad ar Iesu yn U*; *Xehv*x^Cg ef a dynnawdd bv nawdd naf; *Yf*ϕ^E Iesu tynawdd oi nawdd naf; *g* Iesu a dynawdd fy nawdd naf; *l* iessv a dynodd oi nodd naf; *n*e² dwv a dynnawdd drwy nawdd naf; *o*(*p*) Efa A Dynnodd Fy Nawdd Nâf; *p* Iessu a dynawdd o nawdd naf (ef a dynawdd vy nawdd naf); *r* Iesu a dynnodd oi Nawdd naf; *s* Ef dynodd fy nawdd nâf; *t* Iesv a dynnawdd nawdd maf; *w* duw a dynawdd dry nawdd naf; *z* efo dynodd o fewn af; ϑ Efa a Dynnawdd, Fy Nawdd Nâf; Ñ ag a dynnawdd fy nawdd naf; [*A*³].

28 *A*¹*GPQVYZbckr*l^o Iesin oedd asen Adda *gydag Iessu yn amrywiad ar Iesin yn P*; *A*² Iessin oedd assin addaf; *L* resyn oedd asen Addaf; *M* Jessin yn assen addaf; *SXhv*κ esin oedd asen addaf; *e* ef in oedd asen addaf *gydag esin yn amrywiad ar ef in*; *m* Essyn oedd Assen Adda; *o* Iessun o Assen Addaf; *u* Iesu oedd assan Addaf; *w*e¹ eisay vn oedd assen Addaf; *x*(*e*)g esin oedd asen Addaf; *y* Iessü yn oedd assen addaf; ϑ Iessun oedd, Assen Addaf; ^F Iessim oedd Assen Addaf; [*A*³].

D 1–32, 35–8, 33–4, 40, 39, 41–8, 50, 49, 51–6, 77–80, 57–74, 81–8, + *Dwyn Addaf dwv naf dawnoedd / dwyn Efa hyd y nefoedd / Dywaist oedd etholedigion / oedd o hil Adda i honn*, 95–8

G 1–32, 35–8, 33–4, 39–74, 77–8, 81–4, 95–8 [cf. *KQb, t, m*]

I 1–34, 37–8, 41–6, 48, 47, 49–54, 57–60, 63–8, 71–2, 85–6, 75–8, 81–4, 69–70, 87–90, 93–4, 91–2, 95–8 [cf. *A¹A²TWadiu, JH1*]

JH1 1–10, 12, 11, 13–34, 37–8, 41–6, 48, 47, 49–56, 39–40, 57–60, 63–8, 71–2, 85–6, 75–8, 81–4, 69–70, 87–90, 93–4, 91–2, 95–8 [cf. *A¹A²TWadiu, I*]

KQb 1–32, 35–8, 33–4, 39–74, 77–8, 81–4, 93–6, 85–8

L 1–32, 37–8, 35–6, 33–4, 39–74, 77–8, 81–4, 93–6, 87–8

M 1–36, 39–64, 67–8, 71–8, 81–8, 93–8

N 1–68, 73–80, 85–6, 81–4, 87–8, 91–2, 95–8

O 1–68, 71–80, 85–6, 81–4, 87–8, 91–2, 95–8

RzB 1–68, 71–88, 93–8

S 1–68, 71–8, 81–8, 93–8 [cf. *RzB*]

U 1–38, 33–4, 41–6, + *bytassan a dugan dâl / adda ac efa afal*, 47–8, 50, 49, 51–6, 39–40, 57–74, 85–6, 75–84, 69–70, 87–90, 93–4, 91–2, 95–8

V 1–32, 35–8, 33–4, 39–74, 77–8, 75–6, 79–84, 93–8, 85–6, 85–6, 75–6, 89–92

XhvxCGK 1–48, 50, 49, 51–68, 71–4, 85–6, 75–8, 81–4, 87–8, 93–8

YD^e1F 1–32, 35–8, 41–2, 39–40, 45–8, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 71–2, 85–6, 73–4, 93–8 [cf. *rO, p*]

Z 1–22, 25–52, 54–68, 71–88, 69–70, 89–98

cg 1–10, 13–50, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 75–84, 71–4, 93–6, 85–6, 97–8, 87–8 [cf. *f, l*]

e 1–48, 50, 49, 51–8, 65–8, 71–4, 85–6, 75–8, 81–4, 87–8, 93–8 [cf. *XhvxCGK*]

f 1–10, 13–42, 45–50, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 75–84, 71–4, 93–8, 87–8 [cf. *cg, l*]

j 1–22, 25–6, 29–52, 54–68, 71–8, 69–70, 89–98 [cf. *Z*]

l 1–32, 35–8, 41–2, 39–40, 45–8, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 71–2, 85–6, 73–4, 93–4, 97–8

m 1–32, 35–8, 40, 39, 41–54, 57–68, + *A chweawr duw mawr or modd / trigarog yno y trigodd*, 69–74, 77–8, 81–8, + *dwyn Adda duw naf dyn*

- oedd / A dwyn Efa hyd y nefoedd / Daethant ith ol y doethion / oedd hil i Adda a hon, 95–8 [cf. t]*
- n* 1–12, cywasgwyd llau. 13–14 yn un ll., 15–66
- o* 1–68, 71–8, 81–8, 93–8
- p* 1–32, 35–6, 39–40, 45–8, 43–4, 51–68, 71–2, 85–6, 73–4, 93–8
- q* 1–32, 35–56, 81–2, 59–68, 75–84, 87–8, 97–8
- r* 1–32, 35–8, 41–2, 39–40, 45–8, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 71–2, 85–6, 73–4, 93–8, 75–8, 81–4, 69–70, 87–92 [cf. *YD*¹ *F*, *p*]
- s* 1–10, 13–18, 11–12, 21–2, 19–20, 25, 22, 23–4, 25–32, 35–8, 33–4, 39–74, 77–8, 81–4, 93–6, 85–8
- t* 1–32, 35–8, 33–4, 40, 39, 41–68, + *A chwechawr Dürw mawr or modd / tragor ynof/i/ trigodd, 69–74, 77–8, 81–8, + Dwynn Addaf Dürw naf dyn oedd / dwyn Efa hyd y nefoedd / Dygost o theledogion / Oedd o hil Adda o honn, 95–8 [cf. *KQb, m*]*
- w* 1–56, 81–2, 59–68, 75–84, 87–8, 97–8
- y* 1–6, 9–68, 71–8, 81–8, 93–8
- Ʒ*² 9–68, 75–84, 71–4, 93–8, 87–8 [cf. *f*]
- l* 1–80, 85–8, 91–2, 81–4, 95–8 [cf. *BPkM*]
- J* 1–68, 71–8, 81–6, 69–70, 87–90, 93–4, 91–2, 95–8, 87–8 gyda llau. 71–4 yn ymddangos hefyd ar frig y ddalen heb farc lleoli
- l*₂ 1–42, 45–50, 43–4, 51–6, 81–2, 59–68, 75–84, 71–4, 93–8, 87–8 [cf. *cg, f*]
- N* 1–10, 13–32, 35–9, 33–4, 40–74, 77–8, 81–4, 93–6, 85–8
- p* 1–32, 35–8, 41–2, 39–40, 45–8, 43–4, 51–6, 81–2, 61–8, 71–2, 85–6, 73–4, 93–8, 75–8, 81–4, 69–70, 87–92 [cf. *YD*¹ *F*, *r* 1]

Cywydd o ddechrau'r byd hyd Grist

- Yn ddi-fai y gwnaeth Duw, [a'n bod] yn ei foli,
 [Roi] cychwyn i'r byd, diwyro yw Ei ddoethineb.
 Pob peth, [drwy] fwriad di-ffael,
 4 A greodd Duw yn [ei] union radd.
 [Yr] holl angylion, ar ddatliad yr Arglwydd,
 [Drwy] ras ymhell yn ôl, a wnaeth Duw yn gyntaf;
 Ar ddydd Sul, yn anrheg [i'r] oesoedd [dilynol],
 8 Y gwnaeth [Ef] hwynt, a gwyrrth oedd.
 [Ar] ddydd Llun y gwnaeth Duw[r] rheolwr
 Yr haul hardd i reoli[r] dydd
 A[r] awyr ddifrycheulyd
 12 A'r sêr i gyd: dyna saer/grefftwr oedd [Ef]!
 [Ar] ddydd Mawrth, [y] dyweddiad gorau,
 Y gwnaeth y Tad ryfeddod hardd:
 Y moroedd gynt, mur a oedd gywrain,
 16 A'r tiroedd yr ochr arall.
 [Ar] ddydd Mercher, myfyrgar fu'r Mab,
 Heb gynilo fe wnaeth Duw[r] pennaeth anrhydeddus
 Bysgod i ddod i ddyn [at ei ddefnydd],
 20 Pob un [i ddod] i[r] tir, [a] phob aderyn.
 [Ar] ddydd Iau fe wnaeth Duw[r] meistr
 Yr holl anifeiliaid yn rhwydd,
 Amcan gwerthfawr [ar gyfer y] ddaear i gyd
 24 A'i droi'n ddaioni ar gyfer dyn truenus.
 [Ar] ddydd Gwener, yn hardd [a] chyfiawn,
 Y gwnaeth [Ef] Adda, gwrthrych tra dymunol;
 [Yna] fe dynnodd f'Arglwydd y mae nawdd yn perthyn iddo
 28 Asen Adda, yr oedd yn brydferth,
 I wneuthur â'i law ddisglair sanctaidd,
 Ef a fedrai orau, wraig iddo.
 [Ar] ddydd Sadwrn, cyn baich niwed,
 32 Yn gyflym [ac] yn hardd y bendithiodd
 Bob peth (Pennaeth brenhinol oedd
 [A] gwneuthurwr rhyfeddodau) yr oedd wedi ei wneud.
 [Ar] ddydd Sul yr oedd ganddo ddewis hyfryd,
 36 Arglwydd iachâd, gorffwyso a wnaeth
 Ac anfon pob negesydd
 O'i fintai Ef [o angylion] i gadw heddwch.
- Ac Adda, gwyddai Duw hyn [ymlaen llaw],
 40 Ac Efa hardd, megis Tad ac amcan [ganddo],

- O fewn yr amddiffynfa nid yw'n mynnu [bod] niwed,
 Ym mharadwys fe'u priododd [hwy ill dau].
 Ni buont hwy mewn cyflwr iach
- 44 Yn llafar yno nemor ddim:
 Efa a barodd [hynny] o fewn awr
 A chael dial cyn pen dwyawr.
 Nid oedd ond prin wedi dwyn o bren y degwm
- 48 [Un] afal [nag y] troes yn ofid trist [iddi],
 Ac mewn siom [oherwydd] darpariaeth ryfedd
 Angel Duw ar lwybr eglur
 A'u gyrodd hwy o hon, eu hystad,
 52 [Dyna] stori ddychrynlyd, i Ddyffryn Ebron;
 Ac Adda, yn gyntaf i [oddef] ei boen,
 A weithiodd â'i law fawr
 A'i gaib finiog, mewn dryswch llwyr:
- 56 Cynllun gerwin i ddial ar dwyll!
 [Am] ddeuddeng mlynedd, [hyd ei] dranc tywyll,
 Ar hugain, ni bu [ef] yn graff iawn,
 A naw cant, [gyda] chlod milwr,
- 60 Yn wych ei gorff, y bu'r gŵr byw.
 Ac [yna] wedi cyflawni [ei] fradwriaeth,
 Bu Adda farw: da y gwyddai [hyn].
 Arhosodd yn uffern, [lle] ar lun mignen,
- 64 [Am] bedair mil, gormod o fyw,
 A chwe chant, cyn [i] heddwch oesi,
 Adda flinderus, o flynyddoedd,
 A phedair (gwae [ni] na thawn!)
 68 [O] flynyddoedd hir [yn ychwanegol] bu gorwedd hwn.
- [Yna] daeth Crist, a'th gyfaill cywir oedd [Ef],
 Yn raslon, i dynnu'r cenedlaethau [o'u caethiwed]
 (Da oedd y Mab, perffaith oedd y dull,
 72 Yn rhodd disgybl, yn dda y'n dysgodd [ni])
 Ac [i] gymryd, [drwy gyfrwng y] ddau air sanctaidd,
 [Y] cyfarchiad i'w fam, gnawd o[r Forwyn] Fair;
 Ac wedi, ar wely o wneuthuriad gwych,
- 76 [Ei] eni o Fair, gwn [mai] merch wych [oedd hi],
 Diniwed oedd, chwarae a wnaeth
 Â phêl yn ei fachgendod,
 Hyd nes iddo fynd, [gyda] hiraeth alltud,
 80 Awdur gwaith ein [Hiachawdwriaeth], yn ddyn o ran oed.
 [Am] ddeuddeng mlynedd, [gydag] wynepryd arglwydd,
 Ar hugain, a pheth [amser] yn ychwaneg,

- 84 Y bu'r Person byw yr ydym yn ei garu,
 [Yn dwyn] buchedd hardd, yn y bywyd hwn.
 Daeth dynion da yn ddisgyblion
 Ar unwaith i wŷr Anna.
- 88 [Yna] yn fodlon y gwnaeth ddiodef,
 Yn Ei gnawd [Ef] dygodd Duw ni i'r nefoedd
 Fel y mae'n dangos, yn batrwm [yr] un Gair,
 Delw'r groes, gwedd ddaionus ar grair:
 Y byd a fu [cyn hynny], yn fodlon y mae [i hyn],
- 92 A brynodd yn sicr ar y pren.
 Na fydded [yr un] dyn o ysfâ ry ffôl,
 [Wedi] darpariaeth gwaed, ar ôl Ei lafur [Ef drosom]:
 Ni fydd Crist yn prynu nefoedd, [ar] siwrnai wynfydedig,
- 96 [Drwy] rym gwaed, ar ôl yr un tro,
 Ac nid oes, wedi'i [weithred o] ymostyngiad Ef,
 Fab i frenin a'i pryno mwyach.

Cywydd ar y Deg Gorchymyn

- Llawrodd a roes i Foesen,
 Da yw rhodd Mab Duw i'r hen!
 Llyma rodd, os adroddaf,
 4 Dawn oll a roddes Duw Naf,
 Y Dengair Deddf bucheddfawr,
 Arwydd graen ar y maen mawr.
 Gwn ganmol fy neddfol Naf,
 8 Gŵr a'i cant y gair cyntaf:
 Câr dy Dduw lle y ceir dy ddysg,
 Cei roddion, câr Ei addysg
 Yn fwy ac yn ddifewyd,
 12 Dymor beirdd, na dim o'r byd.
 Yr ail gair, eiriol gariad,
 Un ni dwyll o enau Ei Dad:
 Credu i Dduw, nid credo ddig,
 16 Crediad sanctaidd caredig,
 Heb ddwyn Ei henw, Henerw hedd,
 Gair wiwgamp, mewn gorwagedd.
 Y trydydd gair (band tradoeth?)
 20 I ddyn o ras Duw a ddoeth:
 Cais gadw yn abl ddigablfraint
 Gwyliau a noswyliau y saint;
 Drosot ti y gweddïant,
 24 Bechadur, nid segur sant!
 Diofer yw'r pedwerydd,
 Goreurwr ffawd, gair o'r ffydd:
 Câr, er Crist, dy gyd-Gristiawn,
 28 Cymorth o'th ymborth a'th ddawn,
 Yn gymaint, nid yw gamach,
 Â th'di dy hun, y mae'n un ach.
 Y pumed, ddihoced ddysg,
 32 Goreuddawn, gair o addysg:
 Câr di dy dad, fad fawrwedd,
 A'th wenfam, waith ddinam wedd;
 Deudad a gâr dyn didwyll,
 36 Dedwydd, o bydd yn ei bwyll:

- Ei dad bedydd, herwydd hawl
 Ffyrfaidd, a'i dad corfforawl.
 Y chweched, efrifed fron,
 40 O'r geiriau dan aur goron:
 Na ladd ddyn, na ludd ei einioes,
 Na fyrha waith iaith ei oes;
 Y mae tri diymgel elyn
 44 A luddia Duw i ladd dyn:
 Calon, llaw anffyddlon ffawd,
 Drygau difwyn drwgdafawd.
 Y seithfed, na fydd sythfalch,
 48 Gair byr a draetha Gŵr balch,
 Na ddwg, dan gilwg wylaw,
 Ledrad, ŵyth liwiad i'th law;
 Mawr yw rhinwedd d'arfeddyd:
 52 Maddau'r byrn mewn moddau'r byd!
 Yr wythfed gair, Fair Forwyn,
 Mintai ddoeth yw maint i'i ddwyn:
 Na wna, nac eiriol ar neb,
 56 Er doniau Duw, odineb;
 Na chwennych, dros rych yr og,
 Mudo gwraig dy gymydog
 Ac na ddwg yn ddiiglef
 60 Ddim a'r a fo eiddo ef.
 Y nawfed gair rhag nwyfiant,
 Nefol Iôr cedol a'i cant:
 Na thwng, na wna waith angall,
 64 Anudon, ddyn cyfion call,
 Yn erbyn, clau ddyfyn clod,
 Deuged abl, dy gydwybod.
 Y degfed, mawr ludded laith,
 68 Ar eiriau Crist yw'r araiith:
 Na ddwg letffol dystiolaeth
 Ar gam rhag dyfod yn gaeth
 Mewn penyd mawr yn poeni
 72 Yn uffern a'i hagrwrn hi.
 Y Dengair Deddf bucheddfawl
 A ddywad Duw, ddiwyd hawl,
 Lluniant ddefod gyfrodedd:
 76 Llyna 'ntwy, da y lluniant hedd,
 Dilesg yw eu Hadeilwr,
 Diamau mai gorau Gŵr.
 Digabl pob parabl o'r pen

- 80 A'r mesur yng nghôr Moesen.
Disgyblaeth, fab, arfaeth fu,
Disgybl a gâr eu dysgu,
Diangall ydyw y Dengair,
84 Dysgwn ac eurwn bob gair.

Ffynonellau

A—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 337^v B—Gwyn 1, 24 C—J 101 [= RWM 17], 443 D—LIGC 2008B [= Pant 40], 35 E—LIGC 3038B [= Mos 130], 189 F—LIGC Mân Adnau 55B [= Abertawe 1], 169 G—Llŷt 30, 337 H—Llŷt 118, 459 I—Llŷt 166, 159 J—Pen 82, 71

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *DE* Llawrodd a rois duw, *F* Llawrodd roes Duw. 2 *ABCG*–*I* ywr; *BG*–*J* vn mab; *A* rhen, *B* ir hen (Rhên, dominus). 3 *DEF* dyma, *GI* Llyna. 4 *GI* roes. 8 *BDEGI* ar y. 9 *EGHI* lle keir. 11 *BD*–*GI* dy fywyd, *J* ddfowyd. 12 *BD*–*GI* nor; *BD*–*GI* ac na dyn. 14 *ACH* vn nid twyll, *BD*–*GI* ni ddaw twyll, *J* yw ni dwyll; *ACH* yn tad, *BD*–*GI* y tad. 15 *BD*–*GI* kred i; *ACJ* nid kred. 16 *F* Credaidd. 17 *AC* ddwyn henw. 19 *J* pond. 20 *J* iw ddwyn. 21 *BDEGI* [*Cais*] kadw yn, *F* Cadw ddyn yn. 22 *ACDFHIJ* [*y*]. 24 *BD*–*GI* ddyn segur. 25 *D* bedwerydd. 26 *AC* gore ywr, *DEF* goreifawr, *H* gore wr. 28 *ACH* kymorth wyth; *ACH* ith ddawn. 29 *F* nad. 30 *E* maen yn iach. 31 *J* bymed; *AC* tioged dysg, *HJ* dioged gysg. 33 *A*–*J* kar dy; *ACFHJ* fowredd. 34 *J* hael vam. 38 *AC* ffyrfwedd ai Dad, *BD*–*GI* ffyrfaidd a thad, *HJ* ffvrffedd aiddad. 39 *A*–*GI* afrifed. 41 *ACDFH* [*ei*]. 42 *BDEI* chwaith, *J* [*waith*]; *J* i iaith nai oes. 46 *J* dreigiav. 47 *H* [*Y*]. 48 *AC* draeth. 49 *BD*–*GI* wylaw. 50 *BD*–*GI* ledradwaith, *J* Lledrad wrth; *I* in, *J* ath. 51 *GI* y rhinwedd. 52 *ACJ* bwrn. 53 *EI* Yn. 54 *BD*–*GI* yw maent yw. 55 *DF* na eiriola, *BEFGI* nag eiriola. 56 *F* Ner. 57 *BD*–*GI* mwy nar ych nar og. 58 *F* Na mudo; *AC* wraig; *DE* [*dy*] gymydog. 59 *BDFGI* mewn eiddiglef, *E* mewn diddiglef, *I* ddigolef. 60 *DE* dim; *J* iddo. 61 *ACH* [*Y*]. 65 *BD*–*G* derfyn, *I* derbyn. 66 *BD*–*GI* Dwy. 67 *BD*–*GI* mewn llydded llaith. 68 *DF* cryf. 70 *A* dy fod. 71–2 [*J*]. 73 *J* bucheddaw. 74 *A*–*I* ddowaid; *I* ddiwedd. 75 *B* llymant, *DEF* Llyma, *GI* llyma r; *J* defod. 76 *B* llyna'n'twy (llyna hwynt hwy); *BD*–*G* [*da y*] llwynant hedd, *C* di llyniant hedd, *I* [*da y*] lwynant hedd. 77 *J* oedd. 78 *J* yw. 79 *J* digabl yw baral oi benn. 81 *BDEGI* Digabl (*B* potius Digaeth), *F* Digaethfab; *F* ar faeth a fu. 83 *D* dingall; *A* ydywr. 84 *A* pob.

Teitl

[*AHJ*], *B* Cowydd ar y dêg gorchymyn D. Ddu, neu S. Kent, *CD* Cow: y Dêg Gorchymin, *EI* Cowydd ar y deg gorchymyn, *F* Cywydd y deg Gorchymmyn D. ddu, *G* ar y deg gorchymyn.

Olnod

AH dd ddv o hiraddug ai kant, *B* Davydd ddv o hiraddig medd rhai ereill sion kent, *C* dd ddv o hiraddûg ai kant A.D. 1340 (*gydag* A.D. 1340 *mewn llaw ddiweddarach*), *DF* Dafydd Ddu o Hiradduc ai cant medd rhai Dr John Cent, *E* Dafydd ddu o hiraddyg ai Cant medd rai mae dr. Jon Kent, *G* Dafydd Ddv o hiraddig medd rhai eraill sion kent, *I* Dd ddu o hiraddig medd rhai eraill Sion Cent ai Cant, *J* dd ddv athro ai kant.

Trefn y llinellau

Yn llawysgrif C y mae llinellau 13–14 wedi cyfnewid lle.

Cywydd ar y Deg Gorchymyn

- Rhoddodd [Crist] anrheg i Foses,
 Da yw rhodd Mab Duw i'r henwr [sef Moses]!
 Dyma rodd, os dywedaf amdani,
 4 Bendith lwyr a roddodd [yr] Arglwydd Dduw,
 Y Deg Gorchymyn mawr eu rhinwedd bywydol,
 Rhyfeddod arswydus ar y garreg fawr.
 Gwn [sut] i foli fy Arglwydd cyfiawngar,
 8 [Y] Person a'i hadroddodd [yn] y gorchymyn cyntaf:
 Câr dy Dduw y mae dy ddysg ynddo,
 Cei roddion [ganddo], câr [di] Ei hyfforddiant [Ef]
 Yn fwy ac yn [fwy] ymroddgar,
 12 [Yn] nhymor [gweithgarwch] beirdd, nag unrhyw beth yn y byd.
 Yr ail orchymyn, o gariad sy'n eiriol,
 Un [gorchymyn] nad yw'n twyllo [sy'n dod] o enau Ei Dad:
 Credu yn Nuw, nid [â] chredo blin,
 16 [Ond â] gweithred o gredu sanctaidd [a] chariadus,
 Heb gymryd Ei enw, Arglwydd tangnefedd,
 Gorchest ardderchog o orchymyn, yn ofer.
 Y trydydd gorchymyn (onid doeth iawn ydyw?)
 20 A ddaeth at ddyn drwy ras Duw:
 Ceisia gadw yn drwyadl [ac fel] braint sanctaidd
 Wyliau a noswyliau'r saint;
 Ar dy ran di y maent yn gweddïo,
 24 Bechadur, nid yw sant yn ddiog!
 Effeithiol ydyw'r pedwerydd
 Gorchymyn sy'n perthyn i'r ffydd, Un sy'n harddu ffyniant:
 Câr [di], er mwyn Crist, dy gyd-Gristion,
 28 Helpa [ef] â'th fwyd a'th rodd,
 Yn gymaint, nid yw[’n] tarddu] o dras wallus,
 Â thydi dy hun, y mae o'r union dras [â thi].
 Y pumed, [sy'n] addysg ddiwyll,
 32 [Yn] rhodd orau, gorchymyn [sy'n] hyfforddiant:
 Câr di dy dad, [sy'n] ffigur mawr daionus,
 A'th fam dirion, oherwydd [ei] phryd di-fai;
 Dau dad a gâr dyn diffuant,
 36 Ffodus ei dynged, os bydd yn ei [iawn] bwyll:
 Ei dad bedydd, yn ôl hawl
 Gadarn, a'i dad yn ôl y cnawd.
 Y chweched, [yn tarddu o] galon eang,
 40 O'r gorchymynion [sydd] dan goron aur:
 Paid â lladd unrhyw berson, paid ag atal ei fywyd,

- Paid â byrhau cynnyrch lleferydd ei fywyd;
 Y mae tri gelyn amlwg
 44 Y mae Duw yn eu rhwystro rhag lladd person:
 Meddwl [drwg], llaw fradwrus [ei] gwaith,
 Drygau ysgeler tafod drwg.
 Y seithfed, paid â bod yn falch a thorsyth,
 48 Gorchymyn byr a draetha Gŵr aruchel,
 Paid â dwyn, gan edrych yn gilwgu,
 [Gan beri bod] yn dy law gyhuddiad dicter;
 Mawr yw daioni dy fwriad:
 52 Hepgor y beichiau yn nulliau'r byd!
 Yr wythfed gorchymyn, [O!] Fair Forwyn,
 Cwmni doeth yw cynifer [ag sy'n] ei gadw:
 Paid â chyflawni, paid ag ymhuedd gan neb,
 56 Er mwyn grasusau Duw, odineb;
 Paid â chwennych, dros gŵys [wedi'i llyfnu gan] yr og,
 Ddwyn [atat] wraig dy gymydog
 A phaid â dwyn yn groyw dy leferydd
 60 Ddim a fo yn eiddo iddo ef.
 Y nawfed gorchymyn yn erbyn chwant anghyfreithlon,
 [Yr] Arglwydd nefol haelionus a'i traethodd:
 Paid â thyngu, paid â chyflawni gweithred ffôl,
 64 Anudon, [ti] ddyn cyfiawn [a] doeth,
 Yn erbyn, [un sydd yn] amlwg hawlio moliant,
 [Yn] helaeth [dy] rodd ddwbl, dy gydwybod.
 Y degfed, [rhag] angau mawr [ei] boen,
 68 O orchmynion Crist yw'r dyweddiad [hwn]:
 Paid â dwyn tystiolaeth ynyfyd
 Yn gamarweiniol rhag dod yn gaeth
 Mewn artaith fawr yn dioddef
 72 Yn uffern a'i chors hyll hi.
 Y Deg Gorchymyn yn dyrchafu bywyd
 A lefarodd Duw, [yn ôl Ei] hawl ffyddlon,
 Ffuriant reol gyson o fyw:
 76 Dyna hwy, yn ddaionus maent yn creu tangnefedd,
 Diorffwys yw eu Lluniwr,
 Y mae'n sicr mai [Ef] yw[r] Person gorau [oll].
 Difai yw pob gair o'r genau
 80 A [phob] rheol yn llys Moses.
 Y mae bod yn ddisgybl, [fy] mab, wedi'i ordeinio,
 Y mae disgybl yn caru dysgu'r rhain,
 Llawn doethineb yw'r Deg Gorchymyn,
 84 Gadewch i ni ddysgu ac anrhydeddu pob gorchymyn.

I ferch anhysbys

4

Llawen dan glaerwen len laes,
 Lleddf olwg gloyw amlwg glwys,
 Llathrlun manol a folais,
 Llariaidd foneddigaidd foes.

Ffynonellau

A—Bangor 1, 14 B—BL Add 15046, 68^v C—Card 2.145, 44 D—Card 2.634 [= Haf 24], 45 E—CM 233, 45 F—CM 250, 52^v G—J 111 [= RWM 1], 1129 H—LIGC 1849B, 43 I¹—LIGC 3029B [= Mos 110], 6 I²—LIGC 3029B [= Mos 110], 48 J—LIGC 3039B [= Mos 131], 590 K—LIGC 5474A [= Aberdâr 1], 827 L—LIGC 13096B [= Llanofor C 9], 29 M—Llst 3, 492^v N—Llst 147, 6^v O—Pen 20, 325 P—Pen 56, 111 Q—Pen 155, 185 R—Pen 271, 63 S—Rhydychen, Coleg Balliol 353 [copi ffotostat yn LIGC 9048E], 113^v

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 189–95.

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *CEFH* gaer wenn, *M darlleniad aneglur*, *K* gaer-wen (glaer[-wen]), *L* glaerwen (gaer[-wen]), *N* gaerwen (glaerwen). 2 *AJSP* loe6 aml6c l6ys. 3 *A* didol, *I*¹ manol *gyda ll. dros yr a*, *I*² maenol, *N* manol (fanol), *Q* deddfol. 4 *A* llathyreid, *N* llaryed (llarieidd).

Priodoliad

OR dd dv ay ka[] ar ymyl y ddalen.

Olnod

O hwnw aelwir lledybroest ar ymyl y ddalen. (*Yn R ceir yr englyn, yna fel rhan o'r testun, nid ar ymyl y ddalen, ceir a hwnw a elwir lledyfbroest.*)

I ferch anhysbys

4

Yn llawen dan fantell ddisgleirwen, laes,
 [Un â] llygaid tyner, disglair, eglur, hardd,
 [Ac â] gwedd wych, deg a folais,
 O ymarweddiad boneddigaidd [ac] addfwyn.

Nodiadau

2

- 2 Y mae'r ail gymal yn hir o sillaf.
- 5 **Adda** Y dyn cyntaf, gw. Gen i.27–v.5. Ar y cyfuniad *plant Adda*, gw. GPC 2818 ac am enghreifftiau pellach yng ngwaith y Gogynfeirdd, gw. GMB 10.35 (Gwalchmai ap Meilyr), 21.21 (Elidir Sais), 31.7 (Meilyr ap Gwalchmai); GLIF 5.62 (Llywelyn Fardd II); GCBM ii, 6.301, 13.2; GDB 29.99 (Dafydd Benfras).
- 6 **aro** Cymerwyd mai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *aros* sydd yma, er y disgwyliid y ffurf *ery*, gw. G 42. Sylwer hefyd yr hepgorir y rh.pth.
- 9–10 **gwnaer ... / ... gwnäed** Sylwer na ddigwydd y ffurf *gwnaer* yn amhrs.pres.dib. nac amhrs.grch. y f. *gwneuthur* yn G 694–7. Sylwer hefyd fod yn rhaid i'r ffurf fod yn unsill yn y cymal hwn i gadw'r mydr, er bod *gwnäed*, sef 3 un.grch. y f. *gwneuthur*, yn y ll. nesaf yn gorfod bod yn ddeusill am yr un rheswm.
- 12 **saith droedfedd** Arno, gw. GDB 5.16 *seith drudueith droetuet!* (Einion Wan) a cf. R 1214.14 *seith drutueith droetued* (Gruffudd ap Maredudd); IGE² 291 (ll. 4) (Siôn Cent); GDG³ 49 (17.30); GBDd 4.62.
- 13 **taerfor** Cf. R 1318.14–15 *Gwychyr dysc val tervysc taer vor gweilgi gann* (Gruffudd ap Maredudd).
- Hector** Mab hynaf Priaf a Hecuba, a'r dewraf o ryfelwyr Caerdroea, gw. H.J. Rose yn *The Oxford Classical Dictionary* (London, 1949), 407.
- 17 **eurfab y brenin** Gall fod yn derm cyffredinol am unrhyw dywysog ond noder bod y Tywysog Du yn rym yn nhiroedd y gogledd o 1343 ymlaen gan ei fod yn Iarll Caer a Thywysog Cymru.
- Iarlles Erbin** Erbin fab Custennin, tywysog Cernyw, hynafiad i o leiaf un gangen o deulu brenhinol Dyfed, gw. R.G. Gruffydd, 'The Early Court Poetry of South West Wales', SC xiv/xv (1979–80), 96; mab iddo yw arwr y chwedl 'Geraint fab Erbin' a thebyg mai at wraig hwnnw, sef Enid, y cyfeirir yma. Sylwer, fodd bynnag, fod *Swydd Erbin* yn digwydd yn cyfeirio at diriogaeth, cf. LIDC 39 (18.94) *pen saeson suyt erbin* ('Englynion y Beddau'); GDB 25.18 *Yn llygru Swydd Erbin* (Dafydd Benfras) a gw. *ib.n.*
- 19 **Efa** Y ferch gyntaf a gwraig i Adda. Yr oedd yn rhan o syniadaeth grefyddol gyffredin yn yr Oesoedd Canol fod ei henw, o'i sillafu am yn

ôl, yn rhoi gair cyntaf cyfarchiad yr angel i Fair, sef 'Ave', a hynny yn arwydd o waredigaeth y ddynoliaeth drwy'r ymgnawdoliad, gw. ODCC² 479. Sylwer mai wedi'r Cwmp y gwisgodd Efa ddillad, gw. Gen iii.21 *A gwnaeth yr Arglwydd Dduw beisiau crwyn i Adda a'i wraig, a'u gwisgo amdanynt*, ac y mae'n debyg fod ysblander y dillad yn gysylltiedig â'r amser wedi'r Cwmp, pan oedd Efa yn wraig bechadurus.

38 Y mae ail gymal y ll. sillaf yn hir oni chywesgir.

39 Y mae ail gymal y ll. sillaf yn hir oni chywesgir.

53 **pum weli** Pum archoll Crist ar y groes, cf. GMB 27.38 *Pym weli, Keli keluytodeu* (Einion ap Gwalchmai).

57 **Mair** Mam Crist, a chan fod iddi safle unigryw fel mam y Gwaredwr, fe'i hystyrir y flaenaf o'r saint sy'n deisyf ar ran daearolion.

canmawl Be. sy'n gweithredu yma fel a. er na restrir ef felly yn G 106 na GPC 413.

63–4 19 sillaf sydd i Gyhydedd Hir ond yma y mae 22, chwech (yn lle 5) ym mhob cymal o'r ll. gyntaf, a phump (yn lle 4) yn y cymal olaf.

65 **Mynydd Olifer** Mynydd yr Olewydd a safle'r Farn, gw. GDB 10.50 *Deuwn rac y uroonn Urynn Olifer* (Llywelyn Fardd II).

66 **symlder** Y mae i'r gair ystyr ddrwg, sef 'ynfydrwydd, ffolineb', cf. R 1360.10–11 *Dos d6c anglot not neidryn dry6 hy agyr drahaus symyl gorryn* (Dafydd y Coed); BD 127 (ll. 30) *rac eu hynuytet ac eu symlhet*; GDG³ 380 (144.19–20) *A'm braich innau, somau syml, / Dan glust asw dyn glwys disyml*. (Ond cf. Gen xxv.27 *Jacob oedd 6r disyml* (Beibl Cymraeg Newydd yr oedd Jacob yn 6r tawel.))

3

Golygwyd y cywydd o'r blaen yn IG 501–7; gwrthodir ef fel gwaith Iolo Goch yn IGE lviii ac ni sonnir amdano yn IGE² nac yn GIG. Cyfartaledd y cynganeddion ynddo yw: cynganedd groes 61.22 y cant, cynganedd draws 18.37 y cant, cynganedd sain 20.41 y cant; ni wna felly ond cael i mewn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg drwy groen ei ddannedd, yn ôl meini prawf Thomas Parry, gw. T. Parry, 'Dafydd ap Gwilym a'r Cyfrifiadur', YB xiii (1985), 114–22 a'r cyfeiriadau yno. Y mae'n amlwg na ellir cymryd bod mater yr awduraeth wedi'i setlo.

1 Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o sillaf, ond gellir naill ai hepgor yr y neu geseilio *Duw o'i*.

3–4 **Pob rhyw beth ... / A greodd Duw** Fel y nodir yn y Rhagymadrodd, y mae trefn y Creu yn y cywydd hwn yn wahanol i'r hyn a geir yn y Beibl

- yn Gen i–ii ac ym mwyafrif mawr traethodau a cherddi'r Oesoedd Canol, gw., e.e., BY 3 (ll. 1)–8 (ll. 15); LIA 5 (llau. 5–18); IG 494–500; R 1367.14–1369.6. Yn y cywydd dilynir yr un drefn, gan ddefnyddio weithiau'r un geiriau, ag a geir yn 'Hystoria Adrian ac Ipotis', gw. LIA 128–37 ac ymhellach J.E. Caerwyn Williams, '*L'Enfant Sage* ac *Adrian et Epictitus* yn Gymraeg', B xix (1960–2), 259–95, *ib.* xx (1962–4), 17–28.
- 9 Ymddengys fod yma dwyll gynghanedd gan nad atebir yr *-n*; ond anodd gweld sut y gellid diwygio. Posibilrwydd arall yw fod yma lun ar gynghanedd lusg rhwng *Dyw* a *llywydd*.
- 10 **rhywlio** Cymerir mai amrywiad ar y be. *rhywoli* yw hwn, ond cf. hefyd *riwlio*, gw. GPC (i ymddangos).
- 26 **Adda** Gw. uchod 2.5n.
- 31 **ymwrn** Cf. T. Gwynn Jones, 'Ysbryd Gwido a'r Prior', B v (1929–31), 104 (llau. 1–2) *y rai a ossodet y maes trwy y mwrn [sic] ac ymrysson mawr a deuynt y mewn*.
- 38 **cadw dydd** Er na restrir y cfn. d.g. *cadwaf*: *cadw* yn GPC 379–80 y mae'n amlwg fod iddo'r ystyr dechnegol o 'gadw heddwch', cf. *ib.* 1119–20 (yn enwedig ystyr 2(b)). Posibilrwydd arall yw fod y ll. hon a'r ll. flaenorol i'w dehongli 'Ac anfon pob negesydd / At Ei bobl Ef i gadw[^or] dydd [yn sanctaidd]'
- 45–6 **o fewn awr / ... cyn pen dwyawr** Cyfetyb hyn yn fras (er nad yn hollol) i'r amserlen a roir yn 'Ystorya Lucidar', gw. LIA 13 (llau. 6–14).
- 47 **pren degwm** Pren gwybodaeth da a drwg, gw. GPC 2874; ymhellach, gw. A.E. Jones, 'Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o'i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â'i farddoniaeth' (Cymru [Bangor], Ph.D., 1981) V.45–6 *Pum oes a droes it yn drwm, / Prynedigaeth pren degwm*; R. Kerr, 'Cywyddau Siôn Brwynog' (Cymru [Bangor], M.A., 1960) LXII.29–30 *Dygodd oddi ar bren degwm / Afal, troes yn ofal trwm*; G.J. Williams, *Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad* (Llundain, 1926), 245^b ll. 34 *diogel ond y prenn degwm*; *ib.*, ll. 42 *prynn dig am y prenn degwm*: priodolir y ddwy enghraifft olaf i 'doctor Sion Cent om tyb i ai kant. Robert ap dd: medd eraill' yn Pen 73, 11.
- 52 **Glyn Ebron** Hen ddinas ychydig dros ugain milltir tua'r de-orllewin o Gaersalem yw Hebron, a man traddodiadol creu a chladdu Adda, gw. G 434 am gyfeiriadau.
- 54 **â'i law fawr** Y mae sôn am faint anghyffredin Adda yn y testun apocryffaidd 'Efengyl Bartholomeus', gw. *New Testament Apocrypha*, ed. W. Schneemelcher and R. McL. Wilson (two vols.; Cambridge and Louisville, Kentucky, 1991–2), i, 542.

- 55 **a'i gaib lem** Sylw IG 505 yw, 'Fe welir fod y bardd wedi d'od o hyd i gaib yn rhywle i Adda', ond cf. GSRh 12.8 *Rhyw barch i ennill rhaw bâl!* (Gruffudd Fychan).
- 57 **deuddeng mlynedd** Y mae'r amserau a nodir yn y cywydd (llau. 57–68, 81–4) yn cyfateb yn hollol i'r rhai a roir yn 'Hystoria Adrian ac Ipotis', gw. LIA 132 (ll. 31)–3 (ll. 5) a J.E. Caerwyn Williams, '*L'Enfant Sage* ac *Adrian et Epictitus* yn Gymraeg', B xix (1960–2), 285.
- 69 Y mae'r -n yn berfeddgoll.
- 70 **i dynnu'r oesoedd** Tebyg mai at Bum Oes y Byd, sef o Adda hyd Grist, y cyfeirir, gw., e.e., BY 10 (llau. 3–9) a'r nodyn, tt. 75–6. Y goel oedd i Grist, wedi iddo farw, ddisgyn i uffern i waredu'r 'oesoedd' hyn, a'r *locus classicus* ar y mater yn y llenyddiaeth apocryffaidd oedd 'Efengyl Nicodemus', gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Efengyl Nicodemus yn Gymraeg', B xiv (1950–2), 108–12; *id.*, 'Efengyl Nicodemus', *ib.* 257–73; *New Testament Apocrypha*, ed. W. Schneemelcher and R. McL. Wilson (two vols.; Cambridge and Louisville, Kentucky, 1991–2), i, 501–36.
- 73 **diwyd ddeuair** *Ave Maria*, sef geiriau cyntaf yr Archangel Gabriel wrth Fair Wry, yn ôl traddodiad, pan gyhoeddodd wrthi ei bod i eni Crist, gw. y traethodyn 'Rybud Gabriel at Veir' yn LIA 159, a cf. Luc i.26–56.
- 74 **ceniad i'i fam** Gw. y nodyn blaenorol a cf. R 1199.16–18 *Gabriel geudaŵt ... / A vu gennyat* (Gruffudd ap Maredudd).
- 77–8 **gwarae ... / Y bêl** Sonnir am y bachgen Iesu yn chwarae yn y traethodau apocryffaidd am ei fagwraeth, ond ni sonnir yn yr un ohonynt amdano'n chwarae pêl, gw. M. Williams, '*Llyma Vabinogi Jessu Grist*', RC xxxiii (1912), 184–248, yn arbennig tt. 193, 225, 230, 243, 245; ar ffynonellau'r testun hwn, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Welsh Translations of *Pseudo-Matthaei Evangelium Sive Liber De Ortu Beatae Mariae Et Infantia Salvatoris*', *Proceedings of the Irish Biblical Association*, xvii (1994), 102–25; gw. hefyd *New Testament Apocrypha*, ed. W. Schneemelcher and R. McL. Wilson (two vols.; Cambridge and Louisville, Kentucky, 1991–2), i, 439–53.
- 86 **Anna** Hi, yn ôl traddodiad, oedd mam y Forwyn Fair, gw., e.e., M. Williams, *art.cit.*, 207–13, 239–40; *New Testament Apocrypha*, ed. W. Schneemelcher and R. McL. Wilson (two vols.; Cambridge and Louisville, Kentucky, 1991–2), i, 421–39; ODCC² 59 dan yr enw *St Anne*.
- 88 Y mae'r -n gyntaf yn berfeddgoll a'r drydedd yn ganolgoll.

4

Cyfartaledd y cynganeddion yn y cywydd hwn yw: cynganedd groes 20.2 y cant, cynganedd draws 31 y cant, cynganedd sain 34.5 y cant a chynganedd lusg 14.3 y cant. O safbwynt y cynganeddion, felly, nid oes unrhyw anhawster mewn gosod y cywydd hwn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, gw. T. Parry, 'Dafydd ap Gwilym a'r Cyfrifiadur', YB xiii (1985), 114–22 a'r cyfeiriadau yno.

- 1 **Moeseu** Hen ffurf ar enw Moses, y gŵr a arweiniodd yr Hebreaid o'u caethiwed yn yr Aiff. Ar Fynydd Sinai fe dderbyniodd Moses y Deg Gorchymyn oddi wrth Dduw, wedi'u hysgrifennu ar ddwy lech o garreg. Am y Deg Gorchymyn, gw. Ecs xx.1–17, Deut v.6–21.
- 2 **Mab Duw** Sylwer ar y pwyslais ar swyddogaeth Mab Duw yn y Creu, gw. M.P. Bryant-Quinn, '“Archaf Weddi”': Rhai Sylwadau ar farwysgafn Meilyr Brydydd', LICy xx (1997), 15–16 a'r cyfeiriadau yno.
- 6 **y maen mawr** Y tebyg yw mai at y ddwy lech yr ysgrifennwyd y Deg Gorchymyn arnynt y cyfeirir yma, ac nid at Fynydd Sinai, gw. Ecs xxxi.18 *Wedi iddo orffen llefaru wrth Moses ar Fynydd Sinai, rhoddodd yr Arglwydd iddo ddwy lech y dystiolaeth, llechau o gerrig, wedi eu hysgrifennu â bys Duw.*
- 8 **a'i** Y mae'r 'i proleptig yn cyfeirio ymlaen at *gair*, sef 'gorchymyn'.
- 14 **twyll** Ar *twyll* yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *twyllo* cf. GCBM i, 11.76 *Ny'm twyll pwyll pan ym kyuarcher.*
- 17 Sylwer bod y gynghanedd sain anghyrbwys ddirchafedig yn dra afreolaidd, gan fod y ddwy odl yn cael eu cyflawni gan elfennau ansillafog *henw* a *henerw*, sy'n dechnegol yn unsill ac yn ddeusill.
Henerw Cymerir mai adffurfiad, mentrus braidd, o *ener* yn golygu 'arglwydd, pennaeth' sydd yma (gw. GPC 1214), ond posibilrwydd amlwg arall yw ei fod yn gyfuniad o *hen* ac *erw* ac yn cyfeirio at dirioogaeth tangnefedd, h.y. y fan lle bo tangnefedd Duw yn weithredol. Posibilrwydd arall eto yw diwygio *Henerw* yn *Henenw*, er nad oes sail lawysgrifol i'r diwygiad.
- 29 **camach** Ni restrir y cyfuniad hwn yn G 6, 99–100, na GPC 6–7, 396, ond ystyrir mai cyfansoddair o *cam* ac *ach* yn golygu 'o dras wallus neu dwyllodrus' sydd yma.
- 34 **gwaith** Cymerir mai cywasgiad sydd yma o'r ymadrodd *o waith* yn golygu 'oherwydd', gw. GPC 1564, ond gallai'r ffurf hefyd fod yn e. gyda'r ystyr arferol.

- 37 **tad bedydd** Person sy'n derbyn, yn ystod bedydd Cristnogol, gyfrif-oldeb am stad ysbrydol y bedyddiedig. Yn y testunau Llad. a S. cyfoes 'tad enaid' yw'r ymadrodd a arferir, sef periglor neu offeiriad plwyf, sy'n awgrymu bod Dafydd Ddu yn ymwybodol o hawliau lleygwyr yn y mater hwn.
- 43 **tri diymgel elyn** Sonnir yma am dri gelyn dyn sydd â'r gallu i ladd, sef y galon yn yr ystyr o 'feddwl' neu 'fwriad', y llaw fradwrus, a'r tafod (gw. Iago iii.8 *Drwg diorffwys yw, yn llawn o wenwyn marwol*, ac y mae cytundeb rhwng y galon a'r tafod ym mhob peth, gw. Math xii.34 *Oherwydd yn ôl yr hyn sy'n llenwi'r galon y mae'r genau'n llefaru*).
- 49–50 **dwg ... / Ledrad** Digwydd yr ymadrodd *dwyn ledrad* yn y cyfreithiau gyda'r ystyr 'dwyn' neu 'ddwyn yn llechwraidd', gw. WS *Dwyn yn llatrat* ynghyd â'r cyfieithiad *Steale*; cf. LIB 94 (llau. 8–9) *Gwerth cath a warchattwo yscubawr brenhin, or lledir neu or dygir letrat*; WML 82 (ll. 2).
- 53 **Mair Forwyn** Y mae enw mam Crist yn cael ei ddefnyddio fel math o ebychiad yma, ac y mae hynny'n briodol gan mai diweirdeb yw pwnc y gorchymyn dan sylw.
- 54 **maint** Defnyddir *maint* yn enwol i olygu 'cynifer', sef cynifer ag sydd yn ei ddwyn, neu'n plygu i'r gorchymyn.
- 59 **diiglef** Cyfuniad o'r neg. *di-*, gyda'r elfennau *ig* (gw. GPC 2015) a *llef* yn dynodi ataliad ar y lleferydd.
- 66 **deuged** Sylwer bod y cyfansoddair hwn yn rhagdybio bod *ced* yn eg.
- 72 **hagrwern** Y mae'r arfer o gyfeirio at uffern fel *gwern*, sef cors, yn gyffredin yng nghanu Beirdd y Tywysogion, gw., e.e., GMB 16.13 (Elidir Sais), 24.30 (eto); GCBM i, 3.70; GCBM ii, 16.14, 56, 124; GBF 41.37 (Gruffudd ab yr Ynad Coch); â *hagrwern* yn benodol, cf. GMB 20.18 *Oer hagrwern gethern* (Elidir Sais).
- 74 **dywad** Rhestrir *dywad* yn ffurf amrywiol ar *dywawd*, sef 3 un.grff. myn. y f. *dywedyd* yn G 431.

5

Englyn lleddfbroest sy'n cael ei ddosbarthu yn y Gramadeg fel un sy'n gorffen gyda phedair dipton leddf wahanol ynghyd â chytsein. Yn ôl John Morris-Jones, yr oedd hwn yn ddosbarthiad dilys ar englyn proest yng nghyfundrefn yr hyn a eilw ef 'Yr Hen Bedwar Mesur ar Hugain', gw. J. Morris-Jones: CD 325.

3 **llathrlun** Cf. GP 13 *Llathrylun goleu Oleudyd*.

manol Amrywiad ar manwl, cf. GCBM i, 5.89 *Gwryry fanon fan6l*.

- 4 Er bod y ll. hon wedi ei dehongli fel petai'n cyfeirio at y ferch, gallai hefyd gyfeirio at weithred y bardd yn moli'r ferch; pe dehonglid hi felly gellid aralleirio '[Dyna] arfer boneddigaidd [ac] addfwyn'.

Mynegai

- a:** a'i 3.55n, 4.8n
â: â'i 3.54n
abrwys' 3.52
ambell 2.39
amwyll 3.55
aros: aro 2.6n
awr 3.45n
band 4.19
bedydd gw. tad bedydd
blwyddyn: blynedd 3.57n
brenin 2.17n
bwrn: byrn 4.52
cadw dydd 3.38n
caib 3.55n
calon 4.45n
camach 4.29n
canmawl 2.57n
cawdd 3.31, 41
cenriad 3.74n
ciwdod 3.38
crair 3.90
creu: creodd 3.4n
cymwyll 3.1
cyn 3.46
dadameg 3.13
dal: daliwn 2.1
dall 3.57
degwm gw. pren degwm
Dengair Deddf, y 4.5, 73
 Dengair, y 4.83
deuair 3.73n
deudad 4.35
deuddeng mlynedd 3.57n
deuged 4.66n
diargywoedd 3.11
difewyd 4.11
Difiau 3.21
digablfraint 4.21
di-gam 3.1
diiglef 4.59n
diwyd 3.73n
diymgel 4.43n
drwgdafawd 4.46n
dwyawr 3.46n
dwyn lledrad: dwg ... / Lledrad
 4.49–50n
dydd 3.38n
dywedyd: dywad 4.74n
dyw Gwener 3.25
dyw Llun 3.9
dywmawrth 3.13
dyw Merchyr 3.17
dyw Sadwrn 3.31
dywsul 3.7 **dyw Sul** 3.35
eurbab 3.18
eurfab 2.17n
ffyniant 2.49
ffysg 2.49
gelyn 4.43n
gloywbur 3.29
goreuddawn 4.32
goreurwr 4.26
gosymaith 3.49
graen 4.6
gwaith 4.34n
gwarae 3.77n
gweli 2.53n
gwenfam 4.34
gwneuthur: gwnaethoedd 3.87
 gwnaer 2.9n **gwnäed** 2.10n
gŵr 3.83, 4.78 (am Dduw neu
 Grist)
gwybod: gwyddiad 3.39
gŵyl: gwyliau 4.22

gwyniaith 3.8, 14
gwynieithydd 3.34
hagrwn 4.72n
henerw 4.17n (am Dduw)
henw 4.17n
i: i'i 3.74n
i 4.8n
iôr 2.65, 4.62 (am Dduw)
llaesra 2.19
llathrlun 5.3n
llaw 3.29, 54n, 4.45n
llawrodd 4.1
lledrad 4.50n
llym: llem 3.55n
mab 3.17, 71 (am Grist)
maen mawr 4.6n
maenfedd 2.4
maint 4.54n
mam 3.74n (am Fair Forwyn)
manol 5.3n
mawr 3.54n, 4.6n
mignwern 3.63
mingamddu 2.39
moes 5.4
mudo 4.58
naf 3.5, 27, 4.4, 7 (am Dduw)
noswyl: noswyliau 4.22
o fewn 3.45

oes: oesoedd 3.70n
pab 3.33 (am Dduw)
paradwys 3.42
pêl 3.78n
pen 3.46
peth 3.3n
pob 3.3n
pren degwm 3.47n
pum 2.53n
rhi 2.54 (am Grist)
rhwyfo: rhwyfwn 2.2
rhwylio 3.10n
rhyw 3.3n
saith 2.12n
swydd 2.28
symlder 2.66n
tad 3.14, 40, 4.14 (am Dduw)
tad bedydd 4.37n
taerfor 2.13n
tir: tiredd 3.16
tomog 2.4
tri diymgel elyn 4.43–6n
troedfedd 2.12n
twyll 4.14n
tynnu 3.70n
unGair 3.89
ymwrn 3.31n

Enwau personol

Adda 2.5n, 3.26n, 39, 62, 66
Addaf 3.28, 53
Anna 3.86n
Celi 2.53
Crist 3.69, 95, 4.27, 68 gw. hefyd
Mab Duw, unGair
Duw 3.1, 4n, 6, 9, 18, 21, 39, 50,
 88, 4.4, 9, 15, 20, 44, 56, 74

Efa 2.19n, 3.40, 45
Hector 2.13n
Iarlles Erbin 2.17n
Mab Duw 4.2n
Mair 2.57n, 3.74, 76, 4.53n (gw.
 hefyd **mam**)
Moesen 4.1n, 80

Enwau lleoedd

Erbin 2.17n
Glyn Ebron 3.52n

Mynydd Olifer 2.65n

Atodiad Dd

Dangosir yma'r enghreifftiau mydryddol a geir yn fersiwn Peniarth 20 o'r Gramadeg, a dilynir trefn yr enghreifftiau yn y llawysgrif honno.

1 *Mi yw'r gwas gweddeiddlas, gwan* Pen 20, 322

Dyfynnir yma'r un enghraifft ag a geir yn Atodiad C, rhif 1, ond fe'i defnyddir i enghreifftio un wedd ar y bai 'gŵydd ac absen', sef yn ôl y fersiwn hwn o'r Gramadeg, '*pan vo dwy berson amrauael y gyt yn ymadrawd*'.

2 *Pei prynwn seithbwn sathrgrug—i'th oddau* Pen 20, 322

Dyfynnir yma'r un enghraifft ag a geir yn Atodiad C, rhif 37, ond fe'i defnyddir i enghreifftio ail wedd ar y bai 'gŵydd ac absen', sef yn ôl y fersiwn hwn o'r Gramadeg, '*pan vo deu amser amrauael y gyt yn ymadrawd*'.

3 *Pei cawn o gyflwr gyfle brofi—rhin* Pen 20, 323

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 2.

4 *Dilynais, clwyfais, fal y'm clyw—decant* Pen 20, 323

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 3.

5 *Un dwyll wyt o bwyll, o ball dramwy—hoed* Pen 20, 324

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 4.

6 *Prid yw dy ddilid, ddeuliw ewyn—gloyw* Pen 20, 324

gw. 6 isod

7 *Pan welych llewych lliw gwawr,—bid odid* Pen 20, 324

gw. 7 isod

8 *Nid gwiw gofyn lliw llewychwaith—Tegau* Pen 20, 324

gw. 8 isod

9 *Doeth i feirdd heirdd hardd westi* Pen 20, 325

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 10.

10 *Angharad, hoyw leuad liw* Pen 20, 325

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 12.

11 *Cae a gefais, dawngais, doe* Pen 20, 325

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 13.

12 *Pei byw fy llyw, llew fflamddur* Pen 20, 325

gw. 12 isod

13 *Llawen dan glaerwen len laes* Pen 20, 325

Yr un enghraifft ag Atodiad C, rhif 14; arno, gw. Gwaith Dafydd Ddu o Hiraddug, uchod cerdd 5.

14 *Oddyma ymaith od ewch* Pen 20, 326

gw. 14 isod

- 15 *Mynnwn, cyd yd gäwn gwg* Pen 20, 326
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 15.
- 16 *Na'r haul yn hwyl awyrnaid* Pen 20, 326
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 16.
- 17 *Cyd ymwnel cywyd, bryd brys* Pen 20, 326
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 8.
- 18 *Hunydd hirloyw ei hystlys* Pen 20, 327
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 9.
- 19 *Pan welych llewych* Pen 20, 327
Tri gair cyntaf yr englyn yn unig a roddir yma; fe geir yr englyn yn llawn ar d. 324 y llawysgrif, ac yn Atodiad Dd, rhif 7. Yma fe'i defnyddir i enghreifftio toddaid gyda gair cyrch trisillafog.
- 20 *Dilynais, clwyfais* Pen 20, 327
Dau air cyntaf yr englyn yn unig a roddir yma; fe geir yr englyn yn llawn ar d. 323 y llawysgrif, ac yn Atodiad C, rhif 3. Yma fe'i defnyddir i enghreifftio toddaid gyda gair cyrch deusillafog.
- 21 *Pei cawn o gyflwr* Pen 20, 328
Pedwar gair cyntaf yr englyn yn unig a roddir yma; fe geir yr englyn yn llawn ar d. 323 y llawysgrif, ac yn Atodiad C, rhif 2. Yma fe'i defnyddir i enghreifftio toddaid gyda gair cyrch unsillafog.
- 22 *Chwerddid mwyalch mywn celli* Pen 20, 328
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 17.
- 23 *Onid ynad a darllead—llyfrau* Pen 20, 328
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 18.
- 24 *Nid digerydd Duw, neud digarad—cyrdd* Pen 20, 329
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 19.
- 25 *Morwyn a welais mor drybelid* Pen 20, 329
gw. 25 isod
- 26 *Llafaru a wnafl Llywiawdr nef a'i Naf* Pen 20, 330
Yr un enghraifft ag yn Atodiad Ch, rhif 21.
- 27 *Gwan wyf o glwyf, yn glaf trymaint* Pen 20, 330
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 22.
- 28 *Trindawd ffawd ffêr ...* Pen 20, 330
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 23.
- 29 *Gwan iawn wyf o glwyf er gloyw forwyn* Pen 20, 331
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 25.
- 30 *Wrthyd, Greawdr byd, bid fy ngobaith* Pen 20, 331
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 26.
- 31 *Y Gŵr a'm rhoddes rhiniau—ar dafawd* Pen 20, 332
Yr un enghraifft ag yn Atodiad Ch, rhif 24.
- 32 *Ei barau, arfau arfoloch* Pen 20, 332
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 27.

- 33 *Llithrodd, ys rhannodd, ys rhad* Pen 20, 333
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 29.
- 34 *Gwynfyd gwŷr y byd oedd fod Angharad* Pen 20, 333
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 28.
- 35 *Breichffyrf, archgrwn, byr ei flew* Pen 20, 334
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 31.
- 36 *Hardd-deg riain, hydwf, glwysgain* Pen 20, 335
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 32.
- 37 *Hirwen, na fydd drahaus* Pen 20, 335
gw. 37 isod
- 38 *Lliw eiry glennydd Mynydd Mynnau* Pen 20, 335
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 34.
- 39 *Clermwnt abad di-Ladin* Pen 20, 336
gw. 39 isod
- 40 *Trahaearn, trwyn hen gatwrdd* Pen 20, 336
gw. 40 isod
- 41 *Pei prynwn seithbwn* Pen 20, 336
Tri gair cyntaf yr englyn yn unig a roddir yma; ceir yr englyn yn llawn ar d. 322 y llawysgrif, ac yn Atodiad C, rhif 37. Yma fe'i defnyddir i enghreifftio'r bai 'unig a lluosog ynghyd', sef fod enw unigol *pwn* yn dilyn rhifol lluosog *saith*, ond, wrth reswm, nid yw J. Morris-Jones: CD 88–9 yn cydnabod y bai hwn.
- 42 *Gwrthrych eurgrair pair, pendefig,—ydd wyf* Pen 20, 337
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 35.
- 43 *Gwen dan aur wiwlen, leddf edrychiad—gŵyl* Pen 20, 337
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 36.
- 44 *Ar hyd maes yn llaes y llusgir—uchod* Pen 20, 338
gw. 44 isod
- 45 *Arglwydd yw argledr un cantref—neu ddau* Pen 20, 338
gw. 45 isod
- 46 *Lloer deced, farfred, llwyr fawrfryd—ieuaing* Pen 20, 338
gw. 46 isod
- 47 *Cyrnig, llym, trychig, llam trwch,—ysgerygl* Pen 20, 339
Yr un enghraifft ag yn Atodiad C, rhif 39.

6

Uchelwraig o Bowys

Prid yw dy ddilid, ddeuliw ewyn—gloyw,
 Arglwyddes Fro Gynfyn,
 Cerydd a ddyfydd i ddyn,
 4 Cur wyth ddolur, o'th ddilyn.

Ffynhonnell

Pen 20, 324

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 194.

Olnod

bledyn llwyt ay kant.

Uchelwraig o Bowys

Costfawr yw dy ganlyn, ddwywaith tecach dy liw [na'r] ewyn
 disglair,
 Arglwyddes Bro Cynfyn,
 Cosb a ddaw i ddyn,
 4 Poen [megis] wyth dolur, o'th ganlyn [di].

Nodiadau

Enghraifft o englyn unodl union sy'n cael ei ddsbarthu yn y Gramadeg fel un lle y mae'r pedair odl yn gorffen ag un llafariad ac un gytsain.

- 2 **Cynfyn** Cynfyn ap Gwerstan, uchelwr o Bowys (gw. J.E. Lloyd: HW³ 378n65): tad Bleddyn ap Cynfyn a hendaidd Madog ap Maredudd. Tebyg mai Powys gyfan a olygir wrth Fro Gynfyn. Awgryma hyn mai i Bowys y perthynai'r bardd Bleddyn Llwyd, a chryfha hynny'r posibilrwydd mai'r un ydoedd â'r Bleddyn Fardd a farwnedir gan Gynddelw Brydydd Mawr, gw. GCBM i, cerdd 29.

Olnod Am gerddi eraill gan yr un bardd, gw. Atodiad C, rhif 1 a'r nodyn arno yno, a hefyd Atodiad C, rhif 3.

7

Englyn i farch

Pan welych llewych lliw gwawr,—bid odid

Y dodych droed ar llawr:

Gweilging was, gwanas gwaywawr,

Gwelwgan Gohoywgain main mawr.

4

Ffynhonnell

Pen 20, 324

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 194.

Darlleniad y llawysgrif

3 gwas.

Englyn i farch

Pan weli [di] ddisgleirdeb gwedd [yr] arglwyddes, prin

Y dodi [di] droed ar lawr:

Gwas y rhaidd, cynheiliad gwaywffyn,

Yw Gwelwgan Gohoywgain cul mawr.

4

Nodiadau

Englyn unodl union o waith Gwilym Rhyfel a ddyfynnir yn y Gramadeg i enghreifftio'r cyfuniad o ddeusain dalgron a chytsain yn y brifodl. Ymhellach ar yr englyn hwn, gw. GLIF cerdd 30. (Codwyd yr aralleiriad o'r gyfrol honno a diolchir i'r Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams am ei ganiatâd parod i'w gyhoeddi yma.)

- 4 **Gwelwgan Gohoywgain** Enw march Morfran ail Tegid, Ceredig ap Gwallog neu Drystan, gw. TYP² 103–4. Llatai yw'r march yn yr englyn hwn, ac yn ôl y Triawd yr oedd yn un o'r *Tri Gorderchvarch Enys Prydein*.

8

Uchelwraig o Fôn

Nid gwiw gofyn lliw llewychwaith—Tegau,
 Tegwch Môn aeth ymaith,
 Yny ddêl (mau ryfel maith)
 Bryd f'anwylyd Fôn eilwaith.

4

Ffynhonnell

Pen 20, 324

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 194.

Olnod

llew[] moilr[]wn ae kant.

Uchelwraig o Fôn

Ni thycia holi am un o liw disglair lun Tegau,
 Aeth tegwch Môn ymaith,
 Hyd oni ddêl (fy nghythrwl hir ydyw)
 Harddwch f'anwylyd eilwaith i Fôn.

4

Nodiadau

Enghraifft o englyn unodl union gyda chyfuniad o ddeusain leddf a chytsain yn y brif odl.

- 1 **Tegau** Ar Degau Eurfron, safon glendid yng ngolwg y beirdd a pherchennog mantell hud, gw. TYP² 512–14.
- 2 **Môn** Ailadroddir yr un gair, *Môn*, ddwywaith yn yr englyn hwn, sydd, yn ôl y Gramadeg, yn fai ar englyn (gw. GP 14, 33, 53); esgusodir hynny, fodd bynnag, os yw'r englyn yn enghraifft o 'ysmalawch cariad' fel y mae'r englyn hwn, a cf. uchod Atodiad C, 36.2, 4; Atodiad D, 10.1n, 2 (ond nid Atodiad Dd, 14.4).

Olnod Fel y dywedir yn GP 47n3, enwir yr awdur yn Pen 271, 62 yn 'Llywelyn Moilrawn' ac yn Pen 56, 47 yn 'Ll. voylrawn'. Ar Lywelyn Foelrhon, a oedd yn fyw yn 1305, gw. GDB 363–4.

12

I Lywelyn ap Gruffudd

Pei byw fy llyw, llew fflamddur,
 Ysgwyd friwgalch, falch filwr,
 Ni laddai gad goed Aber,
 Ni byddym gaith na gweithwyr.

4

Ffynhonnell

Pen 20, 325

Ymhellach ar y llawysgrif, gw. td. 194.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 pei. 3 a ber.

Olnod

Gffud yr y[] gydag u uwchben y G-.

I Lywelyn ap Gruffudd

Pe bai fy llywodraethwr [yn] fyw, arwr [a chanddo] gleddyf
 gloyw,
 [Yn dwyn] tarian ddrylliog ei hwyneb, milwr balch,
 Ni chymynai byddin [estron] goed Aber,
